

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 12fed Hydref, 2021
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Rhithiol - Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	ADRODDIAD CHWE MIS CWYNIION A GWELLA GWASANAETH	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	4 - 25
6	CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIRWEDD LLECHI GOGLEDD- ORLLEWIN CYMRU	Cyng. Gareth Griffith	Gareth Jones	26 - 79
7	CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	80 - 103
8	RHAGLEN GYFALAF 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	104 - 112
9	TROSOLWG ARBEDION 2021/22	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	113 - 124
10	DRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN ECONOMI A CHYMUNED	Cyng. Gareth Thomas	Sioned Williams	125 - 132
11	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	133 - 144

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod:	12 Hydref 2021
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679335
Teitl yr Eitem:	Adroddiad 6 Mis Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2021/22

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r sefyllfa *Cwynion a Gwella Gwasanaeth* dros gyfnod 6 mis, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Gwahoddir y Cabinet i ystyried y wybodaeth a gyflwynir.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Sicrhau bod trefniadau *Cwynion a Gwella Gwasanaeth* effeithiol mewn lle ar gyfer pobl Gwynedd.

3. CYFLWYNIAD

3.1 Cefndir

Cyflwynwyd trefn *Cwynion a Gwella Gwasanaeth* y Cyngor yn 2015, wedi ei llunio dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac felly'n gyson gyda threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill.

Mabwysiadwyd y drefn gan y Cabinet gyda'r amcan o ddod â buddiant penodol i'r dinesydd drwy ganolbwyntio ar y datrysiad yn hytrach na'r broses, a chaniatáu i Swyddogion ymdrin yn gyflymach â chwynion. Mae cyfartaledd yr amser y mae cwynion yn agored yn cael ei ddefnyddio fel un mesur o berfformiad y Cyngor.

Mae'r drefn hefyd yn cyd-fynd hefo diwylliant "Ffordd Gwynedd" o rymuso staff i wneud penderfyniadau a chyflawni ar gyfer pobl Gwynedd.

Diweddarwyd *Polisi Pryderon a Chwynion* ar 1af o Ebrill 2021, a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am weithredu'r drefn *Cwynion a Gwella Gwasanaeth* i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol dan ofal y Swyddog *Gwella Gwasanaeth* o fewn y tîm *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad*.

Dylid nodi nad yw'r drefn hon yn berthnasol i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod trefn statudol ar eu cyfer hwy. Mae Ysgolion hefyd yn gweithredu eu trefniadau cwynion eu hunain.

3.2 Ymateb i Gwynion- Eglurhad o'r termau a ddefnyddir

3.2.1 Datrys Cŵyn Anffurfiol

Achwynydd yn cysylltu'n anffurfiol gyda'r Swyddog Gwella Gwasanaeth neu'r Gwasanaeth perthnasol i ddatrys y pryder.

3.2.2 Ymchwiliad i Gŵyn Ffurfiol

Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn yr Adran berthnasol i'r gŵyn, gan swyddog sydd ar lefel ddigon uchel ac sy'n annibynnol o ffynhonnell y gŵyn.

3.2.3 Cŵyn i'r Ombwdsmon

Gall achwynydd fynd â'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'n anfodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor.

Wedi edrych ar y gŵyn, gall yr Ombwdsmon benderfynu ar un o'r canlynol:

- *Dim Ymchwiliad* – ble mae'r Ombwdsmon yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater, ac yn teimlo nad oes angen ymchwilio ymhellach. Gall hefyd fod yn fater sydd tu hwnt i'r awdurdodaeth.
- *Cynamserol* - os yw'r Ombwdsmon o'r farn nad yw'r awdurdod wedi cael cyfle i ystyried y mater.
- *Cynnal ymchwiliad pellach* - ble mae'r Ombwdsmon yn teimlo bod angen ymchwilio ymhellach, i asesu sut mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater.
- *Setliad* – ble mae cytundeb gyda'r achwynydd, ac maent yn derbyn y datrysiaid

4. PWRPAS YR ADRODDIAD

Yn unol â Pholisi Pryderon a Chwynion y Cyngor cyflwynir adroddiad pob 6 mis i'r Cabinet i grynhoi'r sefyllfa a datblygiadau o ran Cwynion a Gwella Gwasanaeth.

Mae'r Adroddiad yma'n crynhoi'r datblygiadau yn ystod y 5 mis Ebrill - Awst 2021, gan ganolbwyntio ar Gwynion Ffurfiol Dilys a Chwynion yr Ombwdsmon.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel, gan bwysleisio'r ymateb i Gwynion er mwyn Gwella Gwasanaeth. Mae hefyd yn nodi unrhyw batrymau neu 'thueddiadau' sy'n amlygu eu hunain.


5. DATA MEINTIOL

5.1 Nifer Cwynion: Sefyllfa Bresennol

Math o Gwynion	Nifer 2020/21		Nifer 2021/22	
	1 Ebrill – 31 Awst 2020		1 Ebrill – 31 Awst 2021	
Cwynion Ffurfiol (Dilys)	4		41	
Cwynion at yr Ombwdsmon	12 11 Dim Ymchwiliad 1 Cynamserol 0 Heb gael ateb 0 Setliad 0 Ymholiad 0 Ymchwiliad 0 Adroddiad 0 Cŵyn wedi ei dynnu nol		12 9 Dim Ymchwiliad 1 Cynamserol 0 Heb gael ateb 2 Setliad 0 Ymholiad 0 Ymchwiliad 0 Adroddiad 0 Cŵyn wedi ei dynnu nol	


5.2 Nifer Cwynion: Sefyllfa Dros Gyfnod ers 2018-19

Math o Gwynion	Nifer 2018-19		Nifer 2019-20		Nifer 2020-21		Nifer 2021-22	
	CH1 & CH2	CH3 & CH4	CH1 & CH2	CH3 & CH4	CH1 & CH2	CH3 & CH4	CH1 & CH2	CH3 & CH4
Cwynion Ffurfiol (Dilys)	20	29	20	22	4	32	41	
	<i>Cyfanswm 49</i>		<i>Cyfanswm 42</i>		<i>Cyfanswm 36</i>			
Cwynion at yr Ombwdsmon	17	18	19	18	13	15	12	
	<i>Cyfanswm 35</i>		<i>Cyfanswm 37</i>		<i>Cyfanswm 28</i>			




5.3 Amser Ymateb Dros Gyfnod ers 2018-19

2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
8.6 diwrnod	7 diwrnod	7 diwrnod	7 diwrnod



6. DADANSODDIAD O'R CWYNION (Cyffredinol)



Dadansoddiad fesul Adran – Gweler Atodiad 1

Gellir darparu gwybodaeth fanwl am Gwynion penodol pe dymunir.

7. PRIF NEGESEUON

- Gwelwyd gostyngiad wedyn cynnydd sylweddol mewn Cwynion Ffurfiol yng nghyfnod y pandemic, ond mae nifer Cwynion i'r Ombwdsmon wedi aros yn gyson.
SYLWAD: *Ymddengys bod y patrwm yma i'w weld yn Genedlaethol gan y mwyafrif o Awdurdodau (cadarnhad gan yr Ombwdsmon).*
- Mae'r patrwm / tueddiad dros gyfnod hirach yn dangos bod niferoedd o gwynion Ffurfiol wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2018-19 er eu bod wedi cynyddu yn ddiweddar.

- O ran amser ymateb, gwelir bod y ffigwr wedi aros yn gyson ar 7 diwrnod (8.6 diwrnod yn 2018-19).
- Ar y cyfan gwelwyd newid mewn diwylliant gyda Gwasanaethau yn derbyn cwynion mewn ffordd fwy positif er mwyn dysgu ohonynt, gyda'r amser ymateb yn gostwng.

8. DATA CENEDLAETHOL

Cyhoeddwyd data Cenedlaethol gan Swyddfa'r Ombwdsmon yn crynhoi ffigyrau Cwynion a adroddwyd gan Awdurdodau Cymru. **Gweler Atodiad 2.** Cysylltwyd efo Swyddog Ombwdsmon i ofyn am ddehongliad o'r ffigyrau. Croesawyd ein ymholiad gan nodi y bysent yn dymuno i bob Awdurdod ystyried y data yn ofalus fel ni. Nododd y canlynol (ar lafar):

- Ni ddylir ystyried y tabl fel "*league table*"
- Nid yw niferoedd isel yn golygu fod Cyngorau yn well na rhai efo lefelau uchel, ac o bosib nad oedd Cyngorau wedi cofnodi eu cwynion yn yr un modd
- Mae ffigurau Gwynedd yn ymddangos i fod yn realistig
- Mae trefn Gwynedd yn amlwg i fod yn gweithio, ac ein bod yn barod i ddysgu gwersi o Gwynion

9. EDRYCH I'R DYFODOL / CAMAU NESAF

Mae Llythyr Blynyddol (2020/21) yr Ombwdsmon i Gyngor Gwynedd newydd ei dderbyn (**Atodiad 3**). *'Mae'r llythyr yn trafod gwybodaeth o flwyddyn a fu'n wahanol i unrhyw un arall yn y cof diweddar, ac felly efallai na fydd yn ddefnyddiol ar gyfer sefydlu tueddiadau neu batrymau. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ryfeddol hon yn dod â mewnwelediadau ar sut ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i alw digynsail a'r amgylchiadau anoddaf a fu.'*

Bwriedir i'r llythyr gynorthwyo aelodau i graffu ar berfformiad cwynion y Cyngor ac unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad.

Fel a ofynnir yn y llythyr byddwn yn:

- Ymgysylltu â gwaith Safonau Cwynion yr Ombwdsmon
- Rhoi hyfforddiant i staff
- Darparu data cwynion
- Rhoi gwybod i'r Ombwdsmon am ganlyniad ystyriaethau a chymau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 15 Tachwedd.

Rydym eisoes yn datblygu hyfforddiant yn y maes Gofal Cwsmer ar y cyd hefo Swyddfa'r Ombwdsmon drwy ddefnyddio cwynion fel arf dysgu. Bwriedir cynnal peilot yn yr Hydref.

Ein bwriad yw parhau i weithio gyda thimau rheoli Adranol a swyddogion o fewn y Gwasanaethau i sicrhau dealltwriaeth o'r drefn Gwynion a chael ymrwymiad i'w gweithredu. Yn sgil hyn, gobeithiwn leihau'r amser ymateb i Gwynion, a pharhau i Wella Gwasanaeth.

Mae'r Wal Lwyddiannau bellach yn fyw, a da iawn ydi gweld fod nifer helaeth o Ddiolchiadau/Canmoliaethau wedi dod i mewn gan y cyhoedd. Mae gweld gwerthfawrogiad y cyhoedd yn gymorth mawr i godi morâl staff, yn enwedig rhai rheng flaen.

10. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'n rhan o'r drefn gwynion fod y Cabinet yn derbyn adroddiad ar drefniadau cwynion y Cyngor o safbwynt cynnal gwasanaethau o ansawdd. Wrth i Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Adran 115 osod swyddogaeth yn nwylo y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol bydd angen adolygu y drefn adrodd er cyfarch hyn.

Y Pennaeth Cyllid:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

	ADRAN	GWASANAETH	CYFNOD	CATEGORI Y GWYN	NATUR Y GWYN / RHWYSTR	GWERSI A DDYSGWYD	YMATEB I'R CWYNYDD	CAMAU GWELLA GWASANAETH	SYLWADAU
1	Tai & Eiddo	Tai	01/04/2021 – 31/08/2021	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn teimlo iddi gael ei gadael i lawr, gan nad oedd wedi cael unrhyw ymateb i'w chais am dy gan y tîm Opsiynau Tai. Dim modd siarad efo'r swyddog perthnasol – wedi gadael negeseuon ond y swyddog ddim yn ei ffonio hi'n ôl.	Angen cadw cysylltiad rheolaidd gyda chleientiaid er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a newid mewn amgylchiadau.	Ymddiheuro i'r cwsmer am y diffyg ymateb amserol a rhoi eglurhad o'r sefyllfa. Sicrhau i'r cwsmer mai'r swyddog dan sylw oedd y gorau i ddelio a'i chais gan ei bod yn ymwybodol o'i chefnidir a'i sefyllfa. <i>Cynnig cyfarfod efo'r cwsmer a swyddogion eraill i geisio symud y mater yn ei flaen.</i> Rhoi diweddariad i'r cwsmer fod ei chais ar y system ac ym mha Fand oedd hi.	Staff yn creu nodyn atgoffa ar galendrau 'Outlook' - i'w hatgoffa i gysylltu gyda chleientiaid o leiaf unwaith bob tair wythnos. Staff yn dynodi amser penodol bob diwrnod i ymateb i alwadau ffôn ac ymholiadau. Cynnal 'Adolygiad Gwasanaeth' llawn, ac astudio'r camau i roi gwasanaeth - yn dilyn cais gan gleient digartref.	8 cwyn o dan y categori yma
2	Tai ac Eiddo	Tai	01/04/2021- 31/08/2021	Ymddygiad Swyddog	Cwsmer yn anhapus efo sut cafodd ei thrin ar y ffon wedi iddi gysylltu a'r Gwasanaeth.		Mater diweddar ydi hwn felly heb gael ymateb hyd yma.		1 cwyn o dan y categori yma
3	Tud. 9	Cyllid	01/04/2021 – 31/08/2021	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer wedi cwyno na chafodd ymateb i'w ohebiaeth gan y Gwasanaeth ers dros 3 mis neu fwy.	Pawb i geisio sicrhau fod gohebiaeth yn cael ei gydnabod a'i ymateb o fewn amserlen realistig	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth wedi ymchwilio gan gynnig ymddiheuriad llawn i'r cwsmer am y diffyg ymateb. Hefyd wedi egluro'r sefyllfa yn llawn a chlir iddo o ran Treth Cyngor.	Pawb i geisio sicrhau ymateb ar eu cyfle cyntaf i ohebiaeth gan gwsmeriaid. Os nad oes modd ymateb yn llawn yn fuan am beth bynnag reswm, yna anfon nodyn cydnabod pellach i'r un sydd yn dod yn syth o'r system yn egluro fod y mater yn derbyn sylw.	2 gwyn o dan y categori yma
4		Cyllid	01/04/2021 – 31/08/2021	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor	Cwsmer yn cwyno am iddi dderbyn gwys oherwydd camgymeriad ar ran y Gwasanaeth	Fod angen atgoffa staff i fod yn ofalus a chymryd cam yn ôl weithiau pan yn gweithredu a rhoi eu hunain yn esgidiau'r cwsmer.	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth a'r Rheolwr perthnasol o fewn y Gwasanaeth wedi ymchwilio i'r mater ac wedi sylweddoli fod camgymeriad wedi bod efo'r cyfrif. Wedi egluro hyn wrth y cwsmer ac wedi ymddiheuro yn ddiffuant am y camgymeriad a'r loes a achoswyd iddi.	Nodyn atgoffa i staff i gyd am oblygiadau camgymeriadau o'r fath. Gofyn iddynt i gyd fod yn ofalus iawn wrth wneud unrhyw newidiadau rhag cael cwyn o'r fath eto.	3 cwyn o dan y categori yma
5	Economi a Chymuned	Morwrol	01/04/2021 - 31/08/2021	Materion laith a Chydraddoldeb	Derbyniwyd cwyn gan gwsmer oedd yn defnyddio sgwter "mobility" i fynd o gwmpas. Ei gwyn oedd nad oedd yn gallu cael mynediad i draethau. Y rhai lle roedd yn cael mynediad nid oedd ganddo hawl mynd a chi yno.		Rheolwr wedi ymateb i'r cwsmer yn egluro beth oedd y Polisi Mynediad i Draethau. Gan egluro fod modd mynd ar bob traeth heblaw 2 ar hyn o bryd. Nodi hefyd fod y Polisi ar fin cael ei adolygu felly efallai byddai'r sefyllfa yn newid.	Asesiad Cydraddoldeb yn cael ei wneud fel arfer wrth newid Polisiâu.	1 cwyn o dan y categori yma
6	Economi a Chymuned	Morwrol	01/04/2021 – 31/08/2021	Ymddygiad Swyddog	Cwsmer wedi cwyno am ymddygiad swyddog		Mater diweddar felly heb dderbyn ymateb hyd yma.		1 cwyn o dan y categori yma
7	Addysg	Anabledau Dysgu	01/04/2021 – 31/08/2021	Ymddygiad Swyddog	Cwyn gan gwsmer fod swyddog wedi galw yn ei chartref yn ddi-rybudd heb apwyntiad. Nodi nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth am y mater.	Trefnu i ebostio cwsmeriaid os yn addas o hyn allan i arbed problem o'r fath eto o ran diffyg llythyr yn eu cyrraedd.	Swyddog o'r Gwasanaeth wedi cysylltu nol efo'r cwsmer yn ymddiheuro am unrhyw boen mae'r mater wedi ei achosi iddi hi a'r teulu. Egluro fod llythyr wedi cael ei anfon allan ac ymddiheuro os na chafodd y llythyr am ryw reswm.	Wedi trefnu i gysylltu a'r cwsmer ar ebost o hyn allan rhag ofn trafferthion pellach efo'r post yn ei chyrraedd. Hefyd swyddog yn cynnig cyfarfodydd dros Teams i'w trefnu ar adeg cyfleus i'r ddwy ochr.	1 gwyn o dan y categori yma

8	Addysg	Ysgolion	01/04/2021-31/08/2021	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno nad oedd yn teimlo fod Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol yn gwneud digon i'w chynorthwyo efo problem roedd yn ei gael o ran plant yn ei phoeni yn ystod amser ysgol a thu allan i oriau ysgol. Felly wedi cysylltu drwy'r drefn Gwynion i uchafu ei chwyn gan fod trefn yr Ysgol wedi methu.	Angen i swyddogion y Gwasanaeth dderbyn a deall fod trefn Gwynion Gorfforaethol mewn lle a bod angen iddynt gydymffurfio a'r drefn honno pan fo cwyn yn eu cyrraedd lle mae methiant drwy'r drefn Ysgol	Swyddog o'r Gwasanaeth wedi mynd nol at y cwsmer yn egluro fod Polisi newydd mewn lle yn yr Ysgol ac awgrymu iddi ddilyn y drefn unwaith eto ac ail gyflwyno ei chwyn. Pennaeth newydd yn yr Ysgol yn ceisio symud y mater yn ei flaen. Hefyd Pennaeth y Gwasanaeth wedi cymryd diddordeb yn y mater ac yn cysylltu a'r cwsmer i ymddiheuro am y camddealltwriaeth blaenorol parthed ei chwyn.	Angen sicrhau fod y Swyddogion yn deall y drefn Gorfforaethol ac y sylweddoli fod y drefn yna am reswm i cynorthwyo y ddwy ochr i ddod i ddatrysiaid ac i weld cyfleoedd i Wella Gwasanaeth.	1 cwyn o dan y categori yma
9	Addysg	Ysgolion	01/04/2021 – 31/08/2021	Anhapus efo penderfyniad	Rhiant yn anhapus efo'r ffaith nad yw ei mhab yn cael "interim alternative education" am ei fod yn methu mynychu'r ysgol. Teimlo eu bod yn cael eu gadael i lawr gan y Gwasanaeth.	Angen sylweddoli beth yw anghenion pob plentyn, efallai nad ydi beth sydd yn siwtio'r mwyafrif yn siwtio pawb.	Y Gwasanaeth wedi egluro wrth y cwsmer eu bod am drefnu i'r holl swyddogion sydd yn berthnasol i'r achos gyfarfod yn dilyn cyfnod gwyliau i weld beth fyddai'r gefnogaeth orau y gellid ei gynnig i'r teulu	Sicrhau fod y Gwasanaeth yn sylweddoli y pwysigrwydd o'r gefnogaeth i deuluoedd. Ceisio trefnu cyfathrebu gwell efo'r teuluoedd os nad ydynt yn sicr o'u gofynion.	2 cwyn o dan y categori yma
Tud 10	Amgylchedd	Cynllunio	01/04/2021 – 31/08/2021	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno am ddiffyg ymateb gan y Gwasanaeth Gorfodaeth	Angen sicrhau fod ffeiliau yn cael eu hagor i bob achos yn amserol	Pennaeth Cynorthwyol wedi trefnu ymchwiliad ac wedi ymddiheuro yn ddiffuant i'r cwsmer am y diffyg ymateb blaenorol. Egluro fod camgymeriad wedi bod yn fewnol ond fod y mater bellach wedi ei gywiro. Egluro hefyd fod pwysau gwaith aruthrol ar y Gwasanaeth yn anffodus.	Wedi trefnu i ddarparwr arbenigol allanol i ddilyn y mater i fyny er mwyn cael rhoi sylw cywir a buan i'r mater a chynnig datrysiaid i'r cwsmer.	2 gwyn o dan y categori yma
	Amgylchedd	Llwybrau	01/04/2021 – 31/08/2021	Camgymeriad/gweithrediad anghywir ar ran y Cyngor	Cwyn gan gwsmer na chawsant wybod am ddatblygiad llwybr yn mynd dros eu tir. Doedd swyddogion y Cyngor ddim wedi ymgynghori efo nhw ar y mater	Sylweddoli pwysigrwydd ymgysylltu efo pawb lle mae achos o'r fath yn effeithio arnynt	Rheolwr y Gwasanaeth wedi cysylltu a'r cwsmer gan ymddiheuro yn ddiffuant am y diffyg ymgysylltu yn yr achos yma. Nodi y byddai'n sicrhau y byddai'r swyddog perthnasol yn cysylltu efo'r cwsmer ar ei gyfle cyntaf rôl dychwelyd o'i wyliau	Ceisio sicrhau nad oedd sefyllfa o'r fath yn codi eto drwy atgoffa'r staff perthnasol o bwysigrwydd ymgysylltu.	2 gwyn o dan y categori yma
12	Amgylchedd	Trafnidiaeth	01/04/2021 – 31/08/2021	Anhapus efo Penderfyniad	Cwmni Tacsï wedi cyflwyno mater o dan drefniant caffael i'r drefn gwynion.	Cyfeiriwyd y mater i'r broses briodol a darparwyd ateb i'r cwmni.	Pennaeth wedi cysylltu yn ôl efo'r cwsmer yn egluro'r sefyllfa a gofynion y broses dendro.	Caffael a Trafnidiaeth wedi bod yn ail edrych ar y broses dendro er mwyn gwneud dogfennaeth yn fwy eglur o hyn allan.	1 cwyn o dan y categori yma
13	Amgylchedd	Trafnidiaeth	01/04/2021 – 31/08/2021	Materion laith a Chydraddoldeb	Cwsmer yn cwyno am fod y tacsï oedd yn mynd a'i blentyn i ac o'r ysgol wedi cael ei newid ar fyr rybudd. Oherwydd y math o anghenion arbennig sydd gan y plentyn 'roedd newidiadau fel hyn yn creu problemau mawr iddynt fel teulu.	Sylweddoli pwysigrwydd cysylltu efo'r cwsmeriaid ymhob achos, gan y gall rhywbeth fyddai'n ymddangos yn fach i un person greu problem fawr i berson arall	Y Gwasanaeth wedi cysylltu a'r cwsmer ac wedi ymddiheuro am y problemau a achoswyd oherwydd y broses dendro gymerodd le. Nodi fod diffygion wedi bod yn y drefn a'u bod ar y cyd efo'r Uned Caffael yn ail edrych ar y broses efo'r bwriad o'i gwella.	Ail edrych ar y trefniadau tendro i sicrhau nad oes problemau o'r fath yn codi eto. Trafod ymestyn cyfnod tendro i dair blynedd o hyn allan.	1 cwyn o dan y categori yma
14	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Oedolion	01/04/2021 – 31/08/2021	Ymddygiad Swyddog	Darparwyr Gofal yn cwyno am ymddygiad swyddog a'r diffyg cyfathrebu ymhellach efo nhw ar y materion roedd wedi eu codi.	Angen sicrhau cyfathrebu gwell efo Darparwyr Gwasanaeth.	Swyddog Gofal Cwsmer wedi ymchwilio i'r mater ac wedi cysylltu efo'r cwsmer gan ymddiheuro am unrhyw ddiffygion yn y system. A nodi eu bod wedi dysgu gwersi o'r gwyn.	Cofnodi y byddai ffonio Darparwr i drafod pethau yn well yn aml nac anfon ebost. Ymarfer da fyddai cadarnhau y sgwrs/pwyntiau perthnasol ar ebost wedyn.	1 cwyn o dan y categori yma

15	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/08/2021	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwyn gan gwsmer am ddiffyg ymateb gan y Gwasanaeth Priffyrdd. Roedd yn aros am ateb am waith oedd wedi cael ei wneud ger ei gartref.	Sicrhau fod swyddogion yn ceisio cysylltu nol efo cwsmeriaid ar eu cyfle cyntaf yn dilyn ymchwilio i'w ymholiad/pryder/cwyn	Mater wedi ei basio i'r Gwasanaeth yn y lle cyntaf drwy Galw Gwynedd. Oherwydd y diffyg ymateb gan y Gwasanaeth ddaru'r mater droi'n gwyn. Rheolwr ardal wedi cysylltu nol efo'r cwsmer i gael datrysiad i'r sefyllfa.	Atgoffa pawb o'r pwysigrwydd o ymateb i gwsmeriaid yn brydlon.	7 cwyn yn y categori yma
16	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/08/2021	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Gwasanaeth	Cwsmer yn cwyno ei bod dal heb dderbyn cyfarpar gwastraff ac ailgylchu er ei bod wedi gwneud cais ers peth amser	Sicrhau fod cyfarpar sydd ar gael yn cael eu dosbarthu ar y cyfle cyntaf. Sylweddoli y pwysigrwydd o adael i'r cwsmer wybod beth sydd yn digwydd bob amser	Rheolwr wedi trefnu ymchwiliad ac ymateb i'r cwsmer ac wedi ymddiheuro am nad oedd wedi derbyn y cyfarpar ynghynt. Eglurodd wrth y cwsmer fod diffyg ar ambell gyfarpar ar y pryd oherwydd y gofyn amdanynt ond nododd nad oedd hyn yn esgus na chafodd beth oedd ar gael cyn gynted ag y bo modd.	Ceisio sicrhau fod cyfarpar ar gael yn gyson, fel na ddylai cwsmeriaid orfod aros yn hir amdanynt. Sicrhau ymhellach os oes un math o gyfarpar ar archeb a ddim ar gael ar y pryd dylid dosbarthu'r gweddill ac egluro wrth y cwsmer pryd i ddisgwyl y cyfarpar sydd ar archeb.	1 cwyn yn y categori yma
17	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/08/2021	Ymddygiad swyddog	Cwsmer wedi cwyno am ymddygiad dreifar oedd wedi bod yn canu corn ayyb yn y lori arni pan oedd allan yn rhedeg	Sicrhau fod staff yn cael eu hatgoffa o bolisiau perthnasol o ran Ymddygiad ayyb	Ateb hen fynd allan eto	Ateb heb fynd allan eto	3 cwyn yn y categori yma
18	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/08/2021	Anhapus efo Penderfyniad	Cwyn wedi ei derbyn gan gwsmer oedd yn nodi ei bod hi a'i chymdogion wedi bod yn cwyno am finiau yn cael eu gadael allan ar y palmentydd o un wythnos i'r llall gan breswylwyr. Roedd hyn yn denu gwylanod ayyb i'r stryd. Mater wedi bod yn rhygnu ymlaen ers dros 2 flynedd.	Ceisio addysgu preswylwyr i gymryd cyfrifoldeb i ailgylchu mwy a chadw eu cyfarpar yn dilyn casgliadau. Cofio diweddarau cwsmeriaid o ddatblygiadau	Gwasanaeth Gwastraff a Gofal Stryd wedi cydweithio ar ddatrysiad i'r sefyllfa. Wedi llythyru'r preswylwyr gan roi rhybudd oni fyddai'r biniau yn cael eu cadw ganddynt yna byddai'r Cyngor yn mynd a nhw o'r stryd ar ddyddiad penodol. Hyn wedi ei ddilyn i fyny.	Os oes problem gyffelyb yn digwydd mewn lleoliad arall, edrych yn ôl i weld beth weithiodd yn dda a chymryd yr un camau pe byddai angen. Cofio cadw mewn cysylltiad efo'r cwsmeriaid.	1 cwyn yn y categori yma
19	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/08/2021	Materion laith a Chydraddoldeb	Cafwyd cwyn gan gwsmer am nad oedd adnoddau addas ar gael mewn toiledau dynion i newid babi. Roedd hyn yn torri rheolau Cydraddoldeb.	Ceisio sicrhau fod y Gwasanaeth yn cydymffurfio a rheolau cydraddoldeb o hyn allan drwy ddarparu adnoddau lle mae'n bosib. Sylweddoli y pwysigrwydd o fynd yn ôl at gwsmeriaid i roi diweddariad iddynt am y sefyllfa	Gwasanaeth wedi cynnig ymddiheuriad i'r cwsmer am y diffyg adnoddau ac egluro fod Strategaeth ar y gweill i gynnwys adnoddau mewn mwy o doiledau yn y dyfodol. Eglurwyd hefyd yn anffodus nad oedd pob adeilad yn addas i osod cyfarpar o'r fath oherwydd y math o adeilad, oedran yr adeilad ayyb. Eglurwyd fod rhai toiledau erbyn hyn o dan ofal Cyngorau Cymuned.	Sicrhau fod swyddogion yn sylweddoli y pwysigrwydd o ddilyn materion i fyny a diweddarau cwsmer yn rheolaidd ar unrhyw ddatblygiadau.	1 cwyn yn y categori yma
20	Cefnogaeth Gorfforaethol	Cyswllt Cwsmer	01/04/2021 - 31/08/2021	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno am sut y bu iddi gael ei thrin ar y ffon gan aelod o staff y Gwasanaeth. Cafodd ei phasio o un swyddog i'r llall.	Fod angen atgoffa yr holl staff o'u hymddygiad ar y ffon efo cwsmeriaid. Hefyd eu hatgoffa beth i wneud mewn amgylchiadau o'r fath rhag ofn i sefyllfa debyg godi eto.	Rheolwr wedi cysylltu efo'r cwsmer ar y ffon yn y lle cyntaf ac wedi ymddiheuro am y sefyllfa. Wedi egluro i'r cwsmer mai system hunan wasanaeth sydd mewn lle i wneud y math o daliad roedd yn son amdano ar y diwrnod. Dim ond mewn argyfwng mae'n Gwasanaeth yn derbyn taliadau fel hyn. Nid oedd y Gwasanaeth wedi cael rhybudd fod problemau efo'r system gan Wasanaeth arall ac felly nid oedd y neges wedi ei rannu efo'r staff i	Arweinydd Tim i gysylltu efo'r Gwasanaeth perthnasol i geisio cael cyfathrebu gwell rhag i'r un peth ddigwydd eto rhywdro. Pe byddai'r Gwasanaeth wedi cael gwybod am y problemau yna mi fyddent wedi bod yn fwy barod am y sefyllfa. Sicrhau fod staff i gyd yn cael eu hyfforddi ar beth i'w wneud efo'r system mewn sefyllfa o'r fath.	1 cwyn yn y categori yma

							nodi efallai y gellid cael ymholiadau ar y mater.		
--	--	--	--	--	--	--	---	--	--

	Poblogaeth	Cwynion a Dderbyniwyd	Cwynion a Dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion (wedi'u haddasu)	Cwynion wedi Cau	Cyfanswm y Cwynion a Gaewyd o fewn 20 diwrnod gwaith	Cyfanswm y Cwynion a Gaewyd ar ôl 20 diwrnod gwaith, ond o fewn 3 mis	Cyfanswm y Cwynion a Gaewyd ar ôl 20 diwrnod gwaith, ond o fewn 6 mis	Cyfanswm y Cwynion a Gaewyd ar ôl 6 mis	Cadarnhawyd %	Cyfeiriwyd at Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Cyfeiriwyd %	Achosion OGCC ar gau	Mewn Awdurdodaeth	% Mewn Awdurdodaeth	Datrysiaid cynnar %	OGCC Wedi Ymyrryd %	OGCC Cadarnhawyd %
Cyngor Abertawe	245,480	437	7.31	394	84.52%	15.48%	0.00%	0.00%	31.47%	21	5.33%	10	2	20.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Bro Morgannwg	130,690	154	4.88	92	84.78%	15.22%	0.00%	0.00%	47.83%	15	16.30%	2	0	0.00%	-	-	-
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy+	93,590	76	3.33	82	68.29%	29.27%	2.44%	0.00%	2.44%	8	9.76%	3	1	33.33%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	180,795	137	3.06	135	86.67%	13.33%	0.00%	0.00%	41.48%	12	8.89%	4	1	25.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	116,863	88	3.05	82	84.15%	14.63%	1.22%	0.00%	50.00%	5	6.10%	3	1	33.33%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	59,953	167	11.36	159	100.00%	0.00%	0.00%	0.00%	45.91%	7	4.40%	2	1	50.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	239,127	119	2.03	118	90.68%	7.63%	0.00%	1.69%	37.29%	12	10.17%	6	0	0.00%	-	-	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	92,264	25	1.10	25	96.00%	4.00%	0.00%	0.00%	80.00%	7	28.00%	4	1	25.00%	0.00%	100.00%	100.00%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	135,571	186	5.52	180	93.89%	6.11%	0.00%	0.00%	62.22%	17	9.44%	6	0	0.00%	-	-	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	69,609	22	1.26	21	47.62%	52.38%	0.00%	0.00%	52.38%	5	23.81%	1	0	0.00%	-	-	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol	144,288	131	3.76	132	71.97%	23.48%	0.76%	3.79%	22.73%	13	9.85%	5	1	20.00%	100.00%	100.00%	0.00%

Pen-y-bont ar Ogwr																	
Cyngor Caerdydd	362,756	0	0.00	0	n/a	n/a	n/a	n/a	-	43	-	17	4	23.53%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	142,090	26	0.74	28	78.57%	17.86%	3.57%	0.00%	14.29%	7	25.00%	2	1	50.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Dinas Casnewydd	151,485	387	10.62	299	91.97%	8.03%	0.00%	0.00%	18.73%	11	3.68%	1	1	100.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Gwynedd	123,742	192	6.30	185	86.49%	13.51%	0.00%	0.00%	49.19%	10	5.41%	5	2	40.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Sir Ceredigion	73,076	18	0.95	23	30.43%	52.17%	17.39%	0.00%	65.22%	7	30.43%	6	3	50.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Sir Ddinbych	95,159	114	4.86	114	99.12%	0.88%	0.00%	0.00%	57.02%	9	7.89%	3	0	0.00%	-	-	-
Cyngor Sir Gâr*	186,452	250	5.44	184	3.26%	0.00%	0.00%	0.00%	51.63%	5	2.72%	3	1	33.33%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Sir Penfro	124,711	134	4.38	126	75.40%	22.22%	2.38%	0.00%	38.89%	6	4.76%	3	1	33.33%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Sir Powys	132,515	119	3.58	132	80.30%	16.67%	3.03%	0.00%	30.30%	15	11.36%	4	1	25.00%	100.00%	100.00%	0.00%
Cyngor Sir y Fflint	155,155	197	5.17	181	69.61%	30.39%	0.00%	0.00%	54.14%	17	9.39%	6	2	33.33%	0.00%	100.00%	100.00%
Cyngor Sir Ynys Môn	69,794	28	1.61	23	69.57%	30.43%	0.00%	0.00%	8.70%	4	17.39%	3	0	0.00%	-	-	-
Cymru	3,125,165	3,007	3.85	2,715	84.47%	14.62%	0.63%	0.28%	39.48%	256	9.43%	99	24	9.38%	87.50%	100.00%	12.50%

* Nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cofnodi amserlenni ar gyfer eu holl gwynion. O'r herwydd, mae eu gwybodaeth yn anghyflawn ac mae gwybodaeth ledled Cymru wedi'i haddasu gan 178 o gwynion.

+ Nid yw Cyngor Sir Fynwy yn cofnodi canlyniadau ar gyfer eu cwynion cam 1 ar hyn o bryd. Felly cofnodir nifer uchel o'u canlyniadau fel 'ymchwiliad wedi dod i ben'.

Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn derbyn miloedd o gwynion mewn cyfnod o 3 mis

Yn dilyn cyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a sefydlu'r Awdurdod Safonau Cwynion, mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) y pŵer i osod safonau gofynnol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyrfff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r gwaith ynghylch Safonau Cwynion yn cynnwys cyhoeddi gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion, darparu hyfforddiant rhad ac am ddim ar arfer da wrth ymdrin â chwynion, a chasglu gwybodaeth am gwynion y mae cyrff cyhoeddus wedi ymdrin â nhw.

Awdurdodau Lleol oedd y cyrff Gwasanaeth Cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i fod yn ddarostyngedig i Safonau Cwynion ac, am y tro cyntaf, mae OGCC yn cyhoeddi'r data a gasglwyd ganddo.

Dengys y data fod Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi derbyn ychydig dros 4,300 o gwynion yn chwarter cyntaf 2021/22; mae hyn yn gyfystyr â 5.57 o gwynion ar gyfer pob 1,000 o drigolion Cymru. Mae OGCC yn defnyddio'r math hwn o gynrychiolaeth i roi gwell cymhariaeth o wasanaethau cyhoeddus sy'n amrywio'n fawr o ran maint.

Dengys y data fod bron i 78% o'r cwynion a gaewyd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn wedi'u gwneud o fewn y targed o 20 diwrnod gwaith. Mae'r mesur hwn o berfformiad yn bwysig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cwynion, ac er ei bod cynnal ymchwiliadau cwynion yn brydlon yn bwysig, mae OGCC yn pwysleisio na ddylid eu cwtagi er mwyn cyrraedd targed.

Cadarnhaodd Awdurdodau Lleol yng Nghymru tua hanner y cwynion a gaewyd ganddynt. Mae'r ffigur hwn yn dangos pa mor aml y canfyddir bod rhyw rinwedd i gwynion a gall hefyd arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig nodi nad yw cyfraddau uchel o gadarnhau cwynion o reidrwydd yn arwydd o berfformiad gwael, ond gall fod yn arwydd o barodrwydd i wella'r modd y darperir gwasanaethau.

Atgyfeiriwyd ychydig dros 250 o gwynion yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol at OGCC yn chwarter cyntaf y flwyddyn, sy'n cynrychioli tua 6.5% o'r holl gwynion a gaewyd yn yr un cyfnod. Mae'r ffigur hwn yn rhoi cyd-destun newydd i ddata cwynion Awdurdod Lleol a gwybodaeth OGCC - a gallai roi mewnwelediad i ba mor effeithiol y mae gwasanaethau cwynion yn gweithredu.


Yn olaf, caeodd OGCC 99 o achosion yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn Chwarter 1 y flwyddyn, gyda thua chwarter yr achosion hyn yn cael eu hystyried o fewn ei awdurdodaeth i'w hystyried. O'r achosion y gweithredodd arnynt, roedd y mwyafrif llethol (87.5%) yn cynnwys yr Awdurdod Lleol dan sylw yn ymgymryd â datrysiaid cynnar. Roedd yr enghreifftiau eraill yn cynnwys achosion lle cadarnhawyd ymchwiliad yn erbyn yr Awdurdod Lleol - gan olygu bod OGCC wedi ymyrryd mewn 100% o'r achosion a oedd ar gael yn ystod y cyfnod.

Dywedodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Nick Bennett, "Rwy'n falch iawn gyda'r cynnydd ardderchog sydd wedi'i wneud â'r pwerau newydd, ac rydym yn gyffrous i gyhoeddi data cwynion i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Mae'r pwerau hyn wedi bod ar y gweill ers blyneddol, ac rwy'n ddiolchgar i'r holl gyrfff cyhoeddus sydd wedi ymgysylltu â'n cydweithwyr. Bydd cyhoeddi'r data hwn yn rheolaidd yn dod yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer codi safonau, hyrwyddo cydweithio, ac ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus."

Dywedodd Matthew Harris, y Pennaeth Safonau Cwynion,

"Mae'n falch gennym gyhoeddi data sydd wedi'u cyflwyno i ni am y tro cyntaf, a hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol ledled Cymru am ymgysylltu mor gadarnhaol â'n gwaith Safonau Cwynion. Bydd cyhoeddi ein data yn chwarterol yn ysgogi tryloywder a chysondeb, yn ogystal â rhoi cyd-destun newydd i'r hyn y mae perfformiad cwynion yn ei olygu. Credaf fod angen i ni ddeall nad yw nifer fawr o gwynion o reidrwydd yn golygu gwasanaethau o ansawdd isel; fel nad yw lefelau isel o gwynion bob amser yn dynodi darpariaeth gwasanaeth dda. Rhaid i'r wybodaeth a ddangosir yma ddechrau'r hanes, gan sicrhau mai nod terfynol pob proses cwyno yw darparu gwasanaethau cyhoeddus o well safon - nid llai o gwynion."

Gofynnwch Cyfathrebu
am:

 01656 641150

 cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Medi 2021

Y Cyngorydd Dyfrig L. Siencyn
Cyngor Gwynedd

Trwy Epost yn unig: cyngorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru

Llythyrau Blynyddol 2020/21

Annwyl Gyngorydd Siencyn

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r Llythyr Blynyddol (2020/21) i Gyngor Gwynedd.

Mae'r llythyr hwn yn trafod gwybodaeth o flwyddyn a fu'n wahanol i unrhyw un arall yn y cof diweddar, ac felly efallai na fydd yn ddefnyddiol ar gyfer sefydlu tueddiadau neu batrymau. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ryfeddol hon yn dod â mewnwelediadau ar sut ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i alw digynsail a'r amgylchiadau anoddaf a fu.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) yn yr un gyfran o gwynion am gyrrff cyhoeddus, sef 20%, o gymharu â 2019/20.

O ran cwynion newydd a dderbyniwyd yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol, mae'r cyfanswm wedi gostwng o 12.5% o gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yn y cwynion sy'n cael eu hadrodd arnynt gan Awdurdodau Lleol yn ystod pandemig Covid-19. Ymyrrodd fy swyddfa mewn cyfran debyg o'r achosion a gaewyd ag yn y flwyddyn flaenorol (13%).

Fodd bynnag, cyfeiriasom hefyd gyfran uwch o gwynion y Cod ymddygiad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru: 3.4% o'i gymharu â 2% yn y flwyddyn flaenorol. Daw'r gyfradd atgyfeirio uwch hon hefyd law yn llaw â chynnydd sylweddol yn nifer y cwynion y Cod Ymddygiad a dderbyniwyd.

Yn ystod 2020/21, er gwaethaf heriau a achoswyd gan y pandemig, cymerwyd camau breision gan fy swyddfa wrth wneud cynnydd â gwaith yn ymwneud â Safonau Cwynion ac Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun. Lanswyd thema a chyfnod ymgynghori'r Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun Ehangach cyntaf - i Asesiadau

Tudalen 1 o 9

Digartrefedd Awdurdodau Lleol - ym mis Medi 2020 a disgwylir yr adroddiad yn y misoedd nesaf. Cychwynnom hefyd 4 Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun estynedig, lle gwnaethom ymestyn cwmpas ein gwaith ar gŵyn sydd eisoes yn destun ymchwil.

Y llynedd, bwriodd fy swyddfa ymlaen hefyd â dau gyhoeddiad newydd - 'Ein Canfyddiadau' a'n Hadroddiad Cydraddoldeb cyntaf.

Bydd modd cyrchu 'Ein Canfyddiadau' trwy wefan OGCC a bydd yn disodli'r coflyfrau chwarterol. Bydd Ein Canfyddiadau yn cael ei ddiweddarau'n amlach, a bydd yn offer mwy defnyddiol wrth rannu canlyniadau ymchwiliadau. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb cyntaf yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac i sicrhau bod ein gwasanaeth ar gael i bobl o bob rhan o'r gymdeithas.

Yn ystod 2020/21, parhaodd Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno data i'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) am y cwynion a ymdriniwyd ganddynt. Cawsant hefyd weithdrefn gwynion enghreifftiol a mynediad at 76 sesiwn hyfforddi rithwir.

Mae'r data a gyflwynwyd ar gyfer 2020/2021 yn dangos:

- Cofnodwyd bron i 12,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol
- Mae hyn yn cyfateb i 3.77 ar gyfer pob 1000 o drigolion.
- Cadarnhawyd bron i hanner (44%) y cwynion hynny.
- Ymchwiliwyd i oddeutu 75% ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Cyfeiriwyd oddeutu 9% (6.91%) o'r holl gwynion a gaewyd at OGCC.

Bydd y CSA yn cyhoeddi data i wefan OGCC am y tro cyntaf yn y flwyddyn i ddod, gan nodi cyflawniad allweddol yng nghynnydd y gwaith hwn. Rhoddwyd sesiynau hyfforddi i bron pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac mae ein cynnig o hyfforddiant yn parhau i fod yn benagored a rhad ac am ddim.

Gweler ynghlwm grynodedb o'r cwynion o gamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor.

Hefyd ynghlwm y mae crynodeb o'r cwynion y Cod Ymddygiad mewn cysylltiad ag aelodau'r Cyngor a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn eich ardal.

Gofynnaf i'r Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet i gynorthwyo'r aelodau i graffu ar berfformiad cwynion y Cyngor ac unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad.
- Ymgysylltu â'm gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 15 Tachwedd.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopio i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick Bennett', written in a cursive style.

Nick Bennett
Yr Ombwdsmon

cc.Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd
Trwy Ebst yn unig: dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru

Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

Awdurdod Lleol	Cwynion a Gafwyd	Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent	15	0.21
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	31	0.21
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	46	0.25
Cyngor Caerdydd	96	0.26
Cyngor Sir Gâr	27	0.14
Cyngor Sir Ceredigion	32	0.44
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	32	0.27
Cyngor Sir Ddinbych	32	0.33
Cyngor Sir y Fflint	59	0.38
Cyngor Gwynedd	30	0.24
Cyngor Sir Ynys Môn	18	0.26
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	15	0.25
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy	20	0.21
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	19	0.13
Cyngor Dinas Casnewydd	31	0.20
Cyngor Sir Penfro	28	0.22
Cyngor Sir Powys	38	0.29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	40	0.17
Cyngor Abertawe	73	0.30
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	12	0.13
Cyngor Bro Morgannwg	39	0.29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	43	0.32
Cyfanswm	776	0.25

* yn cynnwys 2 Rhentu Doeth Cymru

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

Tud. 20

Cyngor Gwynedd	Cwynion a Gafwyd	% rhannu
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	0	0%
Gweinyddu Budd-daliadau	2	7%
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	2	7%
Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden	0	0%
Ymdrin â Chwynion	5	17%
Covid19	4	13%
Addysg	0	0%
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	3	10%
Cyllid a Threthiant	3	10%
Tai	4	13%
Trwyddedu	0	0%
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	6	20%
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	0	0%
Amrywiol Eraill	1	3%
Cyfanswm	30	

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
 (* yn dynodi ymyrraeth)

	Tu hwnt i Awdurdodaeth	Cynamserol	Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol	Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol*	Wedi rhoi'r gorau iddi	Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd	Adroddiadau eraill a gadarnhawyd*	Adroddiadau er Budd y Cyhoedd*	Cyfanswm
Cyngor Gwynedd	8	7	6	5	1	0	0	0	27
% Share	30%	26%	22%	19%	4%	0%	0%	0%	

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

	Nifer yr ymyriadau	Nifer y cwynion a gaewyd	% o ymyriadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	1	17	6%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	2	30	7%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	3	45	7%
Cyngor Caerdydd	26	100	26%
Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru	0	2	0%
Cyngor Sir Caerfyrddin	6	29	21%
Cyngor Sir Ceredigion	4	31	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5	31	16%
Cyngor Sir Ddinbych	2	31	6%
Cyngor Sir y Fflint	11	62	18%
Cyngor Gwynedd	5	27	19%
Cyngor Sir Ynys Môn	1	17	6%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	0	14	0%
Cyngor Sir Fynwy	1	19	5%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	1	17	6%
Cyngor Dinas Casnewydd	5	29	17%
Cyngor Sir Penfro	3	26	12%
Cyngor Sir Powys	4	47	9%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	2	43	5%
Cyngor Abertawe	9	67	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	0	11	0%
Cyngor Bro Morgannwg	5	38	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	6	48	13%
Cyfanswm	102	781	13%

Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Cyngor Gwynedd	0	3	0	0	0	0	3

Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Cyngor Caernarfon (Tref Frenhinol)	0	3	0	0	0	1	4
Cyngor Cymuned Llanbedrog	1	2	0	0	0	0	3
Cyngor Tref Porthmadog	0	1	0	0	0	0	1
Cyngor Tref Tywyn	0	7	1	0	1	0	9

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2020/2021. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2020/2021. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2020/2021. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2020 / 2021. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	12 HYDREF 2021
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Gareth Wyn Griffith
Swyddog cyswllt:	Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd
Rhif Cyswllt:	34092
Pwnc:	CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIRWEDD LLECHI GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac yn dirprwyo'r hawl i Bennaeith Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r CCA drafft.

RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae angen ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos i dderbyn mewnbwn gan sefydliadau, datblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd cyn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfiol.

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ymrwmo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi eu Cynlluniau Datblygu Lleol priodol, sy'n cynnwys polisiâu strategol a datblygu fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol. Dylai CCAau ehangu a dehongli polisiâu cynllunio ac ni ddylent eu hunain, ffurfio meysydd polisi newydd. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Safle Treftadaeth y Byd, Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru, yn berthnasol i ardal sydd o fewn ffin Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri ynghyd ac Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Adroddir ar y Canllaw er mwyn derbyn sêl bendith Cabinet Gyngor Gwynedd (ar ran ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd) i ryddhau'r ddogfen am gyfnod ymgynghori cyhoeddus o chwe wythnos. Bydd Pwyllgor Cynllunio a Mynediad y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am awdurdodi'r ymgynghoriad ar ran ardal y Parc Cenedlaethol. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y cyd er mwyn cael mewnbwn gan sefydliadau, datblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

1. Cefndir

- 1.1 Dynodwyd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru sy'n cynnwys chwe Cydran fel Safleoedd Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2021. Ystyrir bod Safle Treftadaeth y Byd (STyB) yn enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol ddiwydiannol a gafodd ei siapio'n ddwys gan chwarela llechi a chloddio tanddaearol ar raddfa fawr, a thrwy weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Trawsnewidiodd y diwydiant hwn amgylchedd a ffordd o fyw'r rhai a oedd yn byw ac yn gweithio ym mynyddoedd Eryri a Gwynedd.
- 1.2 Mae'r chwe Rhan Cydran fel a ganlyn:
- Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)
 - Cydran 2: Tirwedd Mynyddig Chwarel Dinorwig
 - Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle
 - Cydran 4: Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin
 - Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas lechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
 - Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn
- 1.3 Mae'r mwyafrif o Safle Treftadaeth y Byd wedi'i leoli yn bennaf yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, gyda rhai o'r ardaloedd hefyd yn eistedd o fewn a gerllaw ffin Parc Cenedlaethol Eryri.
- 1.4 Ym mhob Cydran, mae nodweddion ffisegol sy'n ymgorffori priodweddau Gwerth Cyffredinol Eithriadol wedi'u nodi yn y Cynllun Rheoli (gweler y ddolen isod)
- https://www.llechi.cymru/sites/default/files/Slate_cym_MP_210517p4.pdf
- 1.5 Mae gan bob Cydran ei chymeriad unigryw ei hun a chawsant eu dewis yn ôl eu graddfa (mae'r holl chwareli crair a'r ardaloedd chwarela mwyaf yn cael eu cynrychioli), am eu heffaith sylweddol ar y dirwedd, am eu cywirdeb, ac am y ffordd y maent yn enghraifft o drosglwyddo technoleg a'r trawsnewid o ddiwylliant gwledig lleiafrifol i mewn i gymdeithas ddiwydiannol fodern.
- 1.6 Ffocws y CCA felly yw darparu arweiniad pellach ar unrhyw gynigion o fewn, wrth ymyl ac yn effeithio ar osodiad y STyB i warchod a gwella lle bynnag y bo'r nodweddion arwyddocaol y dyfarnwyd statws Safle Treftadaeth y Byd iddynt trwy gefnogi datblygiad priodol a chynaliadwy o fewn ac yn gyfagos i'r cydrannau.
- 1.7 Mae'r CCA yn cynnwys pedair adran, ac amlinellir crynodeb ohonynt isod:-

(1) ADRAN 1 - Diben – mae'n egluro pam mae'r Canllawiau wedi'u llunio a sut maent yn cefnogi'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

(2) ADRAN 2 – Safle Treftadaeth y Byd – mae'n diffinio Safle Treftadaeth y Byd ac yn disgrifio'r ardal sydd wedi'i harysgrifio yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'n nodi bod chwe Darn Cydrannol ar wahân yn yr ardal ac fe'u dangosir ar fapiau yn Atodiad 1 o'r CCA ynghyd â gwybodaeth bellach am hanes, Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a phriodoleddau ffisegol a chymdeithasol y Safle Treftadaeth.

(3) ADRAN 3 – Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol a Lleol – yma cyflwynir cefndir y polisi cynllunio sy'n berthnasol i lywio datblygiadau newydd yn y Safle Treftadaeth neu ei leoliad creiddiol. Mae'r polisiâu cynllunio lleol perthnasol i'w gweld yn Atodiad 2 o'r CCA.

(4) ADRAN 4 – Cyflwyno Bwriadau Datblygu – yma rhoddir arweiniad ar ba faterion sy'n bwysig wrth lunio datblygiadau newydd a sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ceir cyfeiriad yn Atodiad 3 o'r CCA at fathau penodol bwriadau datblygu a allai gael eu cyflwyno.

1.8 Gweler copi o'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft yn atodiad 1 yr adroddiad hwn.

2. Y broses ar hyn o bryd

2.1 Am dros ddegawd, mae Cyngor Gwynedd wedi arwain ar y prosiect i sicrhau statws 'Safle Treftadaeth y Byd' Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru i amddiffyn a hyrwyddo rhinweddau arbennig yr ardaloedd hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth i'r broses esblygu daeth yn amlwg y byddai angen polisi o fewn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Chynllun Datblygu Lleol Eryri i amddiffyn y dirwedd lechi tra roedd y gwaith i sicrhau statws STyB yn mynd yn ei flaen. O ganlyniad i'r polisi hwn, cynhwyswyd polisiâu i amddiffyn a gwella'r 'Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisydd' (ar y pryd) ym mholisiâu'r CDLI. Ers ei arysgrif fel STyB, mae amddiffyn a gwella'r tirweddau dynodedig yn parhau i gael eu gwarchod gan bolisiâu o fewn y CDLIau. Mae'r CCA yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi'r polisiâu Cynllun Datblygu Lleol hyn.

2.2 Mae Swyddogion Polisi Cyngor Gwynedd, a Swyddogion Polisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i baratoi'r CCA ers haf 2019 ac wedi derbyn mewnbwn helaeth gan randdeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol, Perchnogion Tir a Busnes.

3. Camau Nesaf

3.1 Yn dilyn unrhyw welliannau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a Chyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd, cynigir y bydd CCA Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE a Chyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd cyn argymhell mabwysiadu'r CCA yn ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. Amlinellir amserlen dangosol isod:-

Pwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE	Hydref 20fed
Cynnal Ymgynghoriad 6 wythnos	Mor fuan ag sydd bosib yn dilyn Pwyllgor Cynllunio a Mynediad APCE Tachwedd - Rhagfyr 2021
Dadansoddi sylwadau ac ymatebion	Rhagfyr - Ionawr 2022
Yn dilyn unrhyw newidiadau angenrheidiol, cynnig i fabwysiadu'r CCA yn ffurfiol yng Nghyfarfod y Cabinet	Cychwyn 2022

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro: Mae'n rhan o drefniadau ar y cyd gyda Cyngor Môn fod Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn berthnasol i Wynedd yn unig yn cael eu hystyried a mabwysiadu gan y Cabinet yn hytrach na'r Cyd Bwyllgor Cynllun Datblygu leol ar y Cyd. Mae'r argymhelliad i gynnal ymgynghoriad yn briodol ynghyd a gweithredu ar y cyd gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Y Pennaeth Cyllid: Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Atodiadau

Atodiad 1 Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru

Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru
Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

DRAFFT

Hydref 2021

Rhagair

Mae Cyngor Gwynedd yn hynod falch o weithredu fel corff arweiniol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Ers dros ddegawd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio â sawl partner ledled y rhanbarth ar y prosiect cyffrous hwn.

Roedd diwydiant llechi'r ardal hon yn rhan hynod bwysig o economi byd-eang erbyn y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gyda chynnyrch llafur caled y gweithwyr lleol yn cael ei allforio ar draws y byd ac mae ffrwyth eu hymdrechion yn dal i'w weld ar doeau palasau a thai teras ledled y byd.

Heddiw, mae'r diwydiant yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i economi Gwynedd, gyda chwareli ar waith a phrosesu eilaidd yn digwydd gerllaw Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, gan barhau i gyflenwi'r byd â'r cynnyrch gorau. Maent yn cynnal traddodiad pwysig ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ein dealltwriaeth o'r gorffennol.

Yma yng Ngwynedd, mae etifeddiaeth y llechi yn parhau i fod yn hynod amlwg o'n cwmpas, o'r dirwedd drawiadol, i'r adeiladau diwydiannol a'r rheilffyrdd stêm ac i'n pentrefi a'n trefi. Dyma etifeddiaeth fyw lle gall pobl brofi a dysgu ein stori trwy gyfrwng amgueddfeydd, archifau, teithiau dehongli, llwybrau hirion, gwirfoddoli, archeoleg a gweithgareddau llawn adrenalín megis gwifrau gwib a beicio lawr allt. Nid yn unig y mae dylanwad y diwydiant chwarelyddol i'w weld, ond mae ei dreftadaeth yn dal i'w glywed yn gryf yn yr iaith, yn nhraddodiadau ac yn hanes cyfoethog yr ardaloedd hyn.

Ein nod yw dathlu'r dreftadaeth a'r dirwedd hon ac adnabod eu pwysigrwydd hanesyddol a diwydiannol yn y byd. Drwy ddathlu ein hanes, rydym am adfywio ein cymunedau a chreu cyfleoedd cyffrous er budd ein dinasyddion.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hyn yn amlinellu sut fyddai Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn rheoli'r Safle yn y dyfodol, drwy warchod ein treftadaeth a thrwy sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a phriodol yn y dirwedd rymus hon yr ydym wedi'i hetifeddu.

Drwy weithredu prosiectau megis LleCHI, rydym wedi ymgysylltu â chymunedau a chefnogi digwyddiadau diwylliannol, adnewyddu ac adfywio diddordeb ymysg ein plant, pobl ifanc ac oedolion ar gyfer ein stori leol a rhyngwladol eithriadol.

Trwy gydweithio brwd rhwng llywodraeth leol, llywodraeth Cymru, partneriaid, budd-ddeiliaid, gweithredwyr chwarel, tîrfeddianwyr a chymunedau, bydd modd i ni gyflawni'r nodau a'r polisiâu uchelgeisiol, ond realistig, sydd wedi'u nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ac yng Nghynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd.

Yn rhan o waith cyflawni amcanion y Cynllun Rheoli hwn, cynhyrchwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Maent yn amlinellu nodweddion pwysig y Safle Treftadaeth y Byd y bydd yn rhaid eu hystyried wrth baratoi ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt ac yn rhoi arweiniad defnyddiol i ymgeiswyr a swyddogion ar y fath o wybodaeth y bydd angen ei chyflwyno ochr yn ochr â cheisiadau. Ar

ben hynny, mae'n rhoi'r cyswllt rhwng amcanion y cynllun rheoli ac amcanion Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri.

DRAFFT

CYNNWYS

ADRAN 1 – DIBEN	4
ADRAN 2 – SAFLE TREFTADAETH Y BYD	6
ADRAN 3 – POLISI'AU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL A LLEOL.....	13
ADRAN 4 – CYFLWYNO BWRIADAU CYNLLUNIO.....	18

ATODIADAU

ATODIAD 1 – DYFYNIADAU O GYNLLUN RHEOLI TREFTADAETH Y BYD 2020 - 2030	20
ATODIAD 2 – POLISI'AU CYNLLUNIO LLEOL	42
ATODIAD 3 – SEFYLLFAOEDD DATBLYGU.....	48

**Ariennir y CanllawiCynllunio Atodol hyn gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer
Datblygu Gwledig trwy Lywodraeth Cymru**



ADRAN 1 – DIBEN

1.1 Diben y Canllawiau hyn yw:

- cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantiaid i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd ac ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau a
- rhoi cyngor penodol ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.

1.2 Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

Y Cyd-destun Polisi

1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisiau cynllunio sydd ar gyfer pob ardal i'w gweld yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar yr 31^{ain} o Orffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 ar y 6^{ed} o Chwefror 2019 ac mae'n berthnasol i ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

1.4 Cyflwyno'r ddau gynllun bolisiau eang ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu. Bydd y rhain yn helpu i lunio dyfodol ffisegol ac amgylcheddol yr ardaloedd ac annog effaith gadarnhaol ar eu heconomi ac ar eu priodoleddau diwylliannol a chymdeithasol. Ceisia'r Cynlluniau, felly:

- arwain yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio trwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisiau cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod cyfnod perthnasol y cynllun.

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

1.5 Er bod yn y ddau Gynllun bolisiau sy'n galluogi'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni allant ddarparu'r holl gyngor manwl sy'n ofynnol gan swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio bwriadau yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Awdurdodau Cynllunio yn paratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynlluniau a fydd yn rhoi arweiniad manylach ar amrywiaeth o bynciau a materion i helpu i ddehongli a gweithredu polisiau a bwriadau'r Cynllun.

Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

1.6 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (y Canllawiau) yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yn ystod proses asesu ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun

datblygu ac sy'n gyson ag o. Nid yw'r Canllawiau'n cyflwyno unrhyw bolisiau cynllunio newydd. Fe'u paratowyd ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

- 1.7 Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch y Canllawiau a phenderfynodd yr awdurdodau perthnasol eu mabwysiadu. Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r Canllawiau hyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar *[dyddiad yn ôl enw'r Pwyllgor]*. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Canllawiau Cynllunio Atodol rhwng *[dyddiad]*. Ystyriwyd yr arsylwadau *[x]* a gyflwynwyd i'r Awdurdodau a, lle bo hynny'n briodol, mae newidiadau priodol wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol a gymeradwywyd gan y *[pwyllgor perthnasol ar y dyddiad]* i'w defnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu ceisiadau ac apeliadau cynllunio a phenderfynu arnynt. Rhoddir crynodeb o'r arsylwadau ac ymateb y Cyngorau yn *[eu cynnwys yn yr atodiad neu nodi cyfeiriad at adroddiad perthnasol y Pwyllgor]*.

Defnyddio'r Canllawiau hyn

- 1.8 Mae pedair prif adran i'r canllawiau hyn. Dyma nhw:-

ADRAN 1 - Diben – mae'n egluro pam mae'r Canllawiau wedi'u llunio a sut maent yn cefnogi'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

ADRAN 2 – Safle Treftadaeth y Byd – mae'n diffinio Safle Treftadaeth y Byd yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'n nodi bod chwe Cydran ar wahân yn yr ardal ac fe'u dangosir ar fapiau yn Atodiad 1 ynghyd â gwybodaeth bellach am hanes, Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a phriodoleddau ffisegol a chymdeithasol y Safle Treftadaeth.

ADRAN 3 – Polisiau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol – yma cyflwynir cefndir y polisi cynllunio sy'n berthnasol i lywio datblygiadau newydd yn y Safle Treftadaeth neu ei leoliad creiddiol. Mae'r polisiau cynllunio lleol perthnasol i'w gweld yn Atodiad 2.

ADRAN 4 – Cyflwyno Bwriadau Datblygu – yma rhoddir arweiniad ar ba faterion sy'n bwysig wrth ddatblygu bwriadau newydd a sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ceir cyfeiriad yn Atodiad 3 at fathau penodol bwriadau datblygu a allai gael eu cyflwyno.

ADRAN 2 – SAFLE TREFTADAETH Y BYD

- 2.1 Mae Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenedloedd Unedig (UNESCO) yn gyfrifol am ddynodi Safleoedd Treftadaeth y Byd. Cenhadaeth UNESCO yw creu heddwch trwy gydweithrediad rhyngwladol mewn Addysg, y Gwyddorau a Diwylliant. Dyma ei diffiniad o Safleoedd Treftadaeth y Byd: **“Ileoedd o Werth Rhyngwladol Eithriadol i ddynoliaeth gyfan. Mae hyn yn golygu fod eu harwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol mor neilltuol fel eu bod tu hwnt i ffiniau cenedloedd ac o bwys i genedlaethau dynoliaeth y presennol a’r dyfodol.”**
- 2.2 Mae chwe Cydran i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru, wedi’u lleoli yng Ngwynedd. Mae'n enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol, ddiwydiannol a luniwyd yn llwyr gan chwareli llechi a gwaith mwyngloddio tanddaearol ar raddfa fawr a chan weithio a chludo llechi ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Y diwydiant hwn oedd ar flaen y gad o ran cynhyrchu llechi to yn y byd, yn enwedig felly, yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940. Bu i’r diwydiant ddylanwadu ar agor chwareli a mwyngloddiau llechi newydd ledled y byd trwy drosglwyddo technoleg a sgiliau a thrawsnewid amgylchedd a ffordd o fyw y rhai oedd yn byw ac yn gweithio ym mynyddoedd Eryri.



*Byrddau Ilifio Melin Ponc ‘Awstralia’,
Chwarel Dinorwig (Cydran 2)
© Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd*




*Melin Lechi Ynysypandy (Cydranl 4)
© Hawlfraint y Goron*

Lleoliad

- 2.3 Mae’r Safle Treftadaeth y Byd yn sir Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, sef cadarnle hanesyddol y diwydiant llechi Cymreig, ac mae iddo chwe Cydran, a ddewiswyd i adlewyrchu natur y dirwedd ddiwylliannol hon yn ei chyfanrwydd, lle gynt y ffynnai chwareli yng nghymunedau’r dyffrynnoedd. Mae’r chwe Cydran fel a ganlyn: -

- Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)
 - Cydran 2: Tirwedd Mynyddig Chwarel Dinorwig
 - Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle
 - Cydran 4: Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin
 - Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas lechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
 - Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn
- 2.4 Ym mhob Cydran, mae nodweddion ffisegol sy'n ymgorffori priodoleddau Gwerth Rhyngwladol Eithriadol wedi'u nodi. Mae i bob Cydran ei chymeriad unigryw. Fe'u dewiswyd am eu maint (mae pob un o'r chwareli creiriol a'r ardaloedd chwarelydda mwyaf wedi'u cynnwys), eu heffaith arwyddocaol ar y dirwedd, eu cyfanrwydd, ac am y modd y maent yn dangos trosglwyddiad technoleg a gweddnewidiad diwylliant gwledig lleiafrifol i fod yn gymdeithas ddiwydiannol fodern.



Map 1: Y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, yn dangos lleoliad y chwe Chydran yng Ngwynedd (Graddfa 1:500,000).

Map: Safle Treftadaeth y Byd a'i Chydrannau

Cynllun Rheoli Eiddo

2.5 Mae Cynllun Rheoli Eiddo ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Cyflwyno'r cynllun rheoli weledigaeth y Bartneriaeth:

Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg a dod yn hyrwyddwr pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

- Economi rhanbarthol ffyniannus gyda chyfleoedd cyflogaeth fedrus, o ansawdd uchel, drwy gydol y flwyddyn, ym mhob sector, gan gynnwys y sector twristiaeth; ac yn hynny, gydnabod pwysigrwydd allweddol twristiaeth treftadaeth ac antur.
- Manteisio ar dreftadaeth llechi i greu swyddi medrus.
- Parhad y diwydiant cloddio llechi a'r gweithgareddau cysylltiol, fel cyfrannwr pwysig i economi gogledd-orllewin Cymru a sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau llechi at y dyfodol.
- Sicrhau tirwedd gynaliadwy, esblygol a fydd yn cefnogi datblygiad economaidd yr ardal.
- Sicrhau fod y cymunedau o fewn ac o amgylch Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn aros yn lleoedd hyfyw a chyffrous i fyw ynddynt, nawr ac yn y dyfodol.
- Dathlu treftadaeth llechi a'i lle yn natblygiad tirweddau, trefi a chymunedau heddiw.
- Defnyddio deddfwriaeth a pholisi cynllunio cyfredol i roi sylfaen i'r Dynodiad.
- Hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru ledled y byd.
- Cysylltu unigolion a chymunedau gyda'u gorffennol.
- Cadw a gwella treftadaeth ffisegol y dirwedd drwy gadw at weledigaeth ac amcanion y Cynllun Rheoli ac unrhyw Gynlluniau Rheoli thematig neu leol.

2.6 Amlinella'r Cynllun Rheoli bod tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn dirweddau ddiwylliannol dan law prosesau esblygiad, twf, dirywiad ac adfywio sy'n gyffredin i bob lle byw. Mae'n dirwedd sy'n esblygu. Wrth symud ymlaen, byddir yn defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i ddiwallu anghenion y cymunedau llechi, heddiw ac yn y dyfodol.

2.7 Cyflwyno'r Cynllun Rheoli bum thema ar gyfer rheoli'r Safle Treftadaeth. Thema 2 a 3 yw'r rhai mwyaf perthnasol i'r ddogfen hon.

Thema 2. Gofalu am Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru i sicrhau y caiff Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd ei amddiffyn, ei warchod a'i reoli'n effeithiol.

Thema 3. Cefnogi Datblygiad Cynaliadwy Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru i sicrhau bod y ddynodiad yn helpu i gynnal tirwedd fyw, ffyniannus.

Mae'r themâu hyn yn ystyried anghenion preswylwyr a busnesau yn y rhanbarth ac yn nodi cyfleoedd i gefnogi nodau *Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015*. Mae'r Themâu a nodir yn y cynllun rheoli'n cyfrannu at y saith nod llesiant.

- 2.8 Yn ogystal â'r weledigaeth, mae'r cynllun rheoli'n amlinellu nifer o amcanion ar gyfer y safle Treftadaeth yn y dyfodol. Mae'r Amcanion mwyaf perthnasol i'r Canllaw fel a ganlyn:

Amcan 6: Amddiffyn a gwella Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd trwy gynnal tirwedd fyw a chymunedau sy'n ffynnu.

Egwyddor a amlinellir i gefnogi'r amcan hwn yw y bydd treftadaeth llechi'n flaenoriaeth yng nghynllun strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer adfywio economaidd. Mae gweithred yn amlinellu y bydd tirwedd llechi Gogledd-orllewin Cymru yn parhau i gael ei nodi'n flaenoriaeth o fewn blaenoriaethau adfywio economaidd Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd.

Amcan 7: Cynnal diwydiant mwynau cynaliadwy.

Er na fyddir yn cloddio mwynau sylfaenol o fewn ffin y Safle Treftadaeth Byd nac o fewn Ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, byddir yn rheoli gwaith cloddio mwynau sylfaenol a gwaith eilaidd y tu allan i'r Safle Treftadaeth trwy'r broses cynllunio mwynau bresennol.

Amcan 8 – Sicrhau y datblygir uchelgeisiau ynni adnewyddadwy i gyd-fynd â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.

Noda'r egwyddorion a amlinellir dan yr amcan hwn y caiff bwriadau sy'n defnyddio adnoddau naturiol, heb iddynt gael effaith ar Werth Rhyngwladol Eithriadol, eu cefnogi yn amodol ar ofynion Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031: Polisi Datblygu 3 a, lle bo hynny'n berthnasol, Bolisi Strategol B (Chwefror 2019) a Chynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd.

Amcan 9: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru i gefnogi amrywiaeth economaidd ac adfywiad yn sgil y Dreftadaeth.

Amlinella'r egwyddorion sy'n cefnogi'r amcan hwn y caiff cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu'n gwella'r safle treftadaeth ac yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol eu hannog.

Amcan 10 – Cymunedau Cynaliadwy.

Yr egwyddorion a amlinellir dan yr amcan hwn yw sicrhau y bydd angen i'r holl dai newydd sydd yn y Safle Treftadaeth neu'n agos iddo ystyried yr angen i amddiffyn a gwella'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol. Nod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri yw creu cymunedau cymysg, cynaliadwy. Yn y ddau ceir polisïau sy'n annog y mathau priodol o dai ac sydd hefyd yn cefnogi aildefnyddio adeiladau hanesyddol diangen yn briodol, gan gynnwys addoldai.

Amcan 11: Amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy.

Noda'r egwyddorion dan yr amcan hwn y byddir yn croesawu arallgyfeirio amaethyddol



Rheilffordd Ffestiniog (Cydran 5)
© Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri



Rheilffordd Tal-y-llyn yn croesi Traphont Dolgoch (Cydran 6)
© Rheilffordd Tal-y-llyn Railway

2.9 Er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i ymgeiswyr a phenderfynwyr, ceir dyfyniadau o'r Cynllun Rheoli Eiddo ar gyfer y Safle Treftadaeth¹ yn Atodiad 1 ac, yn eu plith, mae

- Disgrifiad o'r chwe Cydran a map lleoliad
- Datganiad Gwerth Rhyngwladol Eithriadol
- Priodoleddau unigol
- Gwybodaeth am y lleoliad

2.10 Cyn cyflwyno unrhyw fwriadau datblygu, mae'n bwysig darllen Atodiad 1 er mwyn deall "gwerth rhyngwladol" y Safle Treftadaeth a'i briodoleddau unigol a bod ag empathi ag o.

Datblygiad Economaidd Cynaliadwy

2.11 Mae datblygu cynaliadwy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar ddyheadau cenedlaethau'r dyfodol. Mae wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac fe'i gweithredir gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae polisiau yn y Cynlluniau Datblygu Lleol yn ei gwneud yn bosib cydbwysu'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol â'r angen i gynnal cymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Fel yr amlinellir yn y Cynllun Rheoli Eiddo ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd *'Anogir datblygiad sy'n sensitif i'r dirwedd lechi ac i gymeriad lleol ein haneddiadau, yn yr un modd â chynlluniau sy'n parchu ac yn cyfoethogi gwerthoedd y Safle Treftadaeth. Uchelgais sylfaenol Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yw datblygu cymunedau cynaliadwy a hyfyw sy'n darparu tai a chyflogaeth fel sylfeini i ddiogelu iaith a diwylliant Cymraeg sy'n ffynnu ac yn fyw.'*

2.12 Fel yr amlinellwyd o'r blaen, mae'r Safle Treftadaeth a'r ardaloedd cyfagos yn dirwedd fyw sy'n esblygu. Isod, amlinellir y gweithgareddau cyfredol a gynhelir yn y Safle Treftadaeth heddiw.

¹ [Cynllun Rheoli Eiddo Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru 2020-2030](#)

Gweithiau Mwynau

2.13 Er na chloddir mwynau o fewn ffin y Safle Treftadaeth, bydd y gwaith cloddio mwynau gweithredol, gwaith prosesu tipio ac ailgloddio eilaidd yn mynd rhagddo y tu allan i'r ffin. Cânt eu rheoli dan y ddeddfwriaeth cynllunio mwynau bresennol ac ni chânt effaith ar briodoleddau'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol.. Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi lleol trwy gynnig cyflogaeth barhaus i bobl leol ac yn cynnal diwydiant mwynau sy'n cwrdd â blaenoriaeth Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (NTCM 1), sy'n nodi pwysigrwydd y sector agregau eilaidd fel ffynhonnell deunyddiau ar gyfer y diwydiant adeiladu. Bydd y Diwydiant Mwynau'n parhau i gael ei gefnogi a'i reoli trwy ddefnyddio polisiau'r Cynlluniau Datblygu Lleol (mae polisiau perthnasol i'w gweld yn atodiad 2).

Ynni Adnewyddadwy

2.14 Amlyga Nodau Datblygu Cynaliadwy UNESCO, yn enwedig felly, Nod 7, Ynni Glân Fforddiadwy, bwysigrwydd ynni adnewyddadwy wrth sicrhau dyfodol cynaliadwy. Rhydd cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr fudd economaidd trwy gyflogaeth uniongyrchol a thwristiaeth, fel yn achos Gorsaf Bŵer Dinorwig. Yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol ceir polisiau i gefnogi gwaith datblygu datblygiadau ynni adnewyddadwy priodol.

Twristiaeth Gynaliadwy

2.15 Bydd Cyngor Gwynedd yn cynhyrchu Cynllun Rheoli Cyrchfan a bydd y cynllun hwn yn ystyried nod Sefydliadau Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o weld twristiaeth yn sbardun ar gyfer twf economaidd, datblygu cynhwysol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Byddir yn cefnogi ailddatblygu neu godi adeiladau newydd at ddefnydd masnachol i gefnogi'r gweithgareddau economaidd hyn lle maent yn cydymffurfio â'r polisiau cynllunio perthnasol a nodir yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Twristiaeth Antur

2.16 Mae twristiaeth antur yn farchnad sy'n tyfu ac yn arwain at nifer gynyddol o ymwelwyr â'r ardal. Mae rhannau o'r Safle Treftadaeth wedi elwa o gyflwyno cyfleusterau twristiaeth antur gan gynnwys beicio mynydd, archwilio tanddaearol a gwifrau gwib. Ychydig iawn o effaith a gafodd gweithgareddau o'r fath ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth Mae gwaith ailddatblygu a chodi adeiladau newydd i gefnogi'r cyfleusterau twristiaeth hyn wedi'u cefnogi gan bolisiau yn y cynlluniau datblygu lleol. Cefnogir rhagor o waith datblygu i gefnogi cyfleusterau twristiaeth newydd a chyfredol lle byddant yn cydymffurfio â pholisiau perthnasol yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Arallgyfeirio Amaethyddol

2.17 Mae arallgyfeirio eisoes wedi arwain at ddefnyddio ffermdai a beudái ar gyfer gwely a brechwast neu eu troi'n llety hunanarlwyo ac mae ffermwyr yn cofleidio gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a gweithgareddau masnachol eraill yn gynyddol.

Mae yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri bolisiâu sy'n cefnogi arallgyfeirio amaethyddol er budd yr economi gwledig.

DRAFFT

ADRAN 3 – POLISIŌAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL A LLEOL

Rôl y System Gynllunio

- 3.1 Ceisia'r system gynllunio reoli newid yn yr amgylchedd mewn modd cynaliadwy, cyson a theg. Mae amgylchedd heddiw yn ganlyniad i ryngweithio rhwng pobl a lleoedd dros amser, gan gynnwys holl olion ffisegol gweithgaredd dynol y gorffennol sydd wedi goroesi, p'un a ydynt yn weladwy, wedi'u claddu neu dan y dŵr, ac wedi'u plannu neu eu rheoli'n fwriadol. Wrth reoli newid, rhaid parchu'r gorffennol ond hefyd edrych ar les cymdeithasol ac economaidd cenedlaethau'r dyfodol. Yr hyn yw Cadwraeth yw rheoli newid yn ofalus. Cwmpesir hyn yng ngweledigaeth gyffredinol y Safle Treftadaeth sydd wedi'i chynnwys yn ei Gynllun Rheoli **“Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru er mwyn atgyfnerthu hynodrydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg a dod yn hyrwyddwr pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.”**
- 3.2 Yn y cyd-destun hwn, rôl y system gynllunio yw cydbwysu amddiffyn a gwarchod yn erbyn caniatáu datblygu heb gael effaith andwyol ar werthoedd a phriodoleddau cynhenid y Safle Treftadaeth, sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1. Nid oes angen i'r ddau fod yn anghyson. Fe'i mynegir yn gryno ym Mholisi Cynllunio Cymru² yng nghyswllt yr amgylchedd hanesyddol- **“Mae'n rhan annatod o ddiwylliant Cymru a'i chymeriad, ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth. Mae'n gwella ein hansawdd bywyd, yn ychwanegu at natur unigryw ardaloedd yn rhanbarthol ac yn lleol ac mae'n ased economaidd a chymdeithasol bwysig.”**
- 3.3 Cydnabyddir yn y polisi cynllunio cenedlaethol fod asedau hanesyddol yn cyfrannu at fywyd economaidd a chymdeithasol a bod y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y Safle Treftadaeth yn sylfaenol gadarn ac yn gydnaws â'r polisiâu cynllunio. Ar ben hynny, ceir rhagor o wybodaeth fanwl am sut y dylid gweithredu polisiâu cenedlaethol a lleol yn y Safle Treftadaeth yn y paragraffau a ganlyn.

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 3.4 Yn yr adran hon ceir trafodaeth ar y polisiâu cenedlaethol mwyaf perthnasol a defnyddiol mewn perthynas â Safle Treftadaeth y Byd. Maent ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Er bod polisiâu cynllunio lleol yn lleol-benodol, maent yn seiliedig ar y fframwaith polisi cenedlaethol. Ym mharagraff 6.0.2 Polisi Cynllunio Cymru, nodi **“Mae'n rhaid diogelu nodweddion arbennig ac unigryw a phriodoleddau cynhenid yr amgylchedd naturiol ac adeiledig am yr hyn ydynt, am resymau hanesyddol, golygfaol, esthetig a chadwraeth natur”**. Ymhlith enghreifftiau o asedau hanesyddol mae Safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi hanesyddol, trefluniau, tirweddau hanesyddol ac olion archeolegol. Priodoleddau diriaethol corfforol yw'r rhain ac mae llawer wedi'u nodi'n elfennau penodol yn yr Cydrannau yn Atodiad 1. Mae priodoleddau annirweddol fel y

² [Polisi Cynllunio Cymru \(Argraffiad 11\)](#)

Gymraeg neu werthoedd cymdeithasol ac atodiadau emosiynol hefyd yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le a chymeriad ac fe'u huniaethir yn gryf â'r Safle Treftadaeth.

3.5 Amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yw:-

- Amddiffyn Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- Gwarchod olion archeolegol, er eu lles eu hunain ac am eu rôl mewn addysg, hamdden a'r economi.
- Diogelu cymeriad adeiladau hanesyddol a rheoli newid fel y diogelir eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.
- Diogelu neu wella cymeriad neu edrychiad ardaloedd cadwraeth wrth hefyd eu helpu i barhau'n brysur a ffyniannus.
- Diogelu diddordeb arbennig safleoedd ar gofrestr parciau a gerddi hanesyddol
- Amddiffyn ardaloedd ar gofrestr tirweddau hanesyddol yng Nghymru.

Nodyn Cyngor Technegol (NCT 24)³: Amgylchedd Hanesyddol

3.6 Mae NCT 24 yn egluro ac yn dehongli polisiau cenedlaethol yn fwy ymarferol. Mae'n nodi y dylid rhoi pwys sylweddol i amddiffyn Safleoedd Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol a dylid adlewyrchu hyn mewn polisiau cynllunio lleol. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd lynu wrth Gynlluniau Rheoli penodol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd. Cyfeiria at Safle Treftadaeth y Byd fel "ardal sensitif" at ddibenion Atodlen 3(2) (viii) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol⁴. Golyga hyn y gallai rhai datblygiadau yn Safle Treftadaeth y Byd ofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i gyd-fynd â chais cynllunio. Mae'n sôn am bwysigrwydd asesu effaith datblygiad ar leoliad uniongyrchol Safle Treftadaeth y Byd ac ar safbwyntiau pwysig.

Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru⁵

3.7 Canllaw arfer gorau yw *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd*, a gynhyrchir gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi bod dull gweithredu'r llywodraeth, o ran rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn gynaliadwy yn seiliedig ar dair egwyddor, sef:

- Dynodi asedau hanesyddol penodol yn statudol
- Gweithredu Cynlluniau Rheoli
- Defnyddio'r system gynllunio ofodol i arwain gwaith datblygu priodol.

3.8 Mae'n nodi bod newid yn anochel ac na ddylid ei atal ond ei reoli i ganiatáu defnydd cynaliadwy o'r dirwedd, gan gadw'r hyn sy'n bwysig o'r gorffennol. Mae'r Safle Treftadaeth wedi cadw llawer o'i elfennau corfforol allweddol oherwydd i weithgaredd economaidd yn yr ugeinfed ganrif arafu. Mae'r dirwedd ddiwylliannol hefyd wedi aros yn gymharol gyfan, sy'n ychwanegu at gyfanrwydd a dilysrwydd y dynodiad (e.e. tudalennau *, * Atodiad 1)

³ [Nodyn Cyngor Technegol 24 Amgylchedd Hanesyddol](#)

⁴ [Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol\) \(Cymru\) 2017](#)

⁵ [Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, Cadw 2017](#)

3.9 Mae dogfen ganllaw Cadw yn ehangu ymhellach ar rai o'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i geisiadau ar gyfer heneb gofrestredig, adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a cheisiadau cynllunio. Mae effaith datblygu ar Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol gan gynnwys ei leoliad a'i ardaloedd clustogi. Yn achos y Safle Treftadaeth hwn nid oes unrhyw ardal glustogi ddiffiniedig. Mae gosod y Safle Treftadaeth o fewn tirwedd ddiwylliannol ehangach Gwynedd a'r ardal warchoddedig ehangach yn rhoi'r cyd-destun i'w Werth Rhyngwladol Eithriadol. Dylid caniatáu dyluniad modern, priodol sy'n parchu ei leoliad ac yn cyfrannu'n gadarnhaol. Bydd angen i Awdurdodau Cynllunio ymgynghori â Cadw (sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) ar geisiadau cynllunio sy'n debygol o gael effaith ar y Safle Treftadaeth.

Asesiadau o'r Effeithiau ar Dreftadaeth

3.10 Mae Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i asedau hanesyddol a gwneud cais am adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd heneb restredig. Nid oes angen Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio mewn Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, mae'n arfer da mabwysiadu egwyddorion proses Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth i helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o baratoi ar gyfer newid mewn unrhyw fwriad datblygu newydd yn y Safle Treftadaeth. Mae Cadw wedi cynhyrchu dogfen ganllaw arfer gorau⁶ ar sut i baratoi Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth ac ar gyfer pa fath o ddatblygiad.

3.11 Er efallai nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer cais cynllunio penodol yn y Safle Treftadaeth, mae modd eu hymgorffori mewn datganiad Dylunio a Mynediad⁷ a allai fod yn ofynnol.

3.12 Wrth baratoi asesiad, dylid dilyn pum cam a cheir rhagor o fanylion yn nogfen ganllaw Cadw. Mae'r pum cam sylfaenol y dylid eu dilyn fel a ganlyn:-

- Esbonio'r amcan a pham mae newidiadau'n ddymunol neu'n angenrheidiol
- Deall arwyddocâd yr ased hanesyddol
- Nodi'r newidiadau arfaethedig
- Asesu effaith y bwriadau
- Nodi'r rhesymeg y tu ôl i'r dyluniad a ffefrir

3.13 Gall yr effaith gyffredinol ar ased hanesyddol unigol neu ar y Safle Treftadaeth arwain at y canlyniadau a ganlyn.

Cadarnhaol – atgyweirio difrod i adeilad neu aildddefnyddio adeilad yn fuddiol. Codi adeilad newydd o bosib, wedi'i ddylunio a'i leoli i gyd-fynd â'i amgylchedd .

Niwtral – newidiadau bach i adeilad, sy'n llai sensitif, neu o bosibl adeilad newydd mewn rhan llai sensitif o'r Safle Treftadaeth.

⁶ [Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth, Cadw 2017](#)

⁷ [Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru 2017 Llywodraeth Cymru](#)

Negyddol – caiff gwead ffisegol pwysig ei symud neu ddyluniad ei newid mewn adeilad neu strwythur hanesyddol sy'n cael effaith ar yr adeilad ac, o bosibl, ar gyfanrwydd y Safle Treftadaeth.

- 3.14 Mae bwriad bychan yn debygol o gael yr effaith leiaf bosibl ac, felly, bydd asesiad yn gymharol fyr ac yn canolbwyntio ar ran o'r ased hanesyddol sy'n newid. Ar fwriadau mwy, bydd angen dadansoddiad manylach ar sut y gellir, o bosib, beryglu cyfanrwydd a phriodoleddau asedau hanesyddol unigol neu'r Safle Treftadaeth a sut y gellir goresgyn hyn.
- 3.15 Bydd angen Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Dreftadaeth yn dilyn dogfen ganllaw⁸ ICOMOS, ar gyfer datblygiadau graddfa fawr yn y Safle Treftadaeth a'i leoliad a/neu lle mae posib cael effeithiau arwyddocaol ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle.

Polisiau Cynllunio Lleol

- 3.16 Mae polisiau cynllunio lleol yn adlewyrchu polisiau cenedlaethol ar lefel leol mewn cynlluniau datblygu lleol mabwysiedig a chanllawiau cynllunio atodol. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn pontio ardaloedd cynllunio lleol Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ddau wedi mabwysiadu cynlluniau datblygu⁹ gyda pholisiau penodol yn ymwneud â'r Safle Treftadaeth y Byd. At ddibenion y ddogfen hon, mae'r polisiau mwyaf perthnasol a drafodir wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn darllen eu cynlluniau yn eu cyfanrwydd ac yn defnyddio polisiau eraill gyda mathau penodol o ddatblygiad, megis bwriadau diwydiannol neu fwyngloddio.
- 3.17 Mae yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol amcanion strategol sy'n cefnogi datblygu economaidd yn ardaloedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r amcanion Strategol sydd fwyaf perthnasol i ddatblygiad economaidd wedi'u nodi isod.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026

SO12 – Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.

SO14 – Rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn

⁸ [Canllaw ar Aseidiadau o Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer Eiddo Diwylliannol Treftadaeth y Byd](#)

⁹ [Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-2026](#)
[Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031](#)

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2017-2031

Annog twf economaidd cynaliadwy drwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a chynnal cymunedau bywiog.

Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n uchafu buddiannau economaidd lleol, lleihau effaith amgylcheddol i'r eithaf, ac sy'n cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

- 3.18 Yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn **Polisi PS 20: Diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth**, mae'r pwyslais ar wella a diogelu asedau hanesyddol, gan gynnwys safleoedd sydd wedi gwneud cais i fod yn safle treftadaeth y byd, eu lleoliad a golygfeydd arwyddocaol. Mae hefyd yn ymhlyg yn y polisi bod rheoli newid yn y meysydd hyn yn rhan o fenter economaidd a chymdeithasol ehangach. Rhoddir mwy o fanylion yn **Mholisi AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig** lle mae'n rhaid ystyried Cynlluniau Rheoli Safle Treftadaeth y Byd. Cyfeirir hefyd at Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru¹⁰ sydd wedi'u dynodi mewn ardaloedd yn union y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd. Cyfeirir at yr angen am Aseidiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth ym mharagraff 6.5.38 ac at roi digon o wybodaeth sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ased treftadaeth.
- 3.19 Mae tair o'r ardaloedd Cydrannol mwy anghysbell 4, 5 (rhan) a 6 wedi'u lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae polisiau cynllunio tebyg i'r rhai yng Ngwynedd yn berthnasol yn y Parc Cenedlaethol, er gyda phwyslais cyffredinol ar ddibenion parc cenedlaethol a datblygu cynaliadwy. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u cynnwys ym **Mholisi Strategol A: Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy**. Mae'r pwyslais ar roi'r flaenoriaeth uchaf i amddiffyn a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol wrth roi'r cyfleoedd i ddeall a mwynhau "rhinweddau arbennig" yr ardal. Ar ben hynny, mae yna ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol a adlewyrchir ym maen prawf (iii) y polisi. Mae **Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol** yn cyfeirio at safleoedd sydd wedi gwneud cais i fod yn safle treftadaeth y byd a safleoedd sydd wedi'u dynodi a'r angen i osgoi effaith datblygiad niweidiol rhag cael effaith ar y dynodiad, eu lleoliad neu eu golygfeydd arwyddocaol. Mae'r pwyslais ar gadwraeth a gwella gan fod agweddau treftadaeth a diwylliannol yn rhan o "rhinweddau arbennig" y Parc.

¹⁰ [Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, Cadw](#)

ADRAN 4 – CYFLWYNO BWRIADAU DATBLYGU

Cyflwyniad

- 4.1 Yn ogystal â defnyddio'r polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol, bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn edrych ar effaith gyffredinol y bwriad ac yn gofyn am ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus. Bydd faint o wybodaeth sy'n ofynnol, naill ai ar gyfer ymholiad cyn ymgeisio neu ar gyfer cais cynllunio, yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y bwriad. Gall awdurdodau cynllunio lleol gynorthwyo ymgeiswyr i ddatblygu eu bwriadau trwy roi cyngor trwy'r broses cyn ymgeisio statudol a chaiff datblygwyr eu hannog i ddefnyddio'r system hon cyn cyflwyno cais cynllunio.
- 4.2 Mae'r canllaw yma wedi'i hanelu'n bennaf at fwriadau newydd sydd angen caniatâd cynllunio. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen caniatâd heneb restredig (gellir gweld rhestr o asedau hanesyddol dynodedig ar wefan [Cadw](#)), caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth. Bydd y broses cyn ymgeisio'n helpu i benderfynu pa ganiatâd y mae'n rhaid wrtho.
- 4.3 Gellir gwneud rhai mathau o waith heb fod gofyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio. "Hawliau datblygu a ganiateir" yw'r enw ar y rhain. Dylai gwaith a ddosberthir fel datblygiad a ganiateir ac a wneir o fewn y Safle Treftadaeth a'i leoliad gofio cadw a gwella'r cymeriad hanesyddol lleol. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar egwyddorion dylunio yn *Canllaw Dylunio Tirwedd Llechi Cymuned Gogledd-orllewin Cymru*¹¹.
- 4.4 Mae bwriadau ar raddfa fach yn fwy tebygol o gael yr effaith leiaf bosibl ar y Safle Treftadaeth neu asedau hanesyddol unigol, felly mae'n debygol y bydd angen llai o wybodaeth ar Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae rhai ardaloedd Cydrannol megis **Cydran 4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin** mewn ardaloedd gwledig, mwy anghysbell, lle mae bwriadau datblygu newydd yn llai tebygol, ond gallai eu heffaith fod yn sylweddol yn y dirwedd ehangach. Gall bwriadau hefyd gael effaith gyfyngedig, gan ddibynnu ar eu lleoliad - gallent fod o fewn y Safle Treftadaeth, y lleoliad creiddiol neu gael effaith ar olygfeydd arwyddocaol. Os yw bwriad yn fwy helaeth ac mewn lleoliad sensitif, bydd yr effaith yn fwy arwyddocaol a bydd angen cynnal asesiad manylach mewn unrhyw ymholiad cyn ymgeisio neu wrth gyflwyno cais cynllunio.
- 4.5 I ddatblygu mewn ardaloedd cadwraeth, bydd yn rhaid cael Datganiad Dylunio a Mynediad¹² gyda chais cynllunio am un neu fwy o anheddau neu i greu arwynebedd llawr 100m² (gros) neu fwy. Dylid dilyn y canllawiau a ddarperir ar baratoi'r cyfryw ddatganiad i sicrhau y rhoddir digon o wybodaeth mewn strwythur ffurfiol. Ar gyfer bwriadau llai o fewn y Safle Treftadaeth a'i leoliad creiddiol, ni fydd angen datganiad Dylunio a Mynediad (gweler Atodiad 3 tabl 1). Fodd bynnag, bydd angen digon o wybodaeth ar yr Awdurdodau

¹¹ [cynnwys dolen i'r ddogfen unwaith y bydd wedi'i pharatoi]

¹² [Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru – Llywodraeth Cymru 2017](#)

Cynllunio Lleol i brosesu naill ai ymholiad cyn ymgeisio neu gais cynllunio ac mae canllawiau ar hyn ar eu gwefannau priodol.

- 4.6 Wrth gynllunio a datblygu bwriad newydd, dylai ymgeisydd ystyried y ffactorau a ganlyn fydd yn cynorthwyo i nodi materion ac effeithiau allweddol. Gallai hyn arwain at opsiynau a dyluniadau amgen posibl i oresgyn neu liniaru effeithiau niweidiol a rhoi gwell cyfle i gael y caniatadau angenrheidiol. Yn y pen draw, gall y wybodaeth a'r cynlluniau a ddatblygwyd yn ystod y broses hon fod yn rhan o ymholiad cyn ymgeisio i'w drafod gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, neu gais cynllunio ffurfiol.

Ffactorau i'w Hystyried wrth Ddatblygu Bwriadau Newydd

Cyd-destun y Safle a'r Dadansoddiad ohono

- 4.7 Dylai'r elfen hon edrych ar yr hyn sy'n bodoli ar y safle ar hyn o bryd yn hytrach nac ar yr hyn a fwriedir. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw'r safle'n cynnwys heneb hynafol neu adeilad rhestredig. Gallai hefyd nodi cyfyngiadau ecolegol neu dirwedd neu effeithiau posibl ar gymuned a diwylliant yr ardal. Os oes angen mwy o wybodaeth am, er enghraifft, faterion ecolegol neu hanesyddol ac os byddai'n ddymunol neu, mewn rhai achosion, yn statudol¹³ ymgynghori â chymdogion neu'r gymuned ehangach, dylai nodi hynny.
- 4.8 Mae nodi'r bwriad a'i leoliad yn glir yn ofyn sylfaenol. Bydd hyn yn gymharol ddidrafferth ar gyfer prosiectau llai, megis estyniadau tai. Ar gyfer prosiectau mwy cymhleth gellir datblygu briff gyda gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y bwriad. Waeth beth yw'r prosiect, dylid ei ddiffinio a'i egluro'n glir gyda chynlluniau braslunio a lluniadau a chynlluniau manylach wrth gyflwyno cais cynllunio. Dylid bod dealltwriaeth o briodoleddau allweddol y Safle Treftadaeth y Byd a gwerth rhyngwladol a sut mae hyn wedi llunio'r prosiect a dylanwadu arno. Gallai hyn ddod i'r casgliad ar y dechrau y dylid symud y bwriad i ardal lai sensitif. Mae rhai mathau o ddatblygiadau h.y. cloddio am fwynau wedi'u cyfyngu i leoliad penodol ac, felly, nid oes modd symud i ardal lai sensitif. Bydd angen i fwriadau datblygu sy'n ymwneud â chloddio am fwynau (er enghraifft) roi ystyriaeth briodol i unrhyw effaith bosibl ar y Safle Treftadaeth y Byd.

Cwestiynau i'w Hystyried

1. A yw'r bwriad wedi'i ddiffinio a'i egluro'n iawn?
2. A yw'r safle'n addas neu a oes gwell safle arall ar gael?
3. A yw'r effaith bosibl ar y Safle Treftadaeth wedi'i hasesu?
4. A yw graddfa'r bwriad yn gymesur â'r safle a'r ardal o'i amgylch?
5. A oes angen rhagor o astudiaethau ar faterion penodol?
6. A oes angen ymgynghori'n statudol â'r cyhoedd?

¹³ [Ymgynghori â'r Gymuned Cyn Ymgeisio: Canllaw Arfer Gorau i Ddatblygwyr – Llywodraeth Cymru](#)

Dyluniad a Chymeriad

4.9 Bydd rhoi sylw i fanylion dylunio yn helpu i wella gwerth y Safle Treftadaeth. Ar y llaw arall, gall effaith gronnus dyluniad gwael neu peidio â rhoi sylw i fanylion erydu hynodrwydd a pheri niwed i briodoleddau unigol yn gyflym ac, yn y pen draw, i werth rhyngwladol y Safle Treftadaeth. Nid oes angen i ddyluniad o ansawdd da fod yn gywrain nac yn ddrud, - fel arfer yr atebion dylunio gorau yw'r rhai a ddaw i'r meddwl yn rhwydd ac a weithredir yn syml. Maent yn parchu eu hamgylchedd uniongyrchol a'r lleoliad y maent wedi'i leoli ynddo, boed hynny yn y cefn gwlad agored neu ymhlith adeiladau eraill. Yn ôl y ddogfen ganllaw ar Reoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, gall dyluniad da, modern fod yn briodol a gall cyfodiad yr hen a'r newydd weithio yn y safleoedd mwyaf sensitif os byddir yn parchu'r lleoliad. Er enghraifft, mae gan lawer o gestyll yng Nghymru ganolfannau dehongli modern neu gaffis. Yn wir, mae enghreifftiau o'r fath i'w gweld yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Ardal Gydrannol 2. Ym Mholisi Cynllunio Cymru, diffinnir dyluniad fel a ganlyn: -

“y berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. I greu datblygiad cynaliadwy, rhaid i'r dylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys adeiladu, gweithredu a rheoli'r datblygiad, a'i berthynas â'i gwmpasoedd.”

4.10 Er mwyn cynnal neu wella cymeriad lleol, byddai angen i fwriad ystyried patrymau stryd hanesyddol, nodweddion adeiladu rhestredig, nodweddion archeolegol a henebion hanesyddol, deunyddiau cyffredin, ansawdd a nodweddion pensaernïol, golygfeydd unigryw (i mewn i'r safle ac allan ohono), gorwelion a golygfeydd, defnyddiau tir cyffredin a nodweddion a thraddodiadau unigryw yn lleol. Yn Atodiad 1 rhestrir priodoleddau'r Safle Treftadaeth a nodweddion ffisegol unigol. Mae'r rhain yn fan cychwyn amlwg i weld sut mae'r nodweddion hyn yn creu ymdeimlad o le a sut y gallai'r bwriad ychwanegu at hyn ac ansawdd bywyd y rhai sy'n rhyngweithio â'r datblygiad. Yr un mor bwysig yw'r priodoleddau annirweddol gan gynnwys y Gymraeg, traddodiadau, ysbryd, gwerthoedd cymdeithasol a theimlad, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gymeriad lle.

4.11 Gyda chynigion llai fyth, bydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol eisiau sicrhau bod estyniadau bach i fythynnod traddodiadol ar raddfa ac yn unol â'r dyluniad a'r deunyddiau pensaernïol presennol ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar fwynder eiddo cyfagos.

4.12 Mae rhagor o wybodaeth am faterion dylunio wedi'i gynnwys yn y Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio¹⁴ a gynhyrwyd gan Lywodraeth Cymru ynghyd ag yn *Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru - Canllaw Dylunio Cymunedol*¹⁵ ac yn y ddogfen *Gofalu am Dirwedd Llechi*¹⁶.

¹⁴ [Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio \(Llywodraeth Cymru\)](#)

¹⁵ [cynnwys dolen i'r ddogfen unwaith y bydd wedi'i pharatoi]

¹⁶ [cynnwys dolen i'r ddogfen unwaith y bydd wedi'i pharatoi]

Cwestiynau i'w Hystyried

- 7. A yw'r dyluniad yn gwella gwerth y Safle Treftadaeth ac a roddwyd ystyriaeth briodol i'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol?**
- 8. A yw'r dyluniad yn ystyried nodweddion a deunyddiau pensaernïol cyfredol?**
- 9. A oes modd cyflawni a chyfiawnhau dull dylunio mwy modern wrth fod yn gydnaws?**
- 10. A yw'r bwriad yn cael effaith ar dir cyfagos neu gymdogion?**
- 11. A yw'r bwriad yn cynnwys deunydd – math a lliw?**
- 12. A roddwyd ystyriaeth briodol i ffactorau annirweddol, megis y Gymraeg a gweithgareddau diwylliannol?**

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

- 4.13 Dylai'r elfen hon ystyried asedau ac adnoddau megis ffurf datblygu, draenio llethrau priddoedd, bioamrywiaeth cyd-destun tirwedd a chynefinoedd naturiol. Byddai hyn o bosibl yn cynnwys cyfleoedd i ynni adnewyddadwy leihau effeithiau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac i ddod o hyd i atebion cynaliadwy sy'n amgylcheddol gadarn. Bydd yn rhaid i gyfleoedd cyflawni ddangos eu bod yn gydnaws â gwaith cynnal a gwella rhinweddau arbennig yr ardal er mwyn defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon a gwella bioamrywiaeth. Gallai hyn gynnwys ffurfiau cynaliadwy o ddraenio ac aildefnyddio deunyddiau ac adnoddau ar y safle.
- 4.14 Efallai y ceir cyfleoedd i wella ansawdd y dirwedd a bioamrywiaeth bresennol a'r modd y caiff y rhain eu rheoli. Bydd asesiad cychwynnol o'r safle wedi nodi a oes angen arolygon ecolegol ac, o'r herwydd, sut y gall y bwriad ddarparu ar gyfer unrhyw rywogaethau gwarchoddedig a diddordebau bioamrywiaeth eraill.

Cwestiynau i'w Hystyried

- 13. A yw'r safle'n gwneud y defnydd cynaliadwy, gorau o'i leoliad?**
- 14. A gaiff adnoddau naturiol a budd bioamrywiaeth eu gwella a'u cynnal?**
- 15. A yw'r bwriad yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd?**

Tirwedd a Lleoliad

- 4.15 Mae holl cydrannau y Safle Treftadaeth mewn lleoliadau gwledig deniadol gyda golygfeydd panoramig ysblennydd o'u cwmpas. Bydd angen asesu bwriadau mwy sy'n cael effaith weledol yng nghyd-destun a lleoliad cyffredinol eu tirwedd (rhoddir eglurhad manylach ar y lleoliad gan ddechrau ar dudalen 14, Atodiad 1). Fel man cychwyn, a yw'r bwriad yn y Safle Treftadaeth, ei leoliad creiddiol, neu'n cael effaith ar olygfeydd arwyddocaol? Ni fu'n bosibl diffinio'r lleoliadau hanfodol yn ffisegol ar fap na'r rhai sy'n cynnwys golygfeydd arwyddocaol. Mewn rhai achosion, bydd gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol drafod gydag ymgeiswyr a yw bwriadau unigol yn dod o fewn yr ardaloedd hyn ac, o'r herwydd, a fydd angen arfarniadau tirwedd ychwanegol. Yn Atodiad 1, hefyd, ceir y term "ymdeimlad o gyrraedd" ac, unwaith eto, nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u diffinio ar fap. Maent yn

disgrifio'r ffyrdd dynesu i'r cydrannau ar ffyrdd cyhoeddus ac yn rhan o'r lleoliad cyffredinol gan roi, yn syth, argraff o olygfeydd agored wrth gyrraedd.

- 4.16 Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi nodi ardaloedd cymeriad tirwedd lleol - mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eu strategaethau tirwedd.¹⁷ Yn y dogfennau hyn, Mae'r Safle Treftadaeth a'r ardaloedd cyfagos wedi'u nodi o fewn ardaloedd cymeriad lleol penodol ac yn yr hyn sy'n cyfrannu at y cymeriad hwn o fewn gwahanol fathau o dirwedd. Maent yn disgrifio'n fanwl y gydberthynas rhwng tirffurfiau adeiledig a naturiol ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am gynefinoedd a thirweddau hanesyddol. Byddai o gymorth i ymgeisydd fod â dealltwriaeth o ardaloedd cymeriad unigol wrth asesu a oes unrhyw effaith yn sgil bwriad ac a fyddai modd lliniaru hyn mewn rhyw ffordd. Er y bydd gan rai bwriadau oblygiadau tirwedd cyfyngedig iawn, gallai eraill gael effaith sylweddol ar olygfeydd, o dir uwch o'u hamgylch, o bosibl ac, felly, bydd raid wrth asesiad gweledol manylach.
- 4.17 Rhydd y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol drosolwg cenedlaethol ar gynnwys hanesyddol tirwedd Cymru. Yn lleol, mae gwybodaeth sydd yn yr Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol¹⁸ yn rhoi rhagor o gyfarwyddyd a gwybodaeth fanwl am gymeriad y dirwedd hanesyddol ynghyd â chyfarwyddyd ar gadwraeth a rheoli.
- 4.18 Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei asesu yn erbyn ei amgylchedd uniongyrchol ac o fewn ei dirwedd ehangach. Mae hyn yn arbennig o wir mewn tirwedd warchoddedig¹⁹ lle mae golygfeydd o bell yn bwysig ac angen eu gwarchod. Mae tir uwch yn agor golygfeydd ehangach dros y wlad o gwmpas, gan ganiatáu i'r llygad edrych hyd yn oed ymhellach. Yn aml iawn, wrth edrych o bellter mawr, mae modd methu datblygiadau ac er bod graddfa'n lleihau gyda phellter, o rai edrychfannau, gall datblygiad edrych allan o'i le ac yn amlwg. Gall yr un peth fod yn wir wrth edrych i fyny ar dir uwch y mae modd ei weld o waelod dyffryn.
- 4.19 O'r herwydd, dylid cymryd gofal i lywio datblygiad i ffwrdd o'r gorwel, tir uchel agored neu o safleoedd nad oes modd eu gweld o dir uwch. Bychan iawn fydd effaith weladwy datblygiad newydd os yw mewn tirwedd fwy caeedig, wedi'i guddio gan dirffurfiau presennol a sgrîn o wrychoedd, coed a choetir. Dylai'r datblygiad weithio gyda chyfuchliniau / llif y tirffurf a phatrymau cyffredinol gorchudd tir i leihau aflonyddwch i'r eithaf. Er bod modd newid elfennau o'r dirwedd yn lleol ar gyfer datblygiad, un darn dylai prif gymeriad y dirwedd fod. Ceir amlygrwydd gweledol pan fydd datblygiad yn creu canolbwynt newydd yn y dirwedd sy'n tynnu oddi ar yr olygfa gyffredinol, y canolbwynt gweledol a'r ymdeimlad o le.

¹⁷ [Tirweddau a Morluniau Eryri – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#)
[Sensitifrwydd y Dirwedd ac Asesu Capasiti – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#)
[Sensitifrwydd y Dirwedd ac Astudio Capasiti, Cyngor Gwynedd](#)
[Adolygiad o Dirwedd Arbennig Gwynedd a Môn](#)
[Strategaeth Tirwedd Gwynedd \(Diweddariad\) 2012](#)

¹⁸ <http://www.heneb.co.uk/hlc/hlc.html>

¹⁹ Caiff tirweddau gwarchoddedig eu diffinio'n ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n Rhyngwladol, Cenedlaethol a Lleol, yn fodd o sicrhau y caiff eu harddwch naturiol ei gadw a'i wella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cwestiynau i'w Hystyried

- 16. A yw'r bwriad yn y Safle Treftadaeth, ei leoliad creiddiol, yn cael effaith sylweddol ar olygfeydd neu'n union gyfagos iddo?**
- 17. A yw'r bwriad yn tarfu ar olygfa'r dirwedd o edrych arno o bell ac agos?**
- 18. A yw'r bwriad ar y gorwel neu i'w weld yn glir o dir uwch o'i gwmpas?**
- 19. A ellid symud y bwriad i leoliad llai gweladwy?**
- 20. A gaiff lleoliad cyffredinol y Safle Treftadaeth ei beryglu?**

Cyflogaeth Gynaliadwy

- 4.20 Mae Datblygu Economaidd yn golofn bwysig mewn datblygu cynaliadwy. Rhan bwysig o'r weledigaeth ar gyfer y Safle Treftadaeth yw creu cyflogaeth gynaliadwy, gan ddarparu cyflogaeth fedrus o ansawdd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r weledigaeth hon yn un a rennir gan yr amcanion a amlinellir yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol.
- 4.21 Mae economi rhanbarthol llewyrchus yn thema bwysig ar gyfer rheoli'r Safle Treftadaeth ac mae eisoes enghreifftiau o fewn darnau cydrannol o ddatblygiadau llwyddiannus sydd wedi rhoi cyflogaeth gynaliadwy i'r ardal leol. Mae datblygiadau twristiaeth antur y blynyddoedd diwethaf yn enghraifft dda, ochr yn ochr â'r busnesau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n rhoi cyfleoedd cyflogaeth yn lleol.

Cwestiynau i'w Hystyried

- 21. A fydd y datblygiad yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth nad oes wedi bod ar gael yn yr ardal o'r blaen?**
- 22. Sut bydd y datblygiad yn sicrhau cyfleoedd i bobl leol aros yn eu cymunedau?**
- 23. Faint o swyddi llawn a/neu ran-amser a gaiff eu creu?**
- 24. A geir cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel trwy gydol y flwyddyn?**

Mynediad a Symudiad

- 4.22 Dylai bwriad sicrhau ei bod yn hawdd i bawb gael i'r datblygiad ac i'r safle. Dylai trefniadau mynediad gymryd camau rhesymol i sicrhau y bydd yr un mor hawdd i bob defnyddiwr gael mynediad. Dylid ystyried cylchrediad rhwng adeiladau, ynghyd ag o fewn graddiannau a mathau'r deunyddiau a ddefnyddir i greu llwybrau. Bydd angen ystyried yn ofalus ddefnyddio'r adeiladau neu gyfleusterau newydd fydd ar agor i'r cyhoedd ac, o bosibl atebion rheoli, os nad oes digon o le ar gyfer mynediad.
- 4.23 Bydd angen ystyried sut y bydd pobl yn cyrraedd y safle, yn ei adael ac yn symud ynddo. Dylid adlewyrchu yn y bwriad egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n hyrwyddo cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a llai o ddibyniaeth ar y car preifat. Bydd angen i drefniadau lle bydd cerbydau'n dod ar y safle fod yn ddiogel ac yn ddigonol ar gyfer cyfaint a maint tebygol y cerbydau fydd yn defnyddio'r safle, ynghyd â ffyrdd dynesu.

Cwestiynau i'w Hystyried

25. A ydyw'n hawdd i'r holl ddefnyddwyr gael mynediad?

26. A ydyw'r bwriad yn cynnwys ystyriaethau trafndiaeth gynaliadwy?

27. A yw'r mynediad i'r safle a'r ffyrdd dynesu'n ddigonol ar gyfer y diben arfaethedig?

Archeoleg

- 4.24 Nid yw mwyafrif y safleoedd archeolegol wedi'u dynodi'n ffurfiol (yn henebion rhestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth neu barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig) ond gallant fod o bwysigrwydd rhanbarthol neu genedlaethol o hyd. Yn ogystal ag olion sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi, mae yn y Safle Treftadaeth olion archeolegol o gyfnodau eraill, sydd o werth am yr hyn ydynt, yn ogystal â chyfrannu at gyd-destun hanesyddol y Safle Treftadaeth. Efallai bod safleoedd archeolegol sydd heb eu darganfod eto, yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig. Gallai'r datblygiad gael effaith ar yr olion hyn, p'un a oes effaith ar Cydrannau y Safle Treftadaeth neu ei leoliad creiddiol ai peidio.
- 4.25 Bydd angen i fwriadau ystyried a fydd effaith ar weddillion archeolegol ac a yw unrhyw effaith o'r fath yn cael effaith ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol. Gall effeithiau fod yn uniongyrchol - trwy ddymchwel neu aflonyddu gweddillion sydd wedi'u claddu - neu'n anuniongyrchol - lle mae newid mewn defnydd neu reolaeth yn gwneud safle'n fwy tebygol o bydru neu erydu, er enghraifft. Weithiau gall mesurau sydd â'r bwriad o wrthbwyso ffactorau eraill, mesurau cynaliadwyedd neu welliannau tirlunio, er enghraifft, gael effaith ar archeoleg.
- 4.26 Y cam cyntaf yw nodi unrhyw archeoleg ar y safle a deall yr hyn sy'n bwysig amdano. Gellir cael gwybodaeth o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a gedwir ar ran Gweinidogion Cymru gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd am archeoleg gofnodedig yng nghyffiniau bwriad. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar ddehongli'r wybodaeth at ddibenion datblygu ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd angen asesiad neu arolwg archeolegol proffesiynol. At ei gilydd, bydd lefel yr asesiad yn adlewyrchu graddfa'r bwriadau, ynghyd â sensitifrwydd archeolegol y safle. Lle bo angen, gall asesiad ac arolwg archeolegol lywio asesiadau arbenigol eraill, e.e. Aseuadau o'r Effaith ar Dreftadaeth.
- 4.27 Gall cynghorwyr archeolegol yr awdurdod cynllunio lleol a Pharc Cenedlaethol Eryri gyngori ymgeiswyr ar bryderon archeolegol posibl a chaiff datblygwyr eu hannog i ofyn am gyngor yn gynnar yn y broses. Ar gyfer bwriadau llai, efallai mai trafodaeth fer gyda'r cynghorydd archeolegol yw'r oll sydd ei angen. Mewn achosion eraill, bydd y cynghorwyr yn gallu rhoi cyngor ar unrhyw waith cyn ymgeisio a allai fod yn ofynnol a gallant drafod opsiynau lliniaru posibl.
- 4.28 Yr hyn y dylai'r egwyddor arweiniol fod yw osgoi effaith andwyol ar weddillion archeolegol lle bo hynny'n bosibl a sicrhau bod y cyfraniad a wneir i'r Safle Treftadaeth yn cael ei gadw neu ei wella. Lle bo hynny'n briodol, caiff datblygwyr eu hannog i drafod cyfleoedd i gynyddu buddion cyhoeddus datblygiad - trwy gynyddu mynediad i safle neu ei ddehongli, neu drwy wneud gwaith cadwraeth ymarferol, er enghraifft.

Cwestiynau i'w Hystyried

- 28. A oes digon o ddealltwriaeth o gymeriad ac arwyddocâd archeoleg yn y safle?
- 29. A gynhelir gwerthoedd cadwraeth?
- 30. A ellir osgoi neu leihau effaith?
- 31. A oes cyfleoedd i wella gwerth archeolegol y safle?
- 32. A oes cyfleoedd am fudd addysgol?

Ystyriaethau eraill

4.29 Gallai'r Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd ystyried ffactorau eraill megis sŵn, llygredd golau (cyfeirier hefyd at Oleuo Ymwthiol – Canllawiau Cynllunio Atodol²⁰ (Parc Cenedlaethol Eryri)), ac at effaith gyffredinol ar fwynder preswyl, gan ddibynnu ar natur y datblygiad. Byddir, hefyd, yn cymryd cyngor ac arweiniad gan ymgynghorwyr yn ystod y broses cynllunio. Gall effeithiau ehangach y gymuned, megis creu cyfleoedd cyflogaeth newydd a'r goblygiadau posibl ar gyfer y Gymraeg, hefyd, ddylanwadu ar y broses benderfynu.

Cyflwyno Bwriadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol

4.30 Dylai datblygwr bellach allu ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol. Gan ddibynnu ar raddfa a math y datblygiad, fe'ch cynghorir i gymryd rhan yn y broses ymholi cyn ymgeisio statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol.

Ymholiad Cyn ymgeisio

4.31 Proses statudol yw hon y mae'n rhaid talu amdani. Mae gan Gyngor Gwynedd²¹ ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri²² nodiadau cyfarwyddyd cyngor cyn ymgeisio ar eu gwefannau gyda ffurflenni cyflwyno. Dylid cynnwys gwybodaeth am yr hyn a fwriedir gyda chynllun lleoliad, manylion braslunio, lluniadau a ffotograffau. Mae'n debygol y bydd angen mwy o wybodaeth gyda chynigion ar raddfa fwy, fel y nodir ar dudalen 10 y canllawiau hyn, ac fe'ch cynghorir i werthuso'r bwriad yn llawn a pharatoi Datganiad Dylunio a Mynediad Drafft.

4.32 Mewn ymateb, bydd swyddogion perthnasol yn nodi unrhyw faterion a allai godi o'r cais yn gynnar ac yn rhoi cyngor ar sut i ddatrys y materion hyn. Bydd hyn yn helpu i wneud newidiadau i'r bwriad, nodi ymchwiliad pellach neu sefydlu pa ganiatadau eraill a allai fod yn angenrheidiol, megis caniatâd adeilad rhestredig. Bydd swyddogion cynllunio hefyd yn rhoi barn anffurfiol ar rinweddau'r bwriad a ph'un a oes modd cael caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatadau angenrheidiol eraill. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gyngor a roddir yn lleihau effaith unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ar gais cynllunio. Bydd hwn yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd arferol. Bydd angen i ddatblygwyr sy'n cynnig prosiectau ac ynddynt "datblygiad mawr" gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol.

²⁰ [Goleuo Ymwthiol – Canllawiau Cynllunio Atodol \(Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2016\)](#)

²¹ [Gwasanaeth Cyngori Cyn Ymgeisio Gwynedd](#)

²² [Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#)

Cais Cynllunio

4.33 Ar gyfer bwriadau ar raddfa fwy, cynghorir yn gryf geisio cyngor cyn ymgeisio. Byddai hyn yn fuddiol hyd yn oed ar gyfer datblygiadau llai, gan y gallai arbed amser ac arian ar waith a wneir yn ofer. Bydd y gofynion gwybodaeth sydd i'w cyflwyno gyda chais cynllunio'n amrywio a bydd angen asesiadau a chaniatadau ychwanegol ar gyfer datblygiadau sy'n cael effaith ar adeiladau a henebion rhestredig. Os byddir eisoes wedi gofyn am gyngor cyn ymgeisio, bydd peth o'r wybodaeth gefndir a'r cyd-destun eisoes wedi'i gasglu ac unrhyw astudiaethau ychwanegol wedi'u nodi. Yn Nhabl 1, Atodiad 3, ceisir rhestru mathau'r datblygiadau a rhai o'r ystyriaethau gwybodaeth a chynllunio sy'n ofynnol wrth ddod i benderfyniad cynllunio.

DRAFFT

ATODIAD 1

Dyfyniadau o Gynllun Rheoli Eiddo Safle Treftadaeth y Byd 2020 - 2030

2.2 Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol

Isod ceir y Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol ar gyfer y safle . Mae UNESCO yn asesu y Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol yn erbyn meini prawf penodol, a rhaid i Safle Treftadaeth y Byd fodloni o leiaf un o'r rhain. Enwebwyd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn erbyn dau maen prawf.

Crynodeb

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei leoli yn y Deyrnas Unedig, ym mynyddoedd Eryri. Mae chwe ardal gyda'i gilydd yn cynrychioli esiampl eithriadol o dirwedd diwydiannol sydd wedi ei siapio yn ddwys gan chwarelydda a chloddio am lechi, a'i gludo i farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. O 1780 i 1940 roedd y diwydiant yma yn dominyddu cynhyrchiad byd eang llechi to, yn trawsnewid yr amgylchedd a'r cymunedau oedd yn byw a gweithio yma. Mae'r chwareli a mwyngloddiau yn aruthrol mewn maint, yn cynnwys gweithfeydd mynyddig serth, tyllau dwfn, siambrau tanddaearol enfawr, tomennydd, systemau dwr arloesol, ac amrediad o adeiladau diwydiannol. Mae offer technegol a nodweddion peirianyddol yn goroesi. Roedd systemau cludiant arloesol yn cysylltu chwareli a safleoedd prosesu gyda harbyrau arfordirol pwrpasol ac rhwydwaith prif-lein rheilffyrdd. Roedd tai crand ac ystadau wedi ei adeiladu gan diwydianwyr blaengar yn cyferbynnu gyda aneddiadau gweithwyr, gyda'i capeli, eglwysi, ystafelloedd band, ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cyfarfod nodweddiadol.

Erbyn y 19eg ganrif hwyr, roedd yr ardal wedi cynhyrchu oddeutu traean o allbwn llechi to a slabiau pensaernïol y byd. Cyfrannodd ei ddefnydd mewn tai teras, ffactrïoedd, warysau a phensaernïaeth elitaidd at drefoli byd eang. Fe ddylanwadodd steil adeiladau, yn annog toi ongl bas yng nghyfnod Georgian. Mae technolegau o'r Eiddo a addaswyd a mabwysiadwyd yn cynnwys y defnydd arloesol o bŵer dwr, datblygiad systemau trin swmpus a defnydd cyntaf llif gron i lifio carreg. Rhannwyd rhain gan arbenigwyr a thrwy allfudo chwarelwyr Cymreig i ddiwydiannau llechi datblygol yn yr Unol Dalaethau, Ewrop ac Iwerddon. Mae systemau rheilffyrdd culion Eryri wedi cael dylanwad byd eang ac wedi ei mabwysiadu o Asia ac America i'r Affrig ac Awstralia.

Cyfiawnhau'r Meini Prawf

Diffiniad Maen Prawf (ii): dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, dros gyfnod o amser neu o fewn ardal ddiwylliannol yn y byd, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau coffadwriaethol, cynllunio trefol neu dirlunio. Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn dangos y cyfnewid pwysig yng ngwerthoedd dynol, yn enwedig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth a thechnoleg.

Cloddiwyd am lechi ym mynyddoedd gogledd-orllewin Cymru ers oes y Rhufeiniaid; ond trefn o gynhyrchu cyson ar raddfa eang o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed a wnaeth y lechen Gymreig yn arweinydd yn y farchnad fyd eang fel deunydd toi. Arweinodd hyn at ddatblygiadau trawsgyfandirol sylweddol ym meysydd adeiladu a phensaernïaeth. Roedd trosglwyddiad technoleg, gweithwyr medrus a gwybodaeth o'r tirwedd diwylliannol yma yn hanfodol i ddatblygiad y diwydiant llechi yn Ewrop gyfandirol a'r Unol Dalaethau. Yn fwy na hyn oll, y rheilffyrdd llechi lein-gul sydd yn parhau i weithredu hyd heddiw – wedi bod yn fodel ar gyfer datblygiadau diweddarach a wnaeth gyfraniad helaeth at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd mewn llawer i le arall yn y byd.

Diffiniad maen prawf (iv): bod yn enghraifft eithriadol o'r math o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirwedd sy'n cyfleu cyfnod(au) arwyddocaol yn hanes pobl.

Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn enghraifft eithriadol dirwedd cloddio a mwyngloddio llechi sy'n cyfleu maint y trawsnewid o amgylchedd amaethyddol yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae dyddodion enfawr o lechi ansawdd uchel yn diffinio prif adnodd daearegol tirwedd fynyddig heriol Eryri. Mae eu lleoliadau gwasgaredig yn cynrychioli nodau dwys o weithgaredd ac anheddu, pŵer cynaliadwy a gynhyrchir gan gyfeintiau toreithiog o ddŵr a gafodd ei harneisio mewn ffyrdd dyfeisgar, a rheilffyrdd arloesol a thechnegol ddatblygedig a wnaeth eu ffordd i borthladdoedd arfordirol newydd a adeiladwyd i wasanaethu'r masnach traws-gyfandirol hwn. Mae'r eiddo'n cynnwys y tirweddau unigol mwyaf eithriadol sydd, gyda'i gilydd, yn darlunio treftadaeth amrywiol tirwedd lawer ehangach a gafodd ei chreu yn ystod cyfnod diwydianeiddio Prydain.

Datganiad o Gyfanrwydd

Mae'r eiddo'n cynnwys yr holl elfennau hanfodol sy'n cyfleu priodweddau Gwerth Rhyngwladol Eithriadol. Mae ei ffiniau'n dal y prif ardaloedd cynhyrchu llechi anweithredol yng Ngogledd-orllewin Cymru, ynghyd â'u treftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig sy'n cynnwys y cyfleusterau prosesu, aneddiadau a llwybrau trafniadaeth mwyaf arwyddocaol. Dylai'r mecanweithiau amddiffynnol sydd ar waith gael eu defnyddio'n gyson i gryfhau gosodiad a chyfanrwydd yr eiddo.

Datganiad o Ddilysrwydd

Mae'r dirwedd ddiwylliannol sydd wedi'i chadw'n dda yn cadw lefel uchel o ddilysrwydd, ac ychydig iawn o ymyrraeth sydd wedi bod ers y prif gyfnod o weithredu diwydiannol. Mae nodweddion Gwerth Rhyngwladol Eithriadol yn cael eu cyfleu gan elfennau ffiesgol sydd wedi'u nodi a'u deall yn glir o ran dyddiad, dosbarthiad gofodol, defnydd a swyddogaeth (gan gynnwys cymunedau byw a rheilffyrdd gweithredol), ffurf a dyluniad, deunyddiau a sylwedd, a'u cydberthynas gan gynnwys cysylltedd a cyfanrwydd swyddogaethol a chyfansoddiadol cyffredinol y gyfres. Mae'r eiddo hefyd yn ymgorffori traddodiad diwylliannol bywiog, gan gynnwys sgiliau gweithio llechi a'r defnydd eang parhaus o'r Gymraeg. Adlewyrchir priodoleddau allweddol yn rhinweddau tirwedd a nodweddion cloddio gan gynnwys yr

ardaloedd gwaith creiriol, tomenni a llwybrau trafndiaeth, ynghyd ag aneddiadau cysylltiedig a seilwaith cymdeithasol. Mae'r aneddiadau hanesyddol yn cyflwyno lefelau dilysrwydd gwahanol ond derbyniol, y mae angen i'r system reoli a Chynlluniau Rheoli Lleol eu monitro a'u rheoli'n agos.

2.3 Priodoleddau

Mynegir gwerthoedd safle Treftadaeth y Byd drwy ei briodoleddau. Y rhain yw'r nodweddion creiddiol sy'n rhoi iddo ei arwyddocâd diwylliannol. Gall priodoleddau fod yn ddiriaethol (ffisegol) neu yn annirweddol. Mae cadw priodoleddau yn bwysig er mwyn cynnal y gwerthoedd sy'n rhoi pwysigrwydd rhyngwladol i'r Safle Treftadaeth.. Ymysg enghreifftiau o briodoleddau diriaethol y mae asedau hanesyddol megis chwareli, cloddfeydd, tomennydd gwastraff llechi, adeiladau hanesyddol a henebion. Mae priodoleddau chwareli creiriol yn cynnwys eu helfennau unigol a'r berthynas rhyngddynt, er enghraifft, mae systemau rheilffyrdd mewnol ac inclêns yn cysylltu wynebaw gwaith y chwareli gyda thomennydd gwastraff a melinau ac maent yn dangos dulliau gwaith y chwareli.

Mae aneddiadau y bu pobl yn byw ynddynt wedi cadw patrymau hanesyddol y strydoedd, a'r gerddi a'r ffiniau, a thrwy hynny yn esbonio eu lleoliad, eu perchnogaeth, a'u perthynas â phatrymau meddiant tir cyfnod cyn-ddiwydiannol. Mae manylion lleiaf hefyd yn bwysig, megis giatiaau haearn gyr traddodiadol, crawiau sy'n derfynau caeau, neu gymesuredd ffenestri, simneiau, a chynteddau yn aneddiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bellach, adfail yw aneddiad gwag Treforys yng Nghydran 4 ond mae ei botensial archeolegol yn anferth. Mae tai a pharciau perchnogion wedi cadw eu ffurf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r llwybrau cludo wedi cynnal eu peirianyddiaeth o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r ddwy reilffordd weithredol, Ffestiniog a Thal-y-llyn, wedi cadw eu ffurf a dyluniad eu llwybrau, yn ogystal ag adeiladau gorsaf a gweithdy cyfoes, a'u peirianyddiaeth mecanyddol. Yng Nghydran 2, ychydig iawn o newid fu i gyfaddiladau gweithdai peirianyddol Chwarel Dinorwig ers y 1870au ac mae nawr yn gartref i Amgueddfa Lechi Cymru. Yn chwarel gyfagos Vivian, mae inclên (V2) wedi'i chadw a'i hadfer i fod yn weithredol.

Defnyddir llechi yn eang ym mhob rhan o'r Safle Treftadaeth, yn ddeunydd toi ac yn elfennau pensaernïol, terfynau caeau a waliau. Mae deunyddiau adeiladu eraill yn adlewyrchu patrymau masnach rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol a ymsefydlodd yn sgil y fasnach lechi (e.e. llongau llechi yn dychwelyd gyda choed o Ganada, a brics yn cyrraedd ar drenau o ogledd-ddwyrain Cymru).

Mae'r nodweddion annirweddol yr un mor bwysig, gan gynnwys y Gymraeg, traddodiadau, ysbryd, gwerthoedd a theimladau cymdeithasol, gyda phob un yn cyfrannu at gymeriad lle.

Yn y tablau a ganlyn nodir rai o briodoleddau allweddol yn ôl meini prawf ynghyd ag enghrifftiau darluniadol

2.3.1 Priodoleddau Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru:-

Maen prawf (ii) – Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, yn arbennig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaerniaeth a thechnoleg.		
<p>O ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed gwnaeth trefn o gynhyrchu cyson ar raddfa eang y lechen Gymreig yn arweinydd yn y farchnad fyd-eang fel deunydd toi, gan annog datblygiadau trawsgyfandirol sylweddol ym meysydd adeiladu a phensaerniaeth, megis y to Regentaidd goleddf isel, a thai teras. Mae elfennau eraill o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn arddangos y ffyrdd amrywiol o ddefnyddio llechi.</p> <p>Mae cyfnewid gwerthoedd dynol hefyd yn amlwg i'w weld yn y sgiliau a'r technolegau a ledaenodd o un Cydran i'r llall, yn ffurf y dulliau gwahanol o gloddio a phrosesu'r graig.</p> <p>Mae'r rheilffyrdd llechi lein-gul yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol yn y ffaith eu bod yn amlygu sut y cafodd y dechnoleg ei gwella o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.</p>		
GWERTHOEDD	PRIODWEDDAU	ENGHREIFFTIAU
Datblygiadau mewn adeiladu a phensaerniaeth	Amrywiaeth o strwythurau ac adeiladau sy'n amlwg yn <i>Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</i> ac sy'n arddangos y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio llechi.	Waliau blociau llechi ar Stryd Fawr Bethesda. Llechi patrymog ar hen dolldy, Porthmadog.
Trosglwyddo sgiliau	Sgiliau crefftus chwarela a phrosesu llechi sy'n tarddu o ardaloedd o fewn <i>Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</i> , ac a ddefnyddiwyd trwy eu lledaeniad oddi mewn iddo, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y chwareli a'r safleoedd prosesu.	System ponciau Chwarel y Penrhyn, a fabwysiadwyd yn chwareli Dinorwig, Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (<i>Prince of Wales</i>). Defnyddiwyd dulliau cloddfeydd Dyffryn Nantlle yn Chwarel Bryneglwys.
Trosglwyddo technoleg	Technoleg arloesol a ddeilliai o ardaloedd o fewn <i>Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</i> , ac a fabwysiadwyd mewn mannau eraill, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y gweithfeydd a'r prosesu mecanyddol.	Mae system bonciau Chwarel y Penrhyn yn gyffredin mewn diwydiannau cloddio.
	Technoleg arloesol a ddeilliai o lefydd eraill ac a ddefnyddiwyd o fewn <i>Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</i> , sy'n amlwg mewn gwaith twnelu, trin, cynhyrchu ynni, pwmpio, trwsio a chynnal a chadw.	Chwarel y Penrhyn. Rhaffyrdd 'Blondin' Chwareli Blaen y Cae a Phen yr Orsedd. System-bwmpio efo grym dŵr yn Chwarel Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn. Amgueddfa Lechi Cymru.
	Technoleg arloesol yn deillio o ardaloedd o fewn <i>Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru</i> ac a ddefnyddiwyd ac a ledaenwyd oddi mewn iddi, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y chwareli, safleoedd prosesu, a systemau trin.	Chwarel Dorothea. Tirffurf ar yr wyneb yn Chwarel Bryneglwys a pengiali yr inclên tsiaen.
	Technoleg rheilffyrdd arloesol.	Rheilffyrdd Ffestiniog a Thal-y-llyn.

Maen prawf (iv) – Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn enghraifft eithriadol o'r math o dirwedd sy'n cyfleu, mewn ffordd ddramatig, 'cywaith natur a dyn' trwy elwa'n helaeth ar adnoddau naturiol.		
<p>Mae tai a pharcdroedd helaeth perchnogion y chwareli yn cyfleu maint y cyfalaf oedd ar gael er mwyn defnyddio a chludo'r adnoddau naturiol hyn yn llwyddiannus. Mae anferthedd tirweddau'r chwareli yn eu lleoliadau mynyddig anghysbell a heriol yn ddwys ac ddengar.</p> <p>Mae effaith y chwareli a'r mwyngloddiau hyn ar yr amgylchedd naturiol, ynghyd â'u tiffurfiau a'u trefniadaeth eu hunain, yn briodweddau sy'n dyst i'r cenedlaethau o sgiliau a llafur corfforol a fuddsoddiwyd ynddynt. O fewn yr amgylchedd fynyddig hon, cafodd grymoedd disgrychiant a dŵr eu harneisio'n ddyfeisgar i weithio peiriannau. Mae'r rheilffyrdd, sy'n dechnegol arloesol, yn gwneud defnydd o dopograffeg yn y modd y maent yn defnyddio rhaffyrdd ar inclên a chreu tiffurfiau graddedig. Mae'r trefi a phentrefi chwarelyddol yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd naturiol i sefydlu cartrefi i weithlu newydd y tu hwnt i ffiniau diwylliannol traddodiadol.</p>		
GWERTHOEDD	PRIODWEDDAU	ENGHREIFFTIAU
Trawsnewidiad diwydiannol drwy fuddsoddiad cyfalaf	Buddsoddiad y bonedd yn amlwg yn y tiroedd 'wedi'u gwella' gan gynnwys chwarela ar raddfa ddiwydiannol.	Chwarel y Penrhyn. Castell Penrhyn a'r Parc. Chwarel Dinorwig.
	Mae buddsoddiad cyfalaf a ddefnyddiai ddatrysiadau mecanyddol yn amlwg yn y gwaith adeiladu ceuffyrdd, prosesu mecanyddol, gwaith trin, cynhyrchu ynni, pwmpio, cynnal a chadw a thrwsio.	Chwarel y Penrhyn. Ponc 'Australia'. Inclên V2. Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon. Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea. Amgueddfa Lechi Cymru.
	Roedd yr angen dybryd i roi cartref i'r gweithlu cynyddol yn amlwg yn y ffurfiau newydd ac amrywiol o aneddiadau, a gyflwynodd ac a adlewyrchai ffurfiau newydd ar drefn gymdeithasol.	Pob anheddiad.
	Ymsefydlu economi arian, a dewis ymysg defnyddwyr y dosbarth gweithiol, yn amlwg mewn siopau, tafarndai a neuaddau marchnad.	Stryd Fawr Bethesda. Neuadd y Farchnad Blaenau Ffestiniog.
	Ymwbyddiaeth a rheolaeth dros ofal iechyd gweithwyr gan reolwyr, yn amlwg mewn ysbytai.	Ysbyty Chwarel Dinorwig.
Trawsffurfiad diwydiannol drwy elwa ar adnoddau naturiol	Graddfa, ffurf a threfn y gwaith, yn amlwg yn ymdrech pobl, a luniodd dirffurfiau chwareli creiriol a gweithfeydd tanddaearol.	Pob chwarel.
	Defnydd o dirwedd a daeareg i weithio'r chwareli a gwaredu'r gwastraff llechi, i'w weld mewn tirweddau chwareli creiriol a gweithfeydd tanddaearol.	Pob chwarel.
	Defnydd o hydroleg i yrru prosesu mecanyddol, i drin, i bwmpio, i gynnal a chadw, ac i drwsio, ac fe welir hyn yn y modd y rheolid adnoddau dŵr a strwythurau ac offer.	Olwyn ddŵr a thyrbîn yn Amgueddfa Lechi Cymru. Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon.
	Defnydd o hydrograffeg i symud llechi, sy'n amlwg i'w weld mewn ceiau ar afonydd a harbyrau llanwol.	Aber Cegin (Porth Penrhyn). Harbwr Porthmadog. Ceiau Afon Dwyrdd.
	Defnyddio'r topograffi i symud llechi yn amlwg yn y systemau rheilffordd arloesol a thechnolegau cludo eraill.	Ffordd Haeam Chwarel y Penrhyn. Rheilffordd Ffestiniog.
Tirwedd Ddiwydiannol	Cysylltedd cryf yn amlwg yn y berthynas weledol rhwng pob elfen o bob Cydran.	Cydran Ffestiniog – ymdeimlad cryf o'r chwareli yn teymasu dros y dref a'r amgylchedd ehangach; taith reilffordd yn cysylltu'r chwareli â'r môr.
	Cysylltedd cryf yn amlwg yn y berthynas weledol rhwng pob Cydran a thirwedd ehangach y mynyddoedd a'r arfordir.	Cydran Dyffryn Nantlle – ardal ddiffiniedig o chwareli ac aneddiadau mewn cyd-destun ehangach sy'n cynnwys yr Wyddfa a'r môr.

Crynodeb o briodoleddau allweddol

- Chwareli a mwyngloddiau anferthol – ponciau chwarel ar lethrau'r bryniau, cloddfeydd dwfn, siambrau tanddaearol helaeth, tomennydd gwastraff llechi enfawr, systemau dŵr dyfeisgar, systemau trin swmpus, amrediad o adeiladau diwydiannol.
- Systemau rheilffyrdd lein fach arloesol yn arwain at borthladdoedd a adeiladwyd yn bwrpasol i allforio, ac at brif reilffyrdd – rhai yn parhau i weithredu..
- Systemau prosesu arloesol – gan gynnwys, hyd y gwyddwn, y defnydd cyntaf o'r llif gron i dorri cerrig.
- Sgiliau crefftau llechi a defnydd o lechi drwy'r holl dirwedd.
- Tai gwledig a stadau mawreddog.
- Aneddiadau gwerinol y gweithwyr, yn dangos amrywiaethau mewn cyd-destun cymdeithasol, patrwm a graddfa.
- Capeli ac eglwysi, cytiau band, ysgolion, llyfrgelloedd a manau cwrdd, yn dangos hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, a dyheadau am gyfiawnder cymdeithasol.
- Yr iaith Gymraeg – enwau lleoedd.
- Traddodiad llenyddol yn gysylltiedig â Thirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru.

Lleoliad Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru

Lleoliad

Mae nodweddion arbennig yr amgylchedd trawiadol hwn, sy'n ymestyn o gopa'r mynyddoedd i lawr at yr arfordir, yn cyfleu'r heriau o weithio a byw yno. Dengys y dolennau cyswllt ymarferol a chymdeithasol ym mhob Cydran y modd y gorchfygwyd y rhain gan bobl ddyfeisgar ac annibynnol eu meddwl, a thrwy fuddsoddi cyfalaf. Erys y dolennau cyswllt hanesyddol hyn yn amlwg iawn, ac maent yn bwysig wrth archwilio a deall Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Maent yn cynnwys perthynas weledol y chwareli gydag aneddiadau'r gweithwyr a godwyd ar ffiniau diwylliannol traddodiadol ac a ddiffinnir yn aml gan y llwybrau cludo llechi sy'n rhedeg drwyddynt. Rhydd y môr gyd-destun yr allforio llechi i farchnadoedd byd-eang, gan neilltuo Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru oddi wrth dirweddau llechi hanesyddol arwyddocaol cyfandir Ewrop a Gogledd America.

Mae estheteg tirwedd y mynyddoedd, llethrau'r dyffrynnoedd, coetiroedd, caeau a pharcdiroedd a'r môr hefyd yn hynod bwysig i'r Safle Treftadaeth gan eu bod yn rhoi naws am le. Maent hefyd yn ei gwneud yn bosibl deall sut a pham fod pobl, a ysbrydolwyd gan ei thirwedd, wedi'u cyflyru i ymweld â'r rhanbarth hwn, ymgartrefu ynddo a'i goleddu.

Beth yw lleoliad?

Yn Lleoliad Asedau Hanesyddol Cadw (2017) amlinellir y dull a ddefnyddir i asesu effaith bosibl fwriadau datblygu neu fwriadau rheoli tir ar eu lleoliadau.

Mae lleoliad ased hanesyddol yn cynnwys yr amgylchedd o fewn yr hyn y caiff ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, gan gynnwys ei berthynas, ddoe a heddiw, â nodweddion hanesyddol a naturiol. Gall elfennau lleoliad wneud cyfraniad cadarnhaol, negyddol neu niwtral i arwyddocâd ased. Nid ased hanesyddol yw lleoliad, er y gallai tir mewn lleoliad gynnwys asedau hanesyddol eraill. Pwysigrwydd lleoliad yw'r hyn y mae'n ei gyfrannu i arwyddocad ased hanesyddol.


Rhywbeth gweledol yw lleoliad yn bennaf, ond gall gynnwys nodweddion eraill megis sŵn, gweithgarwch neu arogl sy'n gysylltiedig ag ased hanesyddol neu lonyddwch neu natur anghysbell. Mewn rhai achosion, gall lleoliad hefyd gynnwys perthynas swyddogaethol yn gysylltiedig ag ased hanesyddol megis maint stad hanesyddol, dalgylch dŵr a wasanaethai peiriannau dŵr hanesyddol, cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau neu lwybrau diwydiannol a ddefnyddiwyd i gludo deunyddiau diwylliannol i'r farchnad.

Gall lleoliad gynnwys ystod o ffactorau:

- cydberthnasau swyddogaethol a ffisegol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a sut y mae'r rhain wedi newid dros amser
- nodweddion topograffig a ddylanwadodd ar ei leoliad
- cymeriad ffisegol y dirwedd neu'r drefwedd o'i amgylch, gan gynnwys unrhyw waith cynllunio ffurfiol neu ddefnydd tir
- cynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a sut mae wedi newid
- elfennau claddedig neu archaeolegol posibl o amgylch yr ased hanesyddol
- golygfeydd i'r ased neu'r lle hanesyddol, golygfeydd ohono ac ar ei draws
- golygfeydd ffurfiol ac wedi'u cynllunio
- amlygrwydd yr ased hanesyddol mewn golygfeydd ledled yr ardal o'i amgylch
- golygfeydd sy'n gysylltiedig â diben esthetig, swyddogaethol neu ddefodol yr ased; er enghraifft, safleoedd amddiffynnol, fflaglau neu dirweddau a gynlluniwyd
- Gall cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol neu gysylltiadau ag enwau lleoedd i gyd gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol
- elfennau synhwyrdd eraill — sŵn neu arogleuon sy'n gysylltiedig â'r ased hanesyddol
- llonyddwch, natur anghysbell neu 'naws wyllt' y lleoliad. Yn ardal fynyddig Gwynedd, mae'r lleoliad yn bwerus ac mae'r golygfeydd allweddol yn niferus a llawn mynegiant. Ychydig yn unig o'r rhai mwyaf arwyddocaol a ddisgrifir yma

Safle Treftadaeth y Byd – Darnau Cydrannol

Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, Dyffryn Ogwen i Aber Cegin (Porth Penrhyn)



Ardal lle cloddiwyd am lechi ers y Canol Oesoedd, ond a ddatblygwyd ar raddfa eang o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen gan Richard Pennant, Arglwydd Penrhyn, a'i etifeddion. Mae'r Cydran yn cynnwys ardaloedd creiriol ponciau Chwarel enfawr y Penrhyn, sydd wedi ei gweithio'n barhaus ers diwedd y ddeunawfed ganrif, adeiladau melin ddŵr Felin Fawr, y ffordd haearn a'r rheilffordd a gludai'r llechi i'r harbwr preifat yn Aber Cegin (Porth Penrhyn), yr aneddiadau nodweddiadol ac amrywiol gweithwyr ym Methesda a Mynydd Llandygái, a chartref teuluol perchnogion y chwarel – castell enfawr y Penrhyn a'i Barc eang.

Elfennau:

- 1.1 Chwarel y Penrhyn – ponciau chwarel gydag ardaloedd helaeth o domennydd llechi ar y ddwy ochr
- 1.2 Melinau Llechi'r Felin Fawr – cyfadeilad prosesu a pheirianyddol hanesyddol
- 1.3 Ffordd haearn Chwarel y Penrhyn a Rheilffordd Chwarel y Penrhyn – dwy system hanesyddol oedd yn cludo llechi i'w hallforio o 1801 hyd 1962

- 1.4 Aber Cegin (Porth Penrhyn) – porthladd allforio llechi Penrhyn**
- 1.5 Mynydd Llandygái – Anheddiad; tai a gynlluniwyd yn gartrefi i chwarelwyr a'u teuluoedd**
- 1.6 Bethesda – Pentref; fe'i crëwyd gan chwarelwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â byw ar stad y Penrhyn**
- 1.7 Castell a Pharc Penrhyn– annedd rodresgar neo-Normanaid teulu'r Penrhyn**

Lleoliad Creiddiol

Dyffrynnoedd Ogwen a Chegin yw lleoliad creiddiol y Cydran hon, yn cynnwys yr holl dirwedd cynhyrchu llechi a chluddiant, o'r chwarel tua'r gogledd hyd at y porthladd ar gyfer allforio. Mae'n ymestyn o dref chwarelyddol Bethesda i barcdir a chastell neo-Normanaid y teulu oedd yn berchennog arnynt; o lethrau serth y Carneddau, sy'n nodi'r terfyn deheuol, hyd at wastatir arfordirol Arfon a'r Fenai, ger y castell.


Golygfeydd Arwyddocaol

Mae'r golygfeydd yn y chwarel yn cyfleu ehangder y pyllau creiriol. O ran ddeheuol y chwarel greiriol, ceir golygfeydd o'r aneddiadau sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys Castell Penrhyn, y Fenai a Bae Lerpwl. Fe wêl y teithiwr, sy'n mynd tua'r gogledd ar lôn bost hanesyddol Telford (yr A5), yr 'olygfa wefreiddiol' a'r modd y mae'r tomennydd llechi enfawr wedi ymwthio i'r tir amaethu blaenorol yn Nant Ffrancon. I'r sawl sydd ar reilffordd Caergybi-Caer a'r A55, mae gorthwr neo-Normanaid Castell Penrhyn yn teyrnasu dros y dirwedd yn y pen gogleddol, arfordirol. Drwyddynt draw, amherir ar y golygfeydd o'r chwarel o du'r castell gan goed y parcdir. Mae'n nodedig, fodd bynnag, fod y chwarel i'w gweld o'r 'Llofft Lechi', un o'r ystafelloedd yn y castell sy'n agored i'r cyhoedd.

Ymdeimlad o gyrraedd

Ymysg y manau allweddol wrth gyrraedd mae'r troad oddi ar y B4409 at brif dirffurf y chwarel, sy'n esgor ar olygfa helaeth o'r dirwedd ddiwydiannol. Cyrraedd Castell Penrhyn drwy'r parc. Wrth deithio drwy Fethesda ar hyd lôn yr A5 – anheddiad diwydiannol llinellol a adeiladwyd ar hyd lôn sy'n disgyn yn raddol; mae tŵr eglwys Glanogwen yn union gyfochrog â'r ffordd.

Cydran 2: Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig



Map 3. Ffyniau ac Elfennau Cydran 2: Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig (Graddfa 1:40,000).

Teyrnasir dros y Cydran hwn gan Chwarel greiriol Dinorwig, gyda'i phonciau grisiog, tomennydd gwastraff llechi ac ardaloedd prosesu sy'n ymestyn 500m o lawr y dyffryn hyd at droed yr Wyddfa; yr hen weithdai peirianyddol a'r ysbyty, sydd bellach yn amgueddfeydd; ehangder o aneddiadau gweithwyr, gan gynnwys barics, bythynnod gwasgaredig a phentrefi cnewylledig Deiniolen a Chlwt y Bont; a systemau trafndiaeth amrywiol i gludo llechi, gan gynnwys y llyn, y ffordd a'r rheilffordd.

Elfennau:

- 2.1 Chwarel Dinorwig – chwarel llechi greiriol helaeth
- 2.2 Ponc 'Awstralia' – melinau ac adeiladau mewn rhan o'r chwarel oedd yn rhy anghysbell i gael gwared â nhw, gan gadw eu peiriannau
- 2.3 Y Dre' Newydd – yn Chwarel Dinorwig, llety i'r gweithiwr oedd yn byw yn rhy bell i ffwrdd i deithio yno'n ddyddiol
- 2.4 Inclên V2/Chwarel Vivian – inclên gwrthbwysu mewn rhan ar wahân o Chwarel Dinorwig

- 2.5 Cyfadran Beirianyddol Chwarel Llechi Dinorwig - bellach yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol**
- 2.6 Systemau Ffyrdd Chwarel Dinorwig – y ffordd fawr, ffordd Chwarel Dinorwig a ffordd chwarel Fach-wen**
- 2.7 Ffordd haearn a rheilffordd Chwarel Dinorwig a allforiodd rhyngddynt lechi o 1825 hyd 1961**
- 2.8 Deiniolen, Clwt y Bont, Dinorwig a Fach-wen– aneddiadau; pentrefi a bythynnod chwarelyddol**
- 2.9 Craig yr Undeb – craig frig lle cynhaliwyd cyfarfodydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru**
- 2.10 Ysbyty Chwarel Dinorwig– bellach ar agor fel amgueddfa**

Lleoliad Creiddiol

Cysylltir y Cydran hwn gyda thirwedd mynyddoedd Elidir a'r Wyddfa, a llawr y cwm islaw, gyda'i ddau lyn hir a chul sy'n ymestyn at bont Pen-llyn yn y gogledd-orllewin. Yn ogystal ag effaith amlwg iawn diwydiant (ynni dŵr yn ogystal â chloddio am lechi), mae'r lleoliad yn brydferth, gyda Chastell Dolbadarn yn goruchwyllo'r esgair rhwng y ddau lyn.

Saif aneddiadau chwarelyddol yr ucheldir, sef, Deiniolen, Clwt-y-Bont a Dinorwig, ar ysgwydd naturiol yn edrych dros wastatir arfordirol Arfon. Coediog yw aneddiadau Fach-wen, ond ceir ambell olygfa dros Lyn Padarn.

Golygfeydd Arwyddocaol

Gwelir tirffurf nodedig y chwarel yn amlwg wrth edrych ar draws Llyn Peris o ffordd yr A4086; felly, hefyd, o'r olygfa a geir wrth ddringo'r Wyddfa ar droed neu mewn trê. O'r edrychfan gyhoeddus yn y rhan o'r chwarel sy'n eiddo i'r Cyngor, ceir golygfeydd o'r holl dCydran, yn ogystal â'r Wyddfa a gwastatir arfordirol Arfon hyd at Y Fenai a draw am Ynys Môn. Mae hefyd yn dangos daeareg unigryw gwythïen lechi'r Cambria. Wrth edrych tua'r de-ddwyrain o bont Pen-llyn, uwchlaw'r allfa o lyn Padarn, mae copaon yr Wyddfa ac Elidir i'w gweld a Chastell Dolbadarn, ac amlygir swyddogaeth llyn Padarn fel canolfan gludiant. Fe'u gwelir yn well, ar ôl dringo ychydig, o ben Craig yr Undeb.


Mae'r dirwedd ddiwydiannol yn amlwg o'r brif orsaf yn y Gilfach Ddu, ar Reilffordd Llyn Padarn. O'r llwybr ar hyd glan y llyn ceir golygfeydd o'r Wyddfa.

O'r mannau uwchlaw Deiniolen, Clwt-y-Bont a Dinorwig ceir golygfeydd sy'n datgelu natur nodedig y pentrefi chwarelyddol annibynnol hyn a'r tyddynnod, yng nghesail y brynau.

Ymdeimlad o gyrraedd

O gyrraedd ar hyd ffordd yr A4086 o Fangor, Caernarfon neu Ben y Pass – mae tirwedd ddiwydiannol yn ymagor yng nghanol amgylchedd naturiol llyn a mynydd. Wrth gyrraedd Amgueddfa Lechi Cymru – daw adeilad hirsgwar trawiadol i'r golwg, sy'n cyfleu rhyw adlais o floc stablau ar stad wledig neu gaer.

Cydran 3: Tirwedd Chwarel Dyffryn Nantlle



Mae Cydran Dyffryn Nantlle yn ddyffryn sy'n cynrychioli sawl cyfnod, ac mae ei lethrau yn gostwng o odre Eryri i lawr at wastatir Arfon a'r môr. Mae'n cynnwys chwareli llechi ar ffurf cloddfeydd agored hyd at 150m o ddyfnder; tomennydd sylweddol; adeiladau prosesu creiriol; injan drawst Gernywaidd anferth yn y cwt injan gwreiddiol; aneddiadau gweithwyr cysylltiedig, gan gynnwys pentref, bythynnod sgwatwyr ac adeiladau amaethyddol wedi eu haddasu; a'r rheilffordd gan y peiriannydd Stephenson ac a ddefnyddiwyd i allforio llechi.

Elfennau:

- 3.1 Chwarel y Cilgwyn
- 3.2 Rhaffordd 'Blondin' Chwarel Blaen y Cae
- 3.3 Chwarel Dorothea
- 3.4 Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea
- 3.5 Chwarel Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn – Anheddau, Melin Lechi, Barics a Rheilffordd Inclên Tsiaen
- 3.6 System bwmpio wedi'i gyrru gan ddŵr Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn
- 3.7 Chwarel Pen yr Orsedd
- 3.8 Rhaffordd 'Blondin' Chwarel Pen yr Orsedd
- 3.9 Rheilffordd Nantlle
- 3.10 Nantlle – Pentref

3.11 Aneddiadau ar Fynydd Cilgwyn

3.12 Plas Tal y Sarn a ffermdy Tal y Sarn

Lleoliad creiddiol

Mae'r Cydran hwn yn cydreddeg â Chrib Nantlle, sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin. Cyfyngir ar y pen dwyreiniol gan fwllch Drws y Coed, ond egyr gwastadedd tua'r gorllewin. Mae rhai o'r chwareli wedi'u hamgylchynu gan domennydd gwastraff llechi a chan goed; mae eraill, yn enwedig ar y llethrau uwch, yn edrych dros y dyffryn.

Golygfeydd Arwyddocaol

O'r ffordd sy'n rhedeg ar hyd gopaon tomennydd Chwarel y Cilgwyn, ger terfyn gogleddol y Cydran, ceir golygfeydd sy'n cynnwys copa'r Wyddfa yn y dwyrain, Crib Nantlle tua'r de ac, i'r gorllewin, y môr yn ymestyn draw at benrhyn Llŷn. Ar ddiwrnod clir daw lwerddon i'r golwg: cyrchfan hanesyddol llawer o lechi'r Cilgwyn. O'r man hwn hefyd ceir golygfeydd o'r chwareli eu hunain, gyda'u daeareg a'u technoleg nodweddiadol yn amlwg.


Mae'r safleoedd ar lethrau is y dyffryn ac ar lawr y dyffryn yn fwy caeedig, a nodwedd bwysig o'r dirwedd yw'r modd y mae'r llecynnau coediog a'r caeau o gyfnod cyn y chwareli wedi goroesi, a lle mae hi weithiau'n bosib osgoi golygfeydd o waith diwydiannol a chael blas o gyfnod cynharach yn hanes y dyffryn. Teyrnasa tomennydd o wastraff llechi dros bentref Nantlle. Mae'r olygfa ar hyd yr hen reilffordd am Chwarel Dorothea, gyda'i bwâu deul nodedig, yn syfrdanol. Mae'r cloddfeydd sy'n orlawn o ddŵr hefyd yn olygfeydd godidog.

Tirwedd amgaaedig o fewn tirwedd arall yw chwarel Dorothea, wedi'i hamgylchynu gan domennydd o wastraff llechi. Ers cau'r chwarel ym 1970 tyfodd coed sy'n rhannol guddio safle'r injan drawst Gernywaidd, a saif ar grib rhwng y ddwy gloddfa yr arferai bwmpio dŵr ohonynt gynt. Yn sgil datblygiad y chwareli, bu newid mawr i'r olygfa enwog honno o Ddyffryn Nantlle a baentiwyd gan Richard Wilson ym 1765–6. Serch hynny, gellir mwynhau'r un olygfa o gopa'r Wyddfa tua'r dwyrain o'r fan lle mae ffordd y B4418 yn croesi allfa llyn Nantlle.

Ymdeimlad o gyrraedd

O gyrraedd ar hyd y ffordd o naill ben Dyffryn Nantlle neu'r llall, o'r dwyrain neu o'r gorllewin, ceir tirwedd lle mae tomennydd gwastraff llechi yn tra-arglwyddiaethu, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r tir amaeth o bobtu, a'r golygfeydd tlws o'r mynyddoedd. Wrth gyrraedd chwarel Dorothea ar hyd y llwybrau troed neu Lwybr Llechi Eryri, y dŵr sydd bellach yn llenwi'r hen gloddfa, a'r rhagfuriau enfawr yn ymgodi uwch ei ben sy'n mynnu sylw.

Cydran 4: Chwareli Llechi, Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), y Rheilffordd a'r Felin



Mae'r ardal chwarelyddol fyrhoedlog hon, oedd yn weithredol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn nodedig am i nodweddion a gollwyd mewn llawer o weithfeydd mwy llwyddiannus yn fasnachol oroesi yma. Mae'n cynnwys Chwareli anghysbell Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales), dwy chwarel oedd yn gweithio ar sail egwyddor tebyg i Chwarel y Penrhyn gyda phonciau grisiog â mynediad ar inclên; y rheilffyrdd oedd yn gwasanaethu'r ddwy chwarel, pentref gweithwyr gwag yn Nhreforys a melin lechi ddramatig Ynyspandy.

Elfennau:

- 4.1 Chwarel Gorseddau – chwarel lechi greiriol
- 4.2 Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales) – chwarel lechi greiriol
- 4.3 Melin Lechi Ynyspandy – strwythur trawiadol a phensaernïol uchelgeisiol

4.4 Rheilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog – rheilffyrdd yn gwasanaethu'r ddwy chwarel

4.5 Pentref Treforys – anheddiad wedi'i adael a godwyd i gartrefu'r gweithlu

Lleoliad Creiddiol

Diffinnir y Cydran hwn gan ddau gwm pellennig, Cwm Pennant a Chwmystradllyn, sy'n ymuno ger melin lechi Ynysypany. Mae'r ddwy chwarel ym mhen draw'r ddau gwm. Mae lloriau uchaf chwarel Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales) ar yr un lefel â'r llwybr sy'n mynd o Ryd Ddu, dros y mynydd drwy Fwlch y Ddwy Elor, i Gwm Pennant. Lle tawel, anghysbell yw hwn a phrin yw'r ffermydd neu'r tai yma. Bellach mae'n borfa i ddefaid, ac nid oes yma ymdeimlad o gwbl o'r gweithgarwch sydd wedi parhau yn y Darnau Cydrannol eraill ac sy'n nodweddiadol ohonynt.

Golygfeydd Arwyddocaol

O bell, o'r A487 lle mae'r ffordd yn croesi nant Cedron, gwelir y ddau gwm; un o'r golygfeydd a geir o'r fan hon yw melin lechi Ynysypany gyda'r chwarel y tu hwnt iddi. Mae'r felin ei hun yn nodwedd drawiadol ac eiconig ar y gorwel, yn arbennig pan y'i gwelir o ffyrdd bychain tuag at ei chwr gorllewinol a deheuol. Ceir golygfeydd mawreddog o Gwm Pennant drwy Fwlch y Ddwy Elor.

Ymdeimlad o gyrraedd

Wrth gyrraedd Melin Lechi Ynysypany ar hyd y ffordd fach o'r A487, daw adeilad trawiadol tebyg i abaty i'r golwg. Ar y daith gerdded o Chwarel Gorseddau ar hyd y rheilffordd a'r wal gynhaliol, daw safle diwydiannol i'r fei yn raddol. Daw lleoliad cudd i'r amlwg ar y ddringfa i Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (Prince of Wales).

Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas Llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog



DRAFT



Map 5. Ffynau ac Elfennau Cydran 5: Ffestiniog a'i Merygloddiâu a'i Chwareli Llechi, 'Sinas Llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog (Graddfa 1:50,000).

Mae'r Cydran hwn yn cynnwys y chwareli a'r cloddfeydd tanddaearol a'r tomennydd a'r melinau cysylltiedig uwchlaw tref chwarelyddol Blaenau Ffestiniog a'i threfniadaeth drefol ffurfiol; yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch, hen gartref teulu o berchnogion chwareli o bwys; ceiau llechi ar Afon Dwyryd; Harbwr Porthmadog; a Rheilffordd lechi arloesol Ffestiniog.

Elfennau:

- 5.1 Chwareli Llechi Ffestiniog– Y tirffurf ar y wyneb
- 5.2 Chwareli Llechi Ffestiniog – Yr agorydd tanddaearol
- 5.3 Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon
- 5.4 Melin Chwarel Diffwys
- 5.5 Prif Gyfadeiladau Chwarel Maenofferen
- 5.6 Tref Blaenau Ffestinog; tref ddiwydiannol a godwyd i gartrefu chwarelwyr a'u teuluoedd
- 5.7 Plas Tan y Bwlch – cartref perchennog chwarel, canolfan astudio breswyl Parc Cenedlaethol Eryri bellach
- 5.8 Ceiau llechi ar afon Dwyryd – llwybrau cynnar ar gyfer allforio llechi

5.9 Rheilffordd Ffestiniog – fe'i codwyd i gysylltu'r chwareli â'r mor, yn parhau i fod yn weithredol fel atyniad i ymwelwyr

5.10 Harbwr Porthmadog – man allforio llechi Ffestiniog

Lleoliad Creiddiol

Mae'r Cydran hwn yn ymestyn o'r dirwedd fynyddig uwchlaw'r chwareli a thref Blaenau Ffestiniog i lawr ar hyd dyffryn lled goediog afon Dwryd, gyda'i olygfeydd o gastell Harlech hyd at y Traeth Mawr, amgylchedd mynyddig syfrdanol y Cnicht a'r Moelwynion y tu hwnt iddo, a dysgl dyffryn Croesor i'w gweld draw oddi tanynt.

Golygfeydd Arwyddocaol

Cymaint yw ehangder tirwedd y Cydran hwn fel bod y golygfeydd arwyddocaol yn niferus. Yn ardal Porthmadog, mae'r olygfa o'r harbwr, y bae, a Rheilffordd Ffestiniog a'i weithdai yn drawiadol. Gellir eu mwynhau o'r trê'n sy'n croesi morglawdd y Cob, o le y ceir golygfa i'r gogledd-ddwyrain, dros y tir a enillwyd o'r môr, draw tuag at fynydd Y Cnicht. Ymysg y golygfeydd gwfreiddiol, arwyddocaol eraill a geir o'r rheilffordd mae: yr olygfa o Dan y Bwlch dros afon Dwryd a'i cheiau, gyda Chastell Harlech yn y pellter; tri llwybr rheilffordd, un yn weithredol a dau yn rhai creiriol, dros un o esgeiriau'r Moelwynion; a golygfa o'r chwareli a thref Blaenau Ffestiniog yn ymagor wrth i'r trê'n gyrraedd yr orsaf uchaf, gan symud o dirwedd fynyddig i un drefol wrth ymlwybro heibio tai Tan y Grisiau. Daw natur droellog y rheilffordd yn amlwg yn fuan iawn i deithwyr wrth iddynt allu gweld yr injan stêm sy'n tynnu eu trê'n hwy ar hyd yr atyniad poblogaidd hwn.

Bydd teithwyr ar y rheilffordd gangen o Gyffordd Llandudno yn cyrraedd y Cydran hwn trwy dwnnel hir, gan adael tirwedd wledig o'u hôl ac ailymddangos yng nghanol amgylchedd diwydiannol, greiriol, rymus chwareli Ffestiniog, yng nghysgod amlwg tomennydd gwastraff llechi.

I deithwyr sy'n cyrraedd ar hyd y ffordd o'r gogledd, mae'r olygfa annisgwyl o'r dirwedd gyflawn wrth gyrraedd brig yr A470 dros Fwlch y Gerddinen yn drawiadol – chwareli a thomennydd llechi yn y blaendir, bryniau coediog y tu hwnt, a'r môr yn y pellter. Ar hyd ffordd yr A496 at y dref o gyfeiriad y de, ceir golygfeydd hynod o nodweddion y copaon yng nghyffiniau Tan y Grisiau. Llochesa'r dref islaw'r llethrau a'r tomennydd gwastraff llechi trawiadol sy'n ei hamgylchynu. Mae'r cyferbyniad rhwng ei ffyrdd troellog gyda'u hadeiladau hynod amrywiol, a'i sgwariau ffurfiol o derasau mawr, yn amlwg. Mae llinell wreiddiol Rheilffordd Ffestiniog drwy Ddiffwys (lle saif y cyfleusterau cyhoeddus yn yr hen orsaf), ac inclên y chwarel ar yr un trywydd, yn ganolbwynt pwysig.

Mae'r golygfeydd o'r chwareli yn drawiadol, yn cwmpasu holl ehangder y Cydran hwn, y mynyddoedd o gwmpas, yr aber, a'r môr.

Ymdeimlad o gyrraedd

Teithiau ar y trêrn - yr ymdeimlad graddol o agosáu at dirwedd ddiwydiannol ar ôl harddwch golygfaol Rheilffordd Ffestiniog a gweld tirwedd ddiwydiannol yn datgelu'n ddramatig wrth ddod allan o'r twnnel ar y brif reilffordd o Llandudno.

Y daith ffordd dros Fwlch y Crimea - daw graddfa'r cloddfeydd yn amlwg yn sydyn, gyda'r olygfa bell dros yr amgylchedd gwledig a thuag at olygfa bell y môr.

Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn



Map 7. Ffyniau ac Elfennau Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn gydag elfennau cysylltiedig (Graddfa 1:70,000).

Mae chwarel ac agorydd tanddaearol Bryneglwys yn dangos dylanwad technegau chwarelyddol Nantlle a Ffestiniog. Mae'r Cydran hwn yn cynnwys pentref cwmni Abergynolwyn, gyda'i arddull Sir Gaerhirfryn yn tystio i gyfalaf o Fanceinion; a Rheilffordd Tal-y-llyn, y rheilffordd chwarel lechi gyntaf i gael ei hadeiladu ar gyfer tyniant ager ac i gysylltu â'r brif lein yn hytrach na'r môr – yn ogystal â phrosiect cadwraeth rheilffordd arloesol sydd wedi ei efelychu yn fyd eang.

Elfennau:

- 6.1 Tirffurf wyneb Chwarel Bryneglwys a rhaffordd yr Inclên Tsiaen
- 6.2 Agorydd Tanddaearol Chwarel Bryneglwys
- 6.3 Abergynolwyn – pentref; anheddiad a godwyd gan berchnogion chwareli i gartrefu eu gweithlu

6.4 Rheilffordd Tal-y-llyn – fe'i codwyd i gysylltu'r Chwarel â'r mor, yn parhau i fod yn weithredol fel atyniad i ymwelwyr

Lleoliad Creiddiol

Mewn rhai ffyrdd, nid yw'r Cydran hwn mor uniongyrchol amlwg â'r lleill. Saif y chwarel mewn dyffryn llednant coediog anghysbell, a diffinnir ei lleoliad gan gopaon y cribau o'i amgylch. Saif pentref Abergynolwyn ar lawr y prif ddyffryn. Rhed rhan uchaf y rheilffordd ar linell ychydig i fyny ochr y dyffryn ond wrth ddynesu at Dywyn, ymlusga rhwng porfeydd y gwastatiroedd gan gyrraedd y derfynfa isaf mewn hafn.

Golygfeydd Arwyddocaol

Mae rhan o Chwarel Bryneglwys wedi'i choedwigo, ond o'i lleoliad ar lethrau'r dyffryn ceir golygfeydd o'r rhan fwyaf o'r tirffurf diwydiannol. Rhed Rheilffordd Tal-y-llyn drwy amgylchedd sydd ddim yn heriol o safbwynt peirianyddol, ond sydd wedi cadw'i gymeriad hanesyddol ers y 1860au. Mae golygfeydd o'r rheilffordd yn cynnwys adeiladau a seilwaith yr orsaf eiconig o ganol oes Victoria, gan gynnwys y trenau sy'n croesi traphont Dolgoch.

Ymdeimlad o Gyrraedd

Wrth gyrraedd ar hyd y ffordd, dyffryn serth yw'r olygfa sy'n taro ymwelwyr. Bydd teithwyr ar Rheilffordd Tal-y-llyn, boed y daith yn cychwyn o Dywyn neu Abergynolwyn, yn ymwybodol ar un waith eu bod ar system reilffordd gyflawn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid yw'r chwarel yn amlwg o derfynfa uchaf y rheilffordd yn Nant Gwernol ond mae'r inclên cyfagos sydd i'w weld o'r platform, yn rhoi cyd-destun i ddiben y rheilffordd fel cludydd llechi. Ym mhentref Abergynolwyn cedwir yr ymdeimlad o gymuned ddiwydiannol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gafodd ei chreu mewn amgylchedd mynyddig Cymreig.

ATODIAD 2

Polisiâu Perthnasol y Cynllun Lleol o Gynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ac Eryri. (*Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn*)

Polisiâu o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026

- POLISI PS 20: DIOGELU A LLE BO’N BRIODOL GWELLA ASED AU TREFTADAETH
- POLISI AT 1: ARDALOEDD CADWRAETH, SAFLEOEDD TREFTADAETH Y BYD A THIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL COFRESTREDIG
- POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY
- POLICY PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU
- POLICY PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE
- POLISI STRATEGOL PS 7: TECHNOLEG YNNI ADNEWYDDADWY
- POLICY CYFF 6: AILDDEFNYDDIO AC ADDASU ADEILADAU GWLEDIG, DEFNYDDIO EIDDO PRESWYL NEU UNEDA U NEWYDD AR GYFER BUSNES/DEFNYDD DIWYDIANNOL
- POLISI STRATEGOL PS 14: YR ECONOMI YMWELWYR
- POLICY TWR 1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR
- POLICY TWR 2: LLETY GWYLIAU
- POLICY TWR 3: SAFLEOEDD CARAFANAU SEFYDLOG A SIALÉ A LLETY GWERSYLLA AMGEN PARHAOL
- POLICY TWR 5: SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN DROS DRO
- POLISI STRATEGOL PS19 – CADW A LLE BO’N BRIODOL GWELLA’R AMGYLCHEDD NATURIOL
- POLISI AMG 2: ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG
- POLISI AMG 3: DIOGELU A GWELLA NODWEDDION SY’N NODWEDDIADOL I GYMERIAD Y DIRWEDD LEOL
- POLISI AT 2: GALLUOGI DATBLYGU
- POLISI AT 3: ASED AU TREFTADAETH SY’N ARWYDDOCAOL YN LLEOL NEU’N RHANBARTHOL AC NAD YDYNT WEDI EU DYNODI
- POLISI PS 22: MWYNAU

Polisiâu o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- Polisi Strategol A: Pwrpasau’r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy
- Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol
- Polisi Datblygu 2: Datblygu a’r Tirwedd
- Polisi Datblygu 3: Ynni
- Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
- Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol
- Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Nad Ydynt Wedi Eu Dynodi
- Polisi Strategol H: Economi Gwledig Cynaliadwy

ATODIAD 3

Yn Nhabl 1 nodir ychydig o Sefyllfaoedd Datblygu Nodweddiadol a'r Prif Ystyriethau Cynllunio ar gyfer y Safle Treftadaeth a'i leoliad creiddiol.

Sefyllfa a'r Lleoliad Datblygu	Math y Datblygiad	Ystyriaethau Cynllunio
Datblygiad bychan o fewn y Safle Treftadaeth a'i leoliad creiddiol	<ul style="list-style-type: none"> • Estyniadau deiliaid y tai • Newidiadau defnydd • Mân fwriadau twristiaeth (toiledau, maes parcio bychan, a meysydd picnic) • Mân fwriadau am lety i ymwelwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Fel arfer, byddant yn dderbyniol os ydynt yn unol â'r polisi cynllunio • Dyluniad y deunyddiau a'r defnydd a wneir ohonynt yn dderbyniol • Ystyried yr effaith ar gymdogion • Gwirio a yw adeilad rhestredig mewn ardal gadwraeth neu'n cael effaith ar heneb hynafol. Cyfeirier at dudalen 7 y canllawiau. • Gwirio'r cyngor ar yr ymholiad cyn ymgiesio. Cyfeirier at dudalen 16 y canllawiau.
Datblygu un neu fwy o anheddau ac addasu neu greu 100m ² o arwynebedd llawr y Safle Treftadaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygiad Preswyl • Datblygiad diwydiannol • Bwriadau am lety graddfa fawr i ymwelwyr a thwristiaid • Datblygiad amaethyddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid wrth Ddatganiad Dylunio a Mynediad. Cyfeirier at dudalen 10 y canllawiau. • Y goblygiadau cyffredinol ar gyfer y Safle Treftadaeth. Cyfeirier at Atodiad 1 a'r prif ganllawiau. • Cynghorir gwneud ymholiad cyn ymgeisio. Cadw mewn cof yr adborth a'r sgwrs gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. • Sicrhau y cydymffurfir â pholisiau cynllunio cenedlaethol a lleol. • Ystyried unrhyw fesurau lliniaru priodol
Datblygiadau mawr o fewn y safle Treftadaeth, ei leoliad creiddiol a'r mannau o'i amgylch. Tai (deg uned neu fwy)	<ul style="list-style-type: none"> • Deg annedd neu fwy • Ceisiadau cynllunio amlinellol 0.5 hecтар neu fwy lle nad yw nifer yr anheddau wedi'u nodi'n benodol. • Adeiladau lle mae arwynebedd y llawr yn 1000m² neu fwy 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid wrth Ddatganiad Dylunio a Mynediad (ac eithrio ar gyfer bwriadau cloddio a gwastraff). Cyfeirier at dudalen 10 y canllawiau. • Rhaid wrth ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol. Cyfeirier at dudalen 17 y canllawiau. • Y goblygiadau cyffredinol ar y Safle Treftadaeth, y

	<ul style="list-style-type: none">• Cloddio• Datblygu gwastraff• Ynni adnewyddadwy• Datblygu llecyn o un hectar neu fwy ar y safle.	<p>golygfeydd arwyddocaol, ei leoliad creiddiol a'r mannau o'i amgylch.</p> <ul style="list-style-type: none">• Cynghorir yn gryf wneud ymholiad cyn ymgeisio. Cadw mewn cof yr adborth a'r sgwrs gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw.• Sicrhau y cydymffurfir â pholisiau cynllunio cenedlaethol a lleol.• Goblygiadau i'r dirwedd / lleoliad ehangach a gyfyd yn sgil bwriadau mwy.• Efallai y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd• Ystyried unrhyw fesurau lliniaru priodol.
--	--	--

DRAFT

ADRODDIAD I'R CABINET

12 HYDREF 2021

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Awst 2021

Swyddog cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi fod effaith ariannol Covid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodi fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eleni, tra fod gwelliant nodedig yn rhagolygon yr Adran Plant a Theuluoedd.
- Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**).
 - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
 - Tanwariant o (£285k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - Tanwariant net o (£1,957k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2021/22, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd yn Bwrdeistrefol yn gorwario ar ddiwedd y flwyddyn tra fod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

3. Covid

Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 ac yn £5.6 miliwn hyd yn hyn eleni. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.

Yn dilyn i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol, yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth dros £4.3 miliwn wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst, gyda chyllid o dros £3.1 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

O ran y colledion incwm, roedd gwerth y cais am y chwarter cyntaf dros £1 miliwn, gyda £0.8 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

4. Sefyllfa Arbedion

Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod dros £32.7 miliwn sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda cynlluniau gwerth £855k, tra fod £673k gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

5. Adrannau'r Cyngor

Yr hyn sydd yn amlwg iawn eleni yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal oedolion a'r maes gwastraff, tra fod dyraniad adnodd ychwanegol a dileu cynlluniau arbedion yn golygu rhagolygon sefyllfa ariannol gytbwys gan yr Adran Plant a Theuluoedd. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Rhagwelir gorwariant o £1.4 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Y prif feysydd gorwariant yw gwasanaethau pobl hŷn, anableddau dysgu a gofal cymunedol. Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda gwerth dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst.

Bydd yr Aelodau Cabinet yn cofio iddynt ganiatáu gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Yn dilyn i'r Cyngor ddyrannu £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllidebu 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu, mae'r rhagolygon ariannol ar hyn o bryd yn addawol iawn.

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau fod y pwysau mewn gwahanol feysydd yn is na lefelau 2020/21, ond fod gorwariant yn parhau yn y maes Ôl-16 ac Arbenigol/Derwen.

5.3 Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol

Y maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £673k mewn nifer o feysydd. Mae'r adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid i gydymffurfio efo'r rheolau, gyda Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu am fisoedd cychwynnol y flwyddyn a cydym yn ffyddiog y bydd Llywodraeth

Cymru yn parhau i'n digolledu am y costau ychwanegol am weddill y flwyddyn.

5.4 Byw'n Iach

Yn ystod 2020/21 gwelwyd goblygiadau'r argyfwng ar gwmni Byw'n Iach gyda cholled ariannol sylweddol oedd bron i £2.7 miliwn am y flwyddyn ariannol. Llwyddwyd i adennill y golled ariannol yn ei gyfanrwydd drwy hawlio drwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ynghyd â'r cynllun Saib Swyddi (Ffyrlo).

O ran y rhagolygon eleni, bydd hawliadau gwerth oddeutu £1.2 miliwn yn cael eu hawlio gan y Llywodraeth am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae'n edrych yn debygol y bydd y gefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth yn parhau am weddill y flwyddyn ariannol. Felly, er y bu adroddiad i'r Cabinet 9 Mawrth 2021, oedd yn nodi fod y Cyngor yn tanysgrifennu y golled i Byw'n Iach, nid yw'n ymddangos y bydd y golled yn disgyn ar y Cyngor eleni.

5.5 Corfforaethol

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ac hefyd yn gyfrifol am y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Y pwysau ar nifer o gyllidebau gan gynnwys costau cyfalaf, ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

6. Casgliad Cyffredinol

Unwaith eto eleni, mae effaith ariannol Covid yn amlwg iawn ar y ffigyrau, gyda methiant i wireddu arbedion yn ffactor amlwg gan y ddwy adran sydd yn gorwario fwyaf sef yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant gan y mwyafrif o'r adrannau ynghyd â chyllidebau Corfforaethol.

7. Camau nesaf ac amserlen

Bydd y cyfrifwyr yn parhau i hawlio am y costau ychwanegol a'r colledion incwm perthnasol i Covid gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 18 Ionawr 2022 ar sefyllfa Tachwedd 2021.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng Covid19

Cyllideb Refeniw 2021/22 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Awst			
	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Addasiadau a Argymhellir	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2021/22
	£'000	£ '000	£'000	£ '000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	57,876	1,370	0	1,370
Plant a Theuluoedd	19,335	(36)	0	(36)
Addysg	97,981	(89)	0	(89)
Economi a Chymuned	5,042	(203)	0	(203)
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	25,577	982	0	982
Amgylchedd	3,689	(228)	0	(228)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(124)	(30)	0	(30)
Tai ac Eiddo	5,606	(175)	0	(175)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,076	(94)	0	(94)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,108	(92)	0	(92)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,616	(62)	0	(62)
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	(2,242)	2,242	0
Cyfansymiau (net)	230,782	(899)	2,242	1,343

Trosglwyddiad i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 1,957

Trosglwyddiad i Gronfa Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf 285

2,242

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	15,957	15,132	(825)	0	(825)	(137)
Gofal Cartref	7,451	8,067	616	0	616	(376)
Eraill	(122)	783	905	0	905	340
	23,286	23,982	696	0	696	(173)
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,531	2,366	(165)	0	(165)	(39)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	21,336	22,060	724	0	724	(983)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,653	3,651	(2)	0	(2)	(16)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,265	3,353	88	0	88	(44)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	54,071	55,412	1,341	0	1,341	(1,255)
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	0	(371)	(371)	0	(371)	(895)
Gofal Dydd	0	(131)	(131)	0	(131)	301
Gofal Cymunedol	190	830	640	0	640	1,077
Eraill	0	(16)	(16)	0	(16)	(16)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	190	312	122	0	122	467

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,415	3,651	236	0	236	273
Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion		0	0	0	0	415
Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgîl Covid 19	200	200	0	0	0	0
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran		(329)	(329)	0	(329)	0
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	3,615	3,522	(93)	0	(93)	688
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	57,876	59,246	1,370	0	1,370	(100)

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - dan 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest ac Awel y Coleg yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, bu cynnydd hefyd yn y nifer pecynnau taliadau uniogyrchol a thrafferthion gwireddu arbedion. Er y bu llai o alw am Ofal Cartref y llynedd yn sgil Covid, galw cynyddol yn amlwg eleni.

Gwasanaethau Anabledd Corff - lleihad yn y galw yn arbennig felly ar ofal cartref.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - achosion newydd costus yn llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

Gwasanaethau Darparu - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol, tra fod trosiant staff wedi arwain at danwariant mewn nifer o gartrefi pobl hŷn ac oblygiadau Covid wedi amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - rhai cynlluniau arbedion yn parhau heb eu gwireddu ond yr effaith yn cael ei leihau gan drosiant staff.

Cyllideb 2021/22 - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

Gwariant / Grant Covid19 - mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru at y pwysau ychwanegol hyd at ddiwedd Awst.

Arbedion - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £855k yn parhau heb eu gwireddu.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	592	579	(13)	0	(13)	(37)
Gweithredol	2,083	2,230	147	0	147	13
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	4,701	4,505	(196)	0	(196)	820
Maethu Drwy Asiant	1,633	1,504	(129)	0	(129)	291
Maethu Mewnol	2,405	2,485	80	0	80	361
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,695	1,643	(52)	0	(52)	(152)
	10,434	10,137	(297)	0	(297)	1,320
Ôl-16	1,239	1,355	116	0	116	342
Arbenigol/Derwen	1,834	2,093	259	0	259	69
Cyfiawnder Ieuenctid	253	216	(37)	0	(37)	(60)
Blynyddoedd Cynnar	145	110	(35)	0	(35)	(124)
Ieuenctid	891	741	(150)	0	(150)	(216)
Eraill	1,864	1,838	(26)	0	(26)	(46)
Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21					0	(1,261)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	19,335	19,299	(36)	0	(36)	0

Plant a Theuluoedd

Yn dilyn dyrannu dros £1.8m o arian ychwanegol i'r adran ar gyfer 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o arbedion, y rhagolygon eleni o ganlyniad yn llawer mwy addawol gyda thanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn.

Gweithredol - gorwariant ar gynlluniau cefnogol, ond sydd islaw'r lefelau a welwyd cyn cyfnod y Covid, ynghyd â gorwariant ar gostau staff.

Lleoliadau - dyraniad bid a dileu arbedion wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd wedi bod yn gorwario'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er y gwelwyd 3 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, y nifer cyfartalog lawr i 21 o'i gymharu â 22 ar gyfer 2020/21. Y niferoedd cyfartalog hefyd i lawr ar gyfer maethu drwy asiant sydd yn 31.5 eleni i gymharu gyda 33.4 yn 2020/21. Yn Maethu Mewnol, rhagwelir gorwariant ynghlwm â'r cynllun Tâl am Sgiliau a'r Cynllun Aros Ymlaen.

Ôl-16 - y pwysau yn parhau ar y gyllideb ac er bod y maes yma wedi bod yn destun bid gwerth £100k eleni, effaith blwyddyn lawn achosion i'w gweld ac felly yn gyfrifol am y gorwariant.

Arbenigol/Derwen – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach.

Cyfiawnder Ieuentid - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

Blynyddoedd Cynnar – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

Ieuentid – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	82,534	82,534	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(809)	(1,122)	(313)	0	(313)	(237)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	5,565	5,827	262	0	262	(469)
Gwasanaeth Atodol	486	663	177	0	177	764
Eraill	2,967	2,916	(51)	0	(51)	(37)
	9,018	9,406	388	0	388	258
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,241	2,112	(129)	0	(129)	(65)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,997	4,962	(35)	0	(35)	(215)
Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21						159
Cyfanswm Addysg	97,981	97,892	(89)	0	(89)	(100)

Addysg

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniadau grantiau, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant.

Cludiant - Er fod £291k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2021/22, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £258k o orwariant ar Gludiant Tacsis. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd am y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - gorwariant staff, colledion incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brechwast. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid hefyd yn amlwg, gyda'r mwyafrif o'r colledion incwm a'r gwariant ychwanegol perthnasol yn cael ei hawlio gan Lywodraeth Cymru.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £222k.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	376	376	0	0	0	(32)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	374	386	12	0	12	49
Morwrol a Pharciau Gwledig	446	195	(251)	0	(251)	0
Cytundebau Hamdden	1,078	1,103	25	0	25	0
Rhaglenni Chwaraeon	32	32	0	0	0	(22)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	(77)	(77)	0	0	0	1
Marchnata a Digwyddiadau	263	263	0	0	0	(16)
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,638	1,605	(33)	0	(33)	(115)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	912	956	44	0	44	35
Cyfanswm Economi a Chymuned	5,042	4,839	(203)	0	(203)	(100)

Economi a Chymuned

Morwrol a Pharciau Gwledig - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y rhagolygon tanwariant gan gynnwys trosiant staff, rhagori ar incwm yn Hafan Pwllheli, yn sgil y nifer cynyddol o dwristiaid i'r ardal ac felly yn y galw am angorfeydd yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid dros gyfnod yr haf. Gwelwyd hefyd fod incwm y traethau yn rhagori'r targedau incwm yn dilyn tymor prysur o ran twristiaid i'r ardal.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, o'r tafluniadau diweddaraf rhagwelir y bydd gorwariant o £25k erbyn diwedd y flwyddyn.

Gan fod Covid wedi amharu ar allu'r canolfannau hamdden i agor ac ar ddarpariaeth gwasanaeth, felly wedi cael effaith ar y gallu i gynhyrchu incwm, mae arian i ddiogolledu am gostau ychwanegol a cholled incwm Covid wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd yn £1.2 miliwn am hanner cyntaf y flwyddyn ar gyfer Byw'n Iach (£2.7 miliwn yn 2020/21).

Llyfrgelloedd Gwynedd - swyddi gwag a throsiant staff sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - sgil effaith Covid wedi amharu ar y lefelau incwm, bu llithriad yn amserlen agor Neuadd Dwyfor yn dilyn y gwaith adnewyddu, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiffyg incwm eleni. Problemau yn parhau yn Storiell gyda rhagolygon o ddiffyg o £38k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Prifffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,983	9,918	(65)	0	(65)	89
Gwasanaethau Peirianeg	516	652	136	0	136	(14)
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	11,082	11,745	663	0	663	172
Eraill	3,996	4,244	248	0	248	(247)
Cyfanswm Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	25,577	26,559	982	0	982	0

Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Prifffyrdd - rhagwelir tanwariant ar benawdau amrywiol gan gynnwys cyllideb gweithiau ffyrdd sydd yn gwrthbwysu'r oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

Gwasanaethau Peirianeg - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng a phont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd mewn grym yn Nwyfor ac Arfon, a bellach yn weithredol ym Meirionnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn amlwg. Cynnydd hefyd yn y nifer o dunelledd o wastraff ailgylchu a dosmestig a gesglir sydd yn gynydd o 13% a 11% ers lefelau 2019. Ymhellach, rhagwelir orwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu a thrafferthion i wireddu arbedion.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys colledion incwm cynnal tiroedd, pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwastraff masnachol, cyfleusterau cyhoeddus a glanhau strydoedd ac arbedion yn parhau heb eu darganfod.

Mae ardrawiad Covid19 wedi cael cryn effaith ar yr adran o ran gwariant ychwanegol a cholled incwm, gyda gwerth bron i £600k eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni (£2.4m yn 20/21).

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Amgylchedd	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	727	645	(82)	0	(82)	(144)
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	393	538	145	0	145	178
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	357	76	(281)	0	(281)	(626)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,842)	(1,931)	(89)	0	(89)	307
Cludiant Integredig	1,826	1,976	150	0	150	306
	341	121	(220)	0	(220)	(13)
Cefn Gwlad a Mynediad	625	635	10	0	10	1
Gwarchod y Cyhoedd	1,603	1,522	(81)	0	(81)	(122)
<u>Cyfanswm Amgylchedd</u>	3,689	3,461	(228)	0	(228)	(100)

Amgylchedd

Rheolaeth - trosiant staff a thanwariant cyffredinol wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - tanwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi.

Cludiant Integredig - rhagwelir orwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, gyda'r gwaith o gynnal adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth wedi ail gychwyn bellach yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwarchod y Cyhoedd - trosiant staff a gwariant is ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr ac hysbysebu.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(687)	(789)	(102)	0	(102)	(116)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	0	0	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	584	613	29	0	29	(17)
Gwasanaeth Adeiladu	(21)	22	43	0	43	69
<u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u>	(124)	(154)	(30)	0	(30)	(64)

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - rhagolygon o or-gyflawni incwm erbyn diwedd y flwyddyn drwy ddenu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Uned Rheoli Risg Llifogydd - rhagwelir gwariant ychwanegol er mwyn sicrhau derbyniad grantiau cyfatebol.

Gwasanaeth Adeiladu - diffyg incwm sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar staff.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	216	183	(33)	0	(33)	171
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	1,108	1,161	53	0	53	(201)
Tai Sector Breifat	393	388	(5)	0	(5)	17
Eraill	402	328	(74)	0	(74)	(24)
	1,903	1,877	(26)	0	(26)	(208)
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	3,498	3,406	(92)	0	(92)	(36)
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(11)	(35)	(24)	0	(24)	(2)
	3,487	3,371	(116)	0	(116)	(38)
Tai ac Eiddo	5,606	5,431	(175)	0	(175)	(75)

Tud. 98

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant o ganlyniad i drosiant staff yn gyfrifol am y sefyllfa.

Gwasanaethau Tai - unwaith eto eleni yn Digartrefedd rhagwelir bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn deillio o'r argyfwng Covid, o ran symud y digartref oddi ar y stryd, disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn digolledu'r Cyngor am gyfran sylweddol o'r £1.8 miliwn o wariant ychwanegol perthnasol. Pwysau arall amlwg eleni yw costau i gwrdd â chynnal a chadw'r Cynllun Lesu Tai preifat, gyda gwaith dal fyny efo'r ochr cynnal a chadw yn dilyn oediad yn sgil Covid. Yn gydamserol, tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Sipsiwn a Theithwyr a Thim Opsiynau Tai dan 'Eraill'.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ar yr ochr Eiddo, gyda chyfuniad o lai o wariant ar eiddo a gwasanaethau a chyflenwadau yn lleddfu'r golled incwm a gorwariant staff yn y maes glanhau.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Adrannau Canolog	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,076	1,982	(94)	0	(94)	(100)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,616	6,554	(62)	0	(62)	(86)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,108	7,016	(92)	0	(92)	(100)
Cyfanswm Adrannau Canolog	15,800	15,552	(248)	0	(248)	(286)

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - trosiant staff a swyddi gwag yn gyfrifol am y tanwariant gyda chyfran o'r tanwariant yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag a chyfnodau mamolaeth ynghyd â derbyniad incwm mewn nifer o feysydd.

Cefnogaeth Gorfforaethol - trosiant staff a rhagori ar incwm gan nifer o wasanaethau, er hyn, sgil effaith Covid wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, gyda rhagolygon o ddiffyg incwm o £58k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb Arfaethedig 2021/22	Amcan Sefyllfa 2021/22	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor	*	*	(302)	302	0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(577)	577	0	0
Costau Cyfalaf	*	*	(285)	285	0	0
Derbyniad Llog	*	*	(103)	103	0	0
Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(245)	245	0	0
Incwm uwchlaw y gyllideb	*	*	(80)	80	0	0
Eraill	*	*	(650)	650	0	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(2,242)	2,242	0	0

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - hyd at ddiwedd Awst, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 178 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22. Mae £6.5m o Bremiwm Treth Cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2021/22 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

Gostyngiadau Treth Cyngor - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â 2020/21 ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

Costau Cyfalaf - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Derbyniad Llog - rhagolygon y bydd yn derbyniad llog yn rhagori'r targed disgwylidig.

Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau ac Eraill - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

Argymhellir fod (£285k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,957k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Grant gan y Llywodraeth yn Sgîl Argyfwng COVID19

Atodiad 3

		Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru					Saib Swyddi (Furlough)				
		Digolledu Gwariant Ychwanegol			Digolledu Colled Incwm		Cyfraniad at Gyflogau				
Mis	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais		Grant Wedi Dderbyn	
		Byw'n lach	Gweddill y Cyngor		Byw'n lach	Gweddill y Cyngor					
		£'000	£'000		£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	£'000
Ebrill	1	483	474	1	1,020	783	1	116	5	116	5
Mai	2	811	760				2	35	5	35	5
Mehafin	3	824	821				3	26	4	26	4
Gorffennaf	4	1,434	1,078	2	-	-	4	27	3	27	3
Awst	5	754	-				5	26	2	26	2
Medi	6	-	-				6	-	-	-	-
CYFANSWM		4,306	3,133		1,020	783		230	19	230	19

Tud. 102

Trosgolwg o'r Holl Geisiadau:

	Gwerth y Cais £'000	Grant Wedi Dderbyn £'000
CYFANSWM	5,573	4,165
Elfen Byw'n lach	789	789
Gweddill y Cyngor	4,784	3,376

Eitem 8

ADRODDIAD I'R CABINET 12 HYDREF 2021

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2021)

Swyddog Cyswilt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

Penderfyniad a geisir

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
 - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £25,837,000 o 2020/21,
 - cynnydd o £61,000 mewn defnydd o fenthyca,
 - cynnydd o £9,959,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
 - cynnydd o £69,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
 - cynnydd o £1,482,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
 - cynnydd o £21,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
 - cynnydd o £807,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £124.015m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £38.236m ers y gyllideb agoriadol, gyda £25.837m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2020/21 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau a grantiau trafndiaeth newydd yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 18 Mai 2021).

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £71.6m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £26.1m (37%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae effaith argyfwng Covid19 yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 16% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 13% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 19% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19).
- Mae £9.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2021.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYFANSWM £'000	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL £'000	ADDASIAD LLITHRIAD £'000	NEWIDIADAU ERAILL £'000
	2021/22	2022/23	2023/24					
	£'000	£'000	£'000	£'000				
Addysg	8,374	12,871	4,309	25,554	1,628	1,470	158	
Amgylchedd	14,771	971	121	15,863	14,433	9,250	5,183	
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	(106)	(106)	-	
Cyllid	1,441	782	838	3,061	(145)	(145)	-	
Economi a Chymuned	3,221	1,025	144	4,390	2,160	436	1,724	
Tai ac Eiddo	17,681	12,957	6,929	37,567	10,690	9	10,681	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	5,292	1,450	625	7,367	1,399	1,372	27	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,982	250	-	2,232	1,732	768	964	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	10,374	4,728	3,133	18,235	4,687	3,435	1,252	
Ymgynghoriaeth	7,088	287	43	7,418	430	453	(23)	
Corfforaethol	1,328	500	500	2,328	1,328	8,895	(7,567)	
CYFANSWM	71,552	35,821	16,642	124,015	38,236	25,837	12,399	

4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £12.399m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2021/22	2022/23	2023/24	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000			
Benthyca gyda chefnogaeth	8,164	6,610	6,610	21,384	-	-	-
Benthyca Arall	6,977	2,975	3,289	13,241	902	841	61
Grantiau a Chyfraniadau	26,140	9,973	266	36,379	22,439	12,480	9,959
Derbyniadau Cyfalaf	869	13	0	882	641	572	69
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,288	356	0	2,644	1,034	(448)	1,482
Cronfa Cyfalaf	6,078	4,111	204	10,393	5,115	5,094	21
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	21,036	11,783	6,273	39,092	8,105	7,298	807
CYFANSWM	71,552	35,821	16,642	124,015	38,236	25,837	12,399

5. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £10,060k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £54k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £9,959k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £4,769k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru
- £1,088k Grant Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (TMF) i ariannu Cynllun Nyth ym Mangor
- £964k Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant - Dechrau'n Deg a Gofal Plant
- £902k Grant Llywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru trydan a solar
- £579k Grantiau Economi Gylchol a Symbyliad gan Lywodraeth Cymru at amrywiol gynlluniau
- £575k Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru
- £568k Grant Rhaglen Tai Arloesol tuag at safle Segontium, Caernarfon
- £206k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol
- £155k Grant Rhaglen Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Menter Gymunedol Penygroes

- £146k Grant Llywodraeth Cymru tuag at welliant mynediad gwledig
- £108k Grant Croesawu y Cwsmer yn Saff

6. **Argymhellion**

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

7. **Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

8. **Ystyriaethau Perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

9. **Camau Nesaf ac Amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
 - Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23
 - Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2021/22
-

Manylion y Prif Newididau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2021/22	2022/23- 2023/24
	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant Ysgolion Ganrif 21 – ailbroffilio ac addasu Cynlluniau Ysgolion Trefferthyr ac Ein Harglwyddes (<i>Adran Addysg</i>).	(4,767)	(4,713)
• Grant Croesawu y Cwsmer yn Saff (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	108	
• Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol (TMF) i ariannu Cynllun Nyth, Bangor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	388	700
• Grantiau Economi Gylchol a Symbyliad Llywodraeth Cymru tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Economi a Chymuned ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	579	
• Grantiau Llywodraeth Cymru i'r maes Gofal Plant – Dechrau'n Deg a Gofal Plant - ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	964	
• Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	4,769	
• Grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	575	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at welliant mynediad gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>).	146	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at bwyntiau gwefru trydan a solar (<i>Adran Amgylchedd</i>).	902	
• Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	206	
• Grant Rhaglen Trawsffurfio Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Menter Gymunedol Penygroes (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	155	

<ul style="list-style-type: none"> Grant Rhaglen Tai Arloesol tuag at safle Segontiw, Caernarfon (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	568	
Benthyciadau Arall		
<ul style="list-style-type: none"> Cerbydau Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	61	
Derbyniadau Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Amrywiol gynlluniau gan gynnwys ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	70	
Refeniw Adrannol		
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cerbydau (<i>Adran Addysg</i>). 	193	
<ul style="list-style-type: none"> Hwb Rhannu Bwyd Cymunedol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	100	
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>). 	63	
<ul style="list-style-type: none"> Trosglwyddo elfen o'r gyllideb refeniw i ariannu cynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	1,067	
Cronfa Cyfalaf		
<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Ysgolion Ganrif 21 - ailbroffilio Cynllun Ysgol Treferthyr (<i>Adran Addysg</i>). 	(1,146)	1,146
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Ysgolion Ganrif 21 - ailbroffilio Cynllun Ysgol Treferthyr (<i>Adran Addysg</i>). 	(218)	218
<ul style="list-style-type: none"> Adnewyddu cerbydau ac offer - Unedau Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	828	

Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2021/22 £'000	2022/23 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(3,331)	3,331
Cynlluniau Trafnidiaeth (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(176)	176
Gwelliannau Trefol (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(20)	20
Ail-wynebu Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(219)	219
Pwyntiau Gwefru Cerbydau (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(356)	356
Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(123)	123
Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(226)	226
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,351)	1,351
Cynllun Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(400)	400
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(2,925)	2,925
Uwchraddio'r System Ariannol (<i>Adran Cyllid</i>)	(14)	14

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2021/22

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2021/22 £'000	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2021 £'000
Addysg	8,374	1,360
Amgylchedd	14,771	2,918
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	1,441	249
Economi a Chymuned	3,221	1,017
Tai ac Eiddo	17,681	2,695
Oedolion, Iechyd a Llesiant	5,292	420
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,982	182
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	10,374	2,411
Ymgynghoriaeth	7,088	-
Corfforaethol	1,328	-
CYFANSWM	71,552	11,252

Noder:

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (16%) yn uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2020/21 yn 13%), ond yn is na dwy flynedd yn ôl (19% yn 2019/20, cyn amhariad Covid19).

Eitem 9

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad	12 Hydref 2021
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Pwnc	Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion
Swyddog Cyswllt	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22, 2020/21 a blynyddoedd blaenorol.
- 1.2 Nodi bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros gyfnod yr argyfwng.

2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

- 2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2021/22, 2020/21 a blynyddoedd blaenorol.
- 2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £966,720 yn 2021/22 a £2,996,190 yn 2020/21, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2021.
- 2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o dros £32.7 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 94% o'r £34.8m gofynnol dros y cyfnod. Llwyddwyd i wireddu bron i 69% o'r arbedion diwygiedig ar gyfer 2020/21 gyda 42% o arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol eleni.
- 2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. AIL-ASESU ARBEDION

- 3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

3.2 Mae'r tabl isod yn dangos gwerth yr arbedion a gafodd eu dileu neu eu gohirio i 2022/23:

Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio i 2022/23

	Gohirio i 2022/23 £	Dileu £
Cynlluniau 2017/18 - 2020/21	1,037,750	848,040
Cynlluniau 2021/22	511,250	595,450
CYFANSWM	1,549,000	1,433,490

4. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2019/20

4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2019/20, **cyfanswm o bron i £31m. Calonogol yw gallu adrodd bod dros £30m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o wireddu'r arbedion rhai o'r cynlluniau'n parhau.

4.2 Mae'r llithriad ymylol yma yn bennaf ar rai o gynlluniau 2019/20, gyda'r her o'u gwireddu'n parhau.

4.3 Mae 9 cynllun bychan gwerth cyfanswm o £187k wedi llithro ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

4.4 Mae'r 6 cynllun sy'n weddill sef gwerth £487k gyda risgiau i'w cyflawni. 4 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a 2 gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithro rhai elfennau o gynlluniau arbedion, ond posib fod angen nawr ystyried os oes wirioneddol fodd cyflawni'r arbedion ynteu a oes angen cynnig cynlluniau a dulliau amgen ar gyfer gwireddu'r arbedion.

5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2020/21

5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2020/21, yn seiliedig ar sefyllfa wrth gau'r cyfrifon am y flwyddyn. O'r 129 o gynlluniau gwerth cyfanswm o bron i £3m sydd wedi eu proffilio am y flwyddyn, mae 99, sef **gwerth bron i £1.8m neu 60% wedi eu gwireddu**. Mae 30 o gynlluniau 2020/21 unai yn llithro neu gyda rhai risgiau i'w cyflawni.

5.2 Mae cynnydd pellach wedi ei wneud erbyn hyn ers y sefyllfa wrth gau'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol.

5.3 Mae gwerth cyfanswm o £867k o gynlluniau arbedion yn llithro ond bellach yn symud yn eu blaen tra fod gwerth £345k o gynlluniau ble mae'r Adrannau yn rhagweld risgiau i'w cyflawni.

- 5.4 O'r cynlluniau sydd â risg o gyflawni mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda 2 gynllun gyda tharged o £75k yr un sef *Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog ac Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen*. Mae'r Adran yn gweithio i symud y cynlluniau yn eu blaen ond mae risgiau yn parhau efo elfennau o'r gwaith.
- 5.5 Mae risgiau i gyflawni arbedion 3 cynllun gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol sef *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* (£25k) a chynllun *Cau Cilgwyn* (£35k), sydd yn symud yn eu blaen yn 2021/22. Y cynllun arall yw *Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr* a chynllun *Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY* (£90k). Mae'r Adran yn edrych ar effeithiau archebu slotiau yn y Canolfannau ar hyn o bryd er mwyn gweld os bydd arbedion yn deillio o'r trefniadau newydd, gyda'r canolfannau bellach wedi cau ar ddydd Sul, ddylid hefyd arwain at leihau'r costau.
- 5.6 Mae'r cynllun *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd* o £10 i £15 gwerth £45k gan yr Adran Economi a Chymuned efo risgiau o gyflawni. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ymgorffori nifer o safleoedd newydd i mewn i Orchymyn Parcio Gwynedd.
- 5.7 Oherwydd blaenoriaethau eraill yn ystod 2020/21, ni fu cymaint o gynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion y flwyddyn, wrth i'r adrannau ymateb i ofynion ychwanegol wrth ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo rhai o'r trefniadau arbedion dros gyfnod yr argyfwng.

6. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2021/22

- 6.1 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2021/22. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £967k gyda gwerth £408k, sef 42% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £216k pellach sef 22% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 6.2 Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn ystod cyfnod yr argyfwng.
- 6.3 Bu llithriad ar 4 cynllun ar draws y Cyngor gwerth cyfanswm o £214k ond maent yn symud yn eu blaen sydd yn cynnwys 1 cynllun yr un gan yr Adran Amgylchedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant a 2 gynllun gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.
- 6.4 Rhagwelir risgiau i gyflawni arbedion 3 cynllun ar draws y Cyngor gwerth cyfanswm o £129k sydd yn cynnwys cynllun *Cynhyrchu incwm drwy atal twyll* (£20k) gan yr Adran Gyllid, *Adolygu'r trefniadau gweithredu* Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£34k) a *Chynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (£75k). Mae'r Adrannau yn gweithio i symud ymlaen gyda'r cynlluniau yma.

7. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23 YMLAEN

- 7.1 Rhestrir arbedion 2022/23 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 4**, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

8 CASGLIAD

- 8.1 Mae'n anorfod bod gwireddu £32.7m o arbedion (allan o gyfanswm o £34.8m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.
- 8.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 efo 94% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	Porth	£m	%
Wedi gwireddu	1	32.7	94.1
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.2	0.6
Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	1.0	2.8
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	0.9	2.5
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.0	0.0
Cyfanswm arbedion		34.8	

- 8.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2019/20 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2020/21 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22 fesul Adran

Atodiad 4 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23 ymlaen fesul Adran

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2019/20 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2019/20 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer	Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,522,150	1,522,150	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Ysgolion	4,037,000	4,037,000	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	2,467,783	2,430,283	37,500 1	-	Llithriad ar y cynllun <i>Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio</i> gwerth £37.5k yn 2019/20.
Cefnogaeth Gorffonethol	2,094,628	2,094,628	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	1,585,906	1,585,906	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Economi a Chymuned	2,713,012	2,670,512	42,500 3	-	Bu llithriad gyda 2 gynllun <i>Cysoni trefniadau/adolygu ffioedd parcio</i> gwerth cyfanswm o £30k a <i>Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> £12.5k.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,385,641	6,013,641	48,000 2	324,000 4	Mae'r cynllun <i>Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran</i> wedi ei gyflawni'n rhannol ac er mwyn cwrdd â'r diffyg o £64k, mae angen ystyried os oes modd cyflawni'r arbediad trwy ddulliau amgen. O ran y cynllun <i>Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> mae £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni. Bu llithriad ar 2 gynllun sef <i>Cynyddu incwm a lleihau costau eraill</i> (£30k) ac <i>Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu</i> (£18k). Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun pellach sef <i>Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£25k) ac <i>Adolygu pecynnau gofal anabledau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£25k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2019/20 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2019/20 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,204,488	2,204,488	-		-		Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> gwerth £370k hyd at ddiwedd 2019/20. Mae gweddill y cynlluniau wedi eu gwireddu.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	5,308,720	5,100,720	45,000	2	163,000	2	Mae risg na fydd yr arbedion o'r cynllun <i>Trefniadau Fflyd</i> yn cael eu cyflawni yn llawn bellach ac mae'n debygol bydd rhaid edrych am gynlluniau amgen i gwrdd â rhan o'r targed (£133k yn 2019/20). Yn ogystal mae £30k o arbedion 2019/20 ar y cynllun <i>Newid Trefniadau Canolfannau Ailgyrchu</i> ble mae'r Adran yn edrych ar effaith trefn newydd yn y Canolfannau. Bu oediad gyda 2 gynllun arall ond mae rhain bellach yn symud yn eu blaen.
Ymgynghoriaeth	513,500	513,500	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	367,380	353,580	13,800	1	-		Mae llithriad ar y cynllun <i>Arbedion yng nghyllideb y Crwner</i> gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd.
Tai ac Eiddo	436,100	436,100	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Is-gyfanswm	29,636,308	28,962,508	186,800	9	487,000	6	
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
CYFANSWM	30,836,668	30,162,868	186,800	9	487,000	6	Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2019/20 wedi eu gwireddu.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2020/21		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Addysg	367,210	6	367,210	6	-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	283,430	21 *	145,310	17	138,120	4	Gwireddwyd 17 o gynlluniau a bu llithriad ar 4 cynllun sef <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach</i> gwerth £20k, <i>Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dŵr</i> £12.5k, <i>Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio</i> £82.5k a <i>Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn yr Adran Amgylchedd</i> £23.12k.
Cefnogaeth Gorfforaethol	256,840	12	256,840	12	-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	170,730	11	150,730	10	20,000	1	Gwireddwyd 10 cynllun a bu llithriad ar y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll</i> sydd gyda targed gwerth £20k yn 2020/21.
Economi a Chymuned	183,410	18 *	95,910	14	87,500	4	Mae amrediad o gynlluniau'r Adran wedi eu gwireddu. O'r 4 sy'n weddill, mae 3 yn symud yn eu blaen sef 2 gynllun sy'n ymwneud â pharcio (<i>Cysoni ffioedd i safleoedd newydd ac Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel</i>) a <i>Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> .
Oedolion, Iechyd a Llesiant	583,770	12 *	179,410	6	404,360	6	Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni rhai cynlluniau arbedion gan gynnwys 2 gynllun sef <i>Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr gofal dydd newydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£75k) ac <i>Adolygu pecynnau anabledau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£75k). Yn ogystal mae yna 4 cynllun lle bu oediad sef <i>Gwell cydgorddio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> (£15k), <i>Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion</i> (£40k), <i>Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus</i> (£150k) ac <i>Ail strwythuro y Gwasanaeth Busnes a lleihau ymhellach y gefnogaeth a roddir i dimau rheng flaen</i> (£49.36k).

Tud. 119

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2020/21		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Plant a Chefnogi Teuluoedd	91,250	4	91,250	4	-		Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion 2020/21 cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> gwerth £318k. Mae gweddill y cynlluniau arbedion wedi eu gwireddu.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	729,440	22 *	198,690	9	530,750	13	Mae risgiau o gyflawni arbedion 3 cynllun sef <i>Canolfannau Ailgyrchu - newid trefniadau</i> , <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> a chynllun <i>Cau Cilgwyn</i> . Mae'r Adran yn edrych i weld os yw'r cynlluniau am wireddu'r arbedion yn llawn neu'n rhannol. Bu oediad ar 10 cynllun sydd werth cyfanswm o £380,750, rhain i weld yn symud yn eu blaen ac nid yw'r Adran yn rhagweld problemau gwireddu.
Ymgynghoriaeth	89,170	5	89,170	5	-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	35,860	10 *	29,640	9	6,220	1	Bu oediad mewn gwireddu arbedion y cynllun <i>Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol</i> .
Tai ac Eiddo	205,080	8	180,080	7	25,000	1	Bu llithriad yn rhaglen y cynllun <i>Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol</i> , ond mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ac nid yw'r Adran yn rhagweld problem gwireddu.
CYFANSWM	2,996,190	129	1,784,240	99	1,211,950	30	Yn nhermau ariannol (£), mae 60% o gynlluniau arbedion 2020/21 eisoes wedi eu gwireddu.

* cynnwys cynllun/cynlluniau wedi gwireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i wireddu yn llawn.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2021/22

Adran	Cyfanswm Arbedion 2021/22 £ - nifer		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - nifer		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - nifer		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	65,000	1	65,000	1	-	-	-	-	Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.
Amgylchedd	73,750	4	16,250	2	20,000	1	37,500	1	Mae'r cynllun <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e. offer swyddfa a TG)</i> ar drac i gyflawni'n amserol. Bu oediad ar y cynllun <i>Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan</i> mewn meysydd parcio, ond mae bellach yn symud yn ei flaen.
Cefnogaeth Gorfforaethol	117,750	3	17,250	1	100,500	2	-	-	Mae 2 gynllun ar drac i gyflawni'n amserol sef <i>Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol (Ileihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu</i> (£60k yn 2021/22) a <i>Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad</i> (£40.5k yn 2020/21).
Cyllid	100,000	3	80,000	2	-	-	20,000	1	Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll</i> (£20k yn 2021/22). Cymeradwywyd gynlluniau amgen i ddisodli'r cynllun hanesyddol <i>Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol</i> (£75k yn 2021/22) yng Nghabinet 28/9/21.
Economi a Chymuned	-	-	-	-	-	-	-	-	Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	78,750	2	-	-	-	-	78,750	2	Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion</i> (£33.75k). Bu oediad ar y cynllun <i>Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> ond mae'n symud yn ei flaen (£45k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	23,170	1	23,170	1	-	-	-	-	Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.

Adran	Cyfanswm Arbedion 2021/22		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	206,250	3	-		-		206,250	3	Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> (£75k yn 2021/22). Mae sefyllfa Covid wedi amharu ar gytundebau masnachol ac felly yn annhebygol o gyflawni'r arbediad eleni. Bu llithriad mewn gwireddu'r arbedion cynllun <i>Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont</i> (£26.25k yn 2021/22). Mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau gyda Network Rail. Yn ogystal bu llithriad ar y cynllun <i>Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'</i> (£105k in 2021/22).
Ymgynghoriaeth	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Tai ac Eiddo	302,050	5	206,670	3	95,380	2	-		Dau gynllun ar ôl i'w cyflawni sydd ar drac i gyflawni'n amserol.
CYFANSWM	966,720	22	408,340	10	215,880	5	342,500	7	Yn nhermau ariannol (£), mae 42% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu a 22% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn y cyfnod ers Ebrill 2020.

ATODIAD 4

TROSOLWGW CYNLLUNIAU ARBEDION 2022/23 YMLAEN MESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2022/23 ymlaen <i>£ - nifer</i>	
Addysg	-	
Amgylchedd	12,500	1
Cefnogaeth Gorfforaethol	100,000	1
Cyllid	25,000	1
Economi a Chymuned	255,000	2
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,235,250	4
Plant a Chefnogi Teuluoedd	303,590	1
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	497,500	4
Ymgynghoriaeth	-	
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	-	
Tai ac Eiddo	-	
CYFANSWM	2,428,840	14

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 12 Hydref 2021

Aelod Cabinet: Cyngorydd Gareth Thomas

Swyddog Cyswllt: Sioned Williams

Rhif Cyswllt: 01286 679547

Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ECONOMI A CHYMUNED

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Uwch Dîm Rheoli'r Adran 14 Medi 2021, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3 O ystyried y galw ychwanegol sydd wedi bod ar wasanaethau'r Adran dros y misoedd diwethaf yn sgil effaith COVID 19, dwi'n fodlon iawn gyda perfformiad y gwasanaethau. Mae rhai gwasanaethau wedi cael eu hailgynllunio gyda modelau darparu gwasanaeth newydd mwy cynaliadwy yn cael eu cyflwyno i sicrhau diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaeth. Mae rhai gwasanaethau wedi gorfod newid eu blaenoriaethau yn llwyr a gwyro staff i ymdopi gyda'r galw ychwanegol i gefnogi busnesau ac ymdopi i'r cynnydd sylweddol mewn nifer ymwelwyr i'r ardal. Dwi'n gefnogol iawn i'r newidiadau hyn sydd wedi cael eu cyflwyno i ymateb i'r galw ond bydd rhaid ail-edrych ar yr adnoddau i ailfodelu a chynnal gwasanaethau i'r dyfodol.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella]

Prosiect 1: Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

- 2.1 Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cynllun yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Cymeradwywyd cynlluniau busnes cychwynol sawl cynllun o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru gan gynnwys rhai sy'n flaenoriaeth i Wynedd megis y Ganolfan Economi Wledig yng Nglynllifon a Chanolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor. Mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol i waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd i sicrhau y bydd yn cyflawni. Mae [linc yma](#) i adroddiad sy'n cynnwys mwy o fanylion am y cynnydd ar y gwahanol brosiectau twf.

Prosiect 2: Creu Swyddi Gwerth Uchel

- 2.2 Mae'r her economaidd sydd wedi deillio o'r argyfwng coronfeirws wedi effeithio ar waith y cynllun yma yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda busnesau yn oedi eu cynlluniau i fuddsoddi a datblygu. Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o weithgaredd gan gynnwys gwaith gyda sectorau sy'n debygol o greu swyddi da (megis y cyfryngau / digidol), datblygu cyfleoedd ar gyfer gwaith sy'n talu'n dda o fewn sectorau presennol a paratoi disgyblion ysgolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd. Mae'r cynllun hefyd yn sicrhau fod datblygiadau all greu nifer mawr o swyddi da yn symud ymlaen ac mae'n galonogol nodi cynnydd pwysig yn y ffrwd gwaith yma yn ystod y misoedd diwethaf, yn benodol:

- mae Cwmni Eginio wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i hwyluso sicrhau datblygiadau pellach ar y safle i'r dyfodol.
- mae parhad buddsoddiad perchnogion safle Llanbedr yn galonogol er bod penderfyniad y Llywodraeth i adolygu cynlluniau ffyrdd wedi creu ansicrwydd o ran y bwriad i wella'r mynediad i'r maes awyr – buddsoddiad sydd yn allweddol i wireddu potensial llawn y safle i greu swyddi da i drigolion lleol.

Prosiect 3: Arloesi Gwynedd Wledig

- 2.3 Mae ein hymdrechion i sicrhau ffyniant ein hardaloedd gwledig yn parhau er bod rhaglen ARFOR wedi dod i ben. Mae'r gwersi a ddysgwyd trwy'r prosiectau wedi cael eu dadansoddi a dwi'n falch fod ein hymdrechion yn lleol i dorri tir newydd gyda'r rhaglen yn derbyn cydnabyddiaeth eang ac yn gwireddu canlyniadau go-iawn. Er enghraifft, mae'r cymorth darparwyd drwy'r grant Cymorth i Fentro am arwain at greu 60 o swyddi newydd ac mae'r cynllun Llwyddo'n Lleol wedi arwain at greu 22 o fusnesau newydd gan bobl ifanc lleol yng Ngwynedd a Môn (gellir cael blas pellach o weithgaredd ARFOR yn <https://bwrlwmarfor.cymru/>). Mae'r Cyngor wedi gwneud achos i Lywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi yn y rhaglen i'r dyfodol.
- 2.4 Y tu hwnt i ARFOR, mae Grŵp Gweithredu Lleol y rhaglen LEADER yng Ngwynedd yn parhau i arloesi gan weithredu ystod o gynlluniau i gefnogi cymunedau a busnesau gwledig yn arbennig yn sgil yr heriau yn deillio o'r pandemig o fewn meysydd megis trafnidiaeth gymunedol, masnachu ar-lein a chefnogi'r stryd fawr gan gyflwyno technoleg i fesur defnydd canol trefi

ledled y sir. Gellir cael golwg ar waith LEADER yng Ngwynedd drwy ymweld â www.facebook.com/ArloesiGwyneddWledig a derbyn diweddariad rheolaidd drwy danysgrifio i'w cylchlythyr [yma](#).

Prosiect 4: Hybu Canol Trefi

- 2.5 Mae pwyslais y prosiect hwn wedi cael ei wyro yn sgil COVID, ond mae pecyn o welliannau amgylcheddol yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd yn sgil llwyddiant i ddenu grantiau gan Llywodraeth Cymru. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys datblygu isadeiledd digidol mewn canol trefi er mwyn cynnig wi-fi, llwyfan marchnata a chyd-fasnachu newydd, modd o gasglu a rheoli data ar batrymau defnydd canol tref. Mae'r gwaith o ddatblygu prosiectau fel rhan o Gynllun Adfywio Canol Dinas Bangor yn parhau, gan ystyried cyfleoedd ariannu newydd ar gyfer prif drefi'r sir. Mae materion eiddo gwag hefyd wedi derbyn sylw, gyda'r bwriad o sefydlu grŵp trawsadrannol er mwyn datblygu cynllun gweithredu penodol.

Prosiect 5: Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith

- 2.6 Dwi'n falch iawn o lwyddiant yr Adran i arwain ar y gwaith o sicrhau Dynodiad Treftadaeth Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru ar 28 Gorffennaf 2021. Cafwyd sylw eithriadol yn y wasg yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a crewyd bwrlwm a balchder yn y cymunedau. Mae gweithgareddau rhaglen LleCHI wedi parhau o fewn cymunedau a dros y misoedd diwethaf mae Dyffryn Nantlle wedi creu anthem, murluniau wedi eu creu ar draws yr ardal, arddangosfeydd amrywiol wedi eu cynnal a gwaith Llysgenhadon Ifanc wedi parhau. Ers y cyhoeddiad am y dynodiad, mae trafodaethau wedi parhau gyda Cronfa Loteri Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Amgueddfa Cymru a phrif bartneriaid ar strwythur cyllido posib ar gyfer y dyfodol gyda cais grant i'r cymunedau drwy raglen LleCHI 2 yn cael ei baratoi.
- 2.7 Dros y misoedd nesaf byddwn yn cytuno ar strwythur gweithredu newydd ar gyfer y Bwrdd Llywio a'i is-grwpiau, datblygu ceisiadau am gyllid i weithredu Cynllun Dehongli, ymgynghori ar y Canllaw Cynllunio Atodol ac yn cyhoeddi llyfryn 'Gofalu am ein Tirlun Llechi' a Chanllaw Dylunio Cymunedol. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau'r buddion gorau i gymunedau a busnesau Gwynedd yn sgil y dynodiad.

Prosiect 6: Elwa o Dwristiaeth

- 2.8 Mae gwaith wedi ei wneud er mwyn cytuno ar egwyddorion twristiaeth Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Mae Grwp Gweithredol hefyd wedi ei sefydlu i edrych ar ymateb i sefyllfa COVID ar gyfer tymor 2021. Mae'r trefniadau wedi eu trafod yn y Pwyllgor Craffu ac yn chwarter cyntaf eleni mae'r Cabinet wedi cytuno ar ddogfen ymgynghori. Y bwriad ydi cynnal cynhadledd cyn diwedd y flwyddyn i gyflwyno'r egwyddorion i gymunedau a busnesau Gwynedd gyda chyfle i fwydo sylwadau cyn i'r weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu gael ei fabwysiadu yn 2022.
- 2.9 Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad i bolisiau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r dyfodol a bydd angen plethu'r gwaith yn drawsadrannol e.e. i'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu ar y cyd a'r Fframwaith Adfywio.

Prosiect 7: Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

- 2.10 Mae'n parhau'n gyfnod ansicr i fusnesau Gwynedd o ganlyniad i COVID-19 a Brexit er gwaetha'r prysurdeb a welwyd yn y sir yn ystod cyfnod yr haf. Drwy'r cynllun hwn rydym yn cynnal ein ffocws ar ddarparu cymorth a chefnogaeth i fentrau'r sir a hynny drwy gydweithio ar draws adrannau'r Cyngor. Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol i helpu busnesau oresgyn gan gynnig arian i 71 o fusnesau rhwng Mehefin a Gorffennaf. Rydym hefyd wedi dal ati i sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i gadw eu staff a'u cwsmeriaid yn ddiogel a chael mynediad i bob cymorth sydd ar gael. Mae dros 4,300 o fusnesau yn derbyn ein bwletinau gwybodaeth erbyn hyn.
- 2.11 Mae'r awydd i sefydlu a datblygu busnesau wedi dychwelyd yn ddiweddar a bydd ffocws cynyddol yn ein gwaith yn ystod y misoedd nesaf ar sicrhau fod cymorth a chynghor priodol ar gael i helpu cwmnïau lleol gyflawni eu potensial a chreu gwaith o ansawdd i bobl Gwynedd. Ond rhaid imi dynnu eich sylw i allu'r gwasanaeth i gynnal y lefel o gymorth i fusnesau. Mae staff wedi eu gwyro dros dro o wahanol wasanaethau yn yr Adran dros y flwyddyn diwethaf er mwyn gallu ymdopi gyda'r galw am gymorth gan fusnesau. Dwi wedi gofyn i'r Adran adolygu'r strwythur staffio i edrych ar sut bydd modd cynnal y gefnogaeth yma i'r dyfodol.

Prosiect 8: Pobl Gwynedd yn Chwarae Rhan lawn yn y Byd Gwaith

- 2.12 Mae'r farchnad llafur yng Ngwynedd wedi gweld newidiadau sylweddol dros y misoedd diwethaf. Yn ystod cyfnod y gaeaf bu diweithdra yn y sir yn uwch na fu am flynyddoedd, 4,365 yn hawlio budd-daliadau diweithdra yng Ngwynedd ym mis Chwefror. Erbyn cyfnod yr haf roedd y sefyllfa wedi newid yn llwyr gyda 2,985 yn hawlio budd-daliadau diweithdra gyda busnesau yn chwilio am weithwyr ac yn adrodd anawsterau wrth recriwtio.
- 2.13 Drwy'r cyfnod mae tîm Gwaith Gwynedd yn y Cyngor wedi ymateb yn gyflym ac yn hyblyg er mwyn cyfarch yr angen. Cyflwynwyd cymorth i weithwyr oedd yn colli eu gwaith i finio i eu sgiliau a'u cynnal rhag mynd yn segur, yn cynnwys cydweithio gyda partneriaid i gyflwyno cynllun penodol i gefnogi pobl ifanc drwy raglen 'Kickstart' Llywodraeth y DU. Yn fwy diweddar, mae'r tîm wedi bod yn helpu busnesau i hyrwyddo swyddi a recriwtio gan fod nifer wedi adrodd anhawster dod o hyd i weithwyr (yn cynnwys y cynllun Kickstart lleol). Mae 112 o bobl wedi sicrhau gwaith o ganlyniad i'r help maent wedi ei dderbyn gan y tîm rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2021.
- 2.14 Mae'r maes gwaith yma yn parhau'n flaenoriaeth; mae risg i'r nifer di-waith yn y sir gynyddu eto wedi cyfnod yr haf ac wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben. Roedd 6,400 o bobl ar ffyrlo yng Ngwynedd 30/04/21, sydd yn 14% o'r farchnad lafur. Mae'r angen i sicrhau fod trigolion lleol yn meddu'r sgiliau i sicrhau mwy o'r swyddi sy'n talu yn y sir am barhau i fod yn her yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Prosiect 9 : Lluo Cynllun Adfywio ar gyfer ein Hardaloedd

- 2.15 Mae Bwrdd Adfywio'r Cyngor wedi cefnogi'r bwriad o ddatblygu Fframwaith Adfywio Newydd ar gyfer y Sir, ond bu'n rhaid gohirio'r gwaith llynedd oherwydd y pandemig. Yn gynharach eleni penderfynwyd i fwrw ymlaen gyda'r rhaglen, ac mae'r gwaith rhagbaratoi wedi ei gwblhau. Bydd y Fframwaith Adfywio arfaethedig yn cynnwys dogfen sirol ynghyd â chynlluniau adfywio

lleol ar gyfer 13 ardal ar draws Gwynedd. Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda Aelodau Lleol er mwyn cynnig diweddariad ar y gwaith a'r trefniadau arfaethedig.

- 2.16 Bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori gyda chymunedau lleol yn ganolog i'r rhaglen. Mae trefniadau 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035' wedi eu paratoi fydd hefyd yn gyfle i gyd-blethu gwahanol ymarferiadau ymgysylltu sydd yn cael eu cynllunio ar draws y Cyngor. Mae asesiadau ardaloedd unigol wedi eu paratoi a'u cylchredeg i Aelodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau blaengar lleol. Bydd sgysia cychwynnol yn cael eu cynnal gyda Aelodau a'r sefydliadau lleol yn cael eu cynnal o fis Medi ymlaen, gan gynnig sail ar gyfer gwaith ymgysylltu manwl yn ystod mis Tachwedd.

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Hoffwn dynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud â'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond sydd yn derbyn sylw gan yr Adran gan eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i bobl Gwynedd. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob uned wasanaeth yn yr Adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt ar y pwynt yma.

Gwasanaeth Morwrol

- 3.2 Rhagwelwyd nifer sylweddol o ymwelwyr i'r ardal yn ystod tymor yr haf eleni a bu i'r Gwasanaeth gyflwyno agweddau newydd i'r trefniadau gan gynnwys darpariaeth cofrestru ar-lein, derbyn taliadau gyda cherdyn ar y prif lithrfeydd, cynyddu'r nifer o staff tymhorol a hyrwyddo negeseuon diogelwch traethau.
- 3.3 Yn ystod Ch1 2021/2 roedd yr arfordir yn eithriadol o brysur - gyda'r nifer o ymwelwyr yn debygol iawn yr uchaf erioed (data i ddilyn). Ar y cyfan, ystyrir fod y trefniadau wedi gweithio'n effeithiol, ac y dylid cydnabod gwaith ac ymroddiad staff yn gweithio o dan amgylchiadau heriol. Bu'n ofynnol i ambell aelod o'r staff traethau hunan ynysu yn unol a'r trefniadau COVID ar brydiau gan roi pwysau ychwanegol ar y trefniadau gwaith. Yn anffodus, mae sawl achos wedi ei gofnodi yn ystod y cyfnod lle roedd agwedd bygythiol neu ymosodol tuag at staff. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi delio gyda nifer cyfyngedig o ddamweiniau difrifol, oedd yn cynnwys marwolaethau, sydd yn destun gwaith pellach. Yn unol â'r drefn arferol, bydd y Gwasanaeth yn cynnal adolygiad blynyddol o'r trefniadau yn sgil tymor yr Haf.
- 3.4 Gwelwyd hefyd gynydd o fewn yr harbyrau a'r nifer o gychod / badau dŵr personol ar y môr. Ar gyfer 2021/2 mae cynnydd o 35% mewn nifer o gwsmeriaid blynyddol yr Hafan; ynghyd a chynnydd yn y nifer o drwyddedau cychod pŵer a Badau Dŵr Personol a gyflwynwyd. Er gwaethaf ymdrechion y Gwasanaeth, mae bwlch mewn hawliau gorfodi yn erbyn badau dŵr personol yn parhau; ynghyd a phryderon am achosion fod cychod yn cael eu lansio heb gofrestru gyda'r Cyngor. Hoffwn hefyd dynnu'r sylw'r Aelodau fod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi cyhoeddi'n ddiweddar iawn ymgynghoriad ar y bwriad o gynnwys Badau Dwr Personol o fewn deddfwriaeth forwrol er mwyn eu rheoli, a bydd cyfle i'r Cyngor gyflwyno sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad.

Parciau Gwledig

- 3.5 Yn ystod y cyfnod, gwelwyd nifer o ymwelwyr a phrysurdeb yn ein Parciau Gwledig hefyd. Ym Mharc Padarn, rhoddwyd trefniadau rheoli ychwanegol gan cynnwys staff tymhorol, arwyddion, trefniadau sbwriel (drwy'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a phenodi cwmni diogelwch ar benwythnosau. Tra fod llinellau melyn dwbl wedi eu gosod ar y briffordd ardal y Glyn, ystyrir fod angen mesurau pellach yn yr ardal. Rhagwelir y byddai gorchymyn parcio ar feysydd parcio Y Glyn yn cynnig pwerau gorfodaeth, gan greu incwm i'r Cyngor o'r defnydd sylweddol a wneir o'r safle. Mae adroddiad ar gyflwr hen strwythurau'r diwydiant llechi wedi ei baratoi hefyd gyda'r bwriad o dargedu ffynonellau ariannol allanol ar gyfer eu hadfer a'u diogelu.

Cefnogi Cymunedau

- 3.6 Yn ystod 2021/2, mae'r Gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer cymunedau'r Sir. Yn ystod Ch1, rhoddwyd sylw i ddatblygu 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035' gyda'r Uned Gyfathrebu Gorfforaethol. Bydd y Gwasanaeth yn arwain ar y gwaith o drefnu a chynnal sgysiau cychwynol gyda sefydliadau lleol o fis Medi ymlaen.
- 3.7 Yn mis Mehefin, fe agorwyd cronfa CIST Gwynedd ar gyfer 2021/2, ac mae adnoddau (refeniw a cyfalaf) i gyd wedi eu dyrannu yn ystod y rownd gyntaf. Yn ystod y cyfnod bu i'r Gwasanaeth hefyd hyrwyddo a gweinyddu grantiau 'un tro' Llywodraeth Cymru ar gael i grwpiau cymunedol er mwyn ymateb i amgylchiadau arbennig (yn cynnwys COVID a Brexit).

Rhaglenni Adfywio

- 3.8 Yn ystod 2021/2, bydd y Gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o ddatblygu prosiectau a rhaglenni adfywio ardaloedd canol tref. Ers mis Ebrill eleni, mae Rhaglen Adfywio Newydd Llywodraeth Cymru 'Trawsnewid Trefi' wedi dod yn weithredol, gyda threfniadau rhanbarthol newydd mewn lle. Mae'r Gwasanaeth yn cyd-weithio gyda nifer o grwpiau lleol er mwyn ystyried cyfleoedd i ddenu grantiau o'r rhaglen. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn cefnogi Ardaloedd Gwella Busnes Bangor a Caernarfon sydd wedi sefydlu ail dymor ers mis Ebrill eleni.
- 3.9 Yn ystod Ch1, roedd hefyd gwaith ychwanegol i baratoi cais y Cyngor ar gyfer Abermaw, Bala ac ardal Hirael, Bangor am arian o raglen 'Codi'r Gwastad' Llywodraeth Deyrnas Gyfunol.
- 3.10 Bydd angen ailgynllunio'r gwasanaeth yma i'r dyfodol er mwyn gallu gweithredu cynlluniau adfywio sy'n flaenoriaeth i'r Cyngor i'r dyfodol.
- 3.11 O ran dangosyddion a mesurau'r Adran, rwyf yn hapus gyda'r perfformiad. Mae'r adroddiadau misol dwi'n eu derbyn gan y gwasanaethau yn dangos fod niferoedd yn defnyddio ein gwasanaethau yn parhau'n isel o'i gymharu â 2019, a hynny yn sgil COVID. Mae trefniadau mewn lle i addasu'r gwasanaethau i'r dyfodol yn sgil profiadau'r 2 flynedd ddiwethaf a bydd ein mesuryddion yn cael eu hadolygu.

Digwyddiadau

- 3.12 Mae 2021-22 yn parhau i fod yn flwyddyn heriol i drefnwyr digwyddiadau yng Ngwynedd. Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu cefnogaeth a chynngor i drefnwyr, ond hefyd wedi mabwysiadu trefniadau i ymgynghori gydag Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned cyn cefnogi unrhyw

ddigwyddiadau ar diroedd y Cyngor. Mae trefniadau ar gyfer cynnal digwyddiadau ar Yr Wyddfa hefyd yn cael eu cadarnhau rhwng y Cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

3.13 Hoffwn dynnu eich sylw i'r mesuryddion canlynol gan eu bod wedi dangos newid sylweddol ers 2019:

- **Gwasanaeth Llyfrgelloedd.** Tra bod nifer benthyciadau rhwng Ebrill a Gorffennaf 2021 llawer is na'r patrwm hanesyddol - 44,481 (dim yn cynnwys eitemau digidol) o'i gymharu â bron i 35,000 ar gyfartaledd pob mis yn 2019/20; mae'r lefel llawer uwch na'r flwyddyn flaenorol pan gofnodwyd ddim ond 77,641 o fenthyciadau dros y flwyddyn gyfan. Ond dros yr un cyfnod mae gwasanaeth newydd wedi cael ei gyflwyno i ymateb i'r galw gan drigolion Gwynedd. Mae 1,361 o becynnau cludo i'r cartref wedi cael eu darparu rhwng Ebrill a Gorffennaf 2021 a 3,899 o becynnau clicio a chasglu wedi eu darparu dros yr un cyfnod. Byddwn yn ystyried y data yma wrth fesur perfformiad yn y dyfodol.
- **Amgueddfeydd ac Oriolau.** Er bod Storiell ac Amgueddfa Lloyd George wedi ail-agor, mae gallu'r gwasanaeth i ddenu'r un lefel o ymwelwyr wedi cael ei effeithio o ganlyniad i gyfyngiadau ar nifer mynediad i'r adeiladau. Golygai hyn mai dim ond 2,192 o ymwelwyr sydd wedi cael mynediad i'r adeiladau rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2021 o'i gymharu â bron i 20,000 ar gyfartaledd dros yr un cyfnod yn 2019. Ond mewn ymateb i'r sefyllfa yn 2020 mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno gwasanaeth digidol Newydd. Rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2021 roedd 138,727 wedi ymgysylltu gyda'r gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaeth newydd wedi ymestyn mynediad i ddefnyddwyr a chyflwyno mynediad i gynulleidfa newydd. Byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y llwyfan yma i'r dyfodol wrth fesur perfformiad.
- **Byw'n Iach.** Er bod y canolfannau hamdden wedi ailagor ers mis Mai, nid ydynt yn gallu denu yr un lefel o ddefnyddwyr gan fod COVID yn parhau i gyfyngu ar niferoedd sydd yn gallu defnyddio'r gofod yn ddiogel a bod angen ailsefydlu patrymau defnydd cwsmeriaid. Rhwng Mai a Mehefin 2021 fe wnaeth 54,757 ddefnyddio'r canolfannau hamdden, oedd bron i 70% o ymweliadau blwyddyn 2020/21 gyfan. Ond mae'r lefel yn parhau islaw'r lefel cyn cyfnod COVID pan oedd tua 105,000 yn defnyddio'r canolfannau ar gyfartaledd pob mis. Byddwn yn parhau i gefnogi Cwmni Byw'n Iach i gynllunio i ymateb i'r bwlch incwm yn sgil y gostyngiad yn nifer defnyddwyr gwasanaeth.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

- 4.1 Bu i'r Adran Economi a Chymuned danwario £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, yn bennaf gan fod llai o gostau yn sgil cau nifer o wasanaethau am gyfnodau helaeth o'r flwyddyn. Mae adolygiad manwl o sefyllfa ariannol 2021/22 yr Adran wedi ei gynnal yn ddiweddar fel rhan o adolygiad refeniw diwedd Awst ar gyfer y Cyngor gyfan. Rhagwelir y bydd yr Adran yn tanwario £203k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22. Prif reswm dros y tanwariant yw bod yr Adran yn rhagori ar y lefelau incwm eleni, yn benodol yn y meysydd traethau ac angorfeydd Hafan. Mae'r sefyllfa yma yn cael ei adrodd fel eitem ar wahân i Gabinet 12 Hydref 2021.
- 4.2 Byddaf angen trafod cyllideb 2022/23 gyda'r Adran yng ngwydd y cynnydd yn yr incwm a'r galw am gyllideb uwch i gwrdd a'r galw yn sgil COVID wedi i grantiau'r Llywodraeth ddod i ben.
- 4.3 Nid oes gan yr Adran gynllun arbedion newydd ar gyfer 2021/22, ond mae 4 cynllun sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol gyda 3 yn disgwyl am ganiatâd i godi ffioedd fel rhan o adolygiad parcio. Mae trefniadau ar waith gan yr Adran Amgylchedd i wneud yr adolygiad ac mae'r

amserlen i wireddu'r arbedion yn ddibynnol ar y gwaith yma. Dwi'n gobeithio gallu cadarnhau'r amserlen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Byddaf yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac yn cyflwyno adroddiad pellach i sylw'r Cabinet ar ailgynllunio'r gwasanaeth adfywio a chefnogi busnes.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt prioroldeb

Pennaeth Cyllid:

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio ag awdur yr adroddiad ac rwyf yn fodlon fod rhan 4 yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa.

Mae'r adroddiad yn amlygu nifer o ffyrdd mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar fesurau perfformiad yr Adran ac oherwydd hynny wedi creu oediad mewn ambell i gynllun arbedion. Er hynny, mae'n bositif gweld cynnydd mewn nifer defnyddwyr rhai gwasanaethau, e.e. cynnydd yn defnyddwyr Hafan â amlygir yn 3.4.

Eitem 11

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 12 Hydref, 2021

Aelod Cabinet: Cynghorydd Nia Jeffreys

Swyddog Cyswllt: Geraint Owen/Iwan Evans

Rhif Cyswllt: 01286 679072

Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD
CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A
CHYFREITHIOL

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar y 15^{fed} o Fedi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 1.3 Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb, gyda nifer o enghreifftiau ple bo'r cyflawniad yn mynd tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir o dan amgylchiadau anodd. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn hyn o beth.

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 9 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Rwy'n crynhoi yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

2.1 CADW'R BUDD YN LLEOL

2.1.1 Rydym yn ystod y flwyddyn wedi bod yn treialu methodoleg newydd i asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol ac effaith lleol.

2.1.2 Fel rhan o'r cynllun peilot, rydym wedi cwblhau'r broses gaffael ar gyfer gwobrwyo cytundeb Taliadau Uniongyrchol Gwasanaeth Oedolion gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd . Mae cynnal y peilot wedi ein galluogi i ddeall sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio yn ymarferol a rhai o'r cyfleon a risgiau sydd yn gysylltiedig.

2.1.3 Mae'r cwmni buddugol ar gyfer cytundeb gwerth £200,000 wedi ymrwmo i:

- Gyflogi 3 swyddog sy'n byw yng Ngwynedd
- Gynnal 4 sesiwn hyfforddiant i fyfyrwyr gofal cymdeithasol
- 4 wythnos o brofiad gwaith i 2 myfyriwr
- Gynnig 20 awr o amser gwirfoddol i gefnogi elusennau lleol
- 2.5 awr yr wythnos i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ymhellach

2.1.4 Mae'r buddion yma yn ychwanegol i'r hyn a fyddai wedi ffurfio rhan o'r gytundeb efo'r cwmni buddugol yn y gorffennol.

2.1.5 Byddwn yn argymhell os yw'r drefn hon yn un byddwn yn argymhell i'r Cyngor ei mabwysiadu maes o law yn dilyn cynnal dau beilot caffael arall mewn meysydd gwaith gwahanol. Byddwn yn casglu adborth y farchnad yn ogystal a'r swyddogion sydd yn caffael fel rhan o'r asesiad terfynol.

2.2 MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH

2.2.1 Prif amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd a'r gwaith i'r dyfodol. Mae'r grŵp prosiect wedi ymateb trwy gyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched y Cyngor. Anelir i'r rhaglen ymateb i anghenion a dyheadau datblygu merched. Mae rhaglen fentora hefyd wedi'i sefydlu er mwyn i arweinwyr y Cyngor fod yn fentoriaid gyda'r sesiwn cyntaf wedi'i chynnal yn ystod Medi eleni.

2.2.2 Ym mis Mai 2021 trefnodd y grŵp prosiect fforymau trafod. Pwrpas y fforymau trafod yw darparu gofod i ferched drafod materion sy'n gallu effeithio ar eu dewisiadau a dyheadau gyrfaol. Mae'r fforymau hefyd yn gyfle i ferched i gynnal ac annog ei gilydd. Mynychodd 21 o ferched ar draws adrannau'r cyngor y fforymau. Mae'r pynciau a drafodwyd yn cael sylw bellach gan y grŵp prosiect megis - atgoffa'r gweithlu o'r polisi menapos, polisi absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, cyfleoedd datblygol a pharatoi arweinyddion y dyfodol.

- 2.2.3 Trefnwyd dau fforwm trafod i Aelodau Etholedig benywaidd y Cyngor hefyd. Mynychodd 11 o'r Aelodau. Trafodwyd pynciau megis oriau gweithio, recriwtio mwy o ferched i'r rôl, cyfryngau cymdeithasol a chydbwysedd bywyd a gwaith.
- 2.2.4 Bwriad hyn oll yw cynnig y cyfleon i ferched ddatblygu gyrfaedd fel uwch arweinwyr trwy gyfuniad o greu yr amgylchedd gwaith priodol yn ogystal a'u cefnogi ar lefel bersonol i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

2.3 SICRHAU TEGWCH I BAWB

- 2.3.1 Mabwysiadwyd y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant gan y Cyngor ar 6 Gorffennaf (rhyw 6 mis o flaen yr amserlen). Ei bwriad yw helpu swyddogion i sicrhau tegwch i bobl hefo nodweddion cydraddoldeb amrywiol. Rydym yn awr yn gweithio ar gynllun gweithredu a chyfathrebu er mwyn rhoi'r polisi ar waith.
- 2.3.2 Cwblhawyd ymgysylltiad (arolwg electroneg) er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd wrth ymwneud efo'r Cyngor. Bu i ni ymgysylltu efo'r staff hefyd er mwyn ein helpu i ddeall agweddau staff tuag at hyfforddiant a hyfforddiant cydraddoldeb yn benodol. Mae'r wybodaeth yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith yn ystod yr Hydref.
- 2.3.3 Rhannwyd adroddiad ar ddata cydraddoldeb staff gyda'r Cabinet ar 6^{ed} Gorffennaf fel rhan o Adroddiad Blynyddol 2020-21. Mae ymdrechion yn parhau er mwyn sicrhau bod canran uwch o staff yn ymateb i'r cais i gwblhau'r holiadur.
- 2.3.4 Cynhelir awdit gwirfoddol ar y bwlch tâl rhwng y rhywiau pob 3 blynedd a dylem fod wedi cynnal y diwethaf yn 2020. Oherwydd y pandemig ni lwyddwyd i'w gynnal bryd hynny ond mae arbenigwr annibynnol wrthi yn cynnal yr adolygiad yn bresennol gyda rhagolygon y bydd y casgliadau yn hysbys i ni yn fuan.
- 2.3.5 Mae'r gwaith o adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd Lefel 2 Cynllun "Hyderus o ran Anabledd" (cynllun sy'n rhoi arweiniad i fudiadau ar sut i gefnogi pobl anabl o fewn y gweithlu) wedi ei gwblhau. Byddwn yn symud ymlaen yn awr i greu cynllun gweithredu. Bydd cyflawni'r gwaith hwn yn llwyddiannus yn fodd arall o arddangos bod y Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb yn y man gwaith a thu hwnt.

2.4 ENWAU LLEFYDD CYNHENID GYMREIG

- 2.4.1 Mae'r gwaith hwn wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth gwella o'r newydd yn yr adolygiad diweddaraf o Gynllun y Cyngor er mwyn:
- Cysoni'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth arddel enwau Cymraeg
 - Sicrhau mai fersiynau Cymraeg enwau lleoedd sydd yn cael y flaenoriaeth gyda phartneriaid allanol
 - Ceisio cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu ac atal mwy o newidiadau i enwau cynhenid
- 2.4.2 Penodwyd swyddog prosiect i weithredu ar lunio rhaglen waith a chyflawni ar y cerrig milltir allweddol. Maent yn gyfuniad o faterion o fewn rheolaeth y Cyngor (egwyddorion y gall y Cyngor eu pasio) a materion sydd angen sylw pellach drwy gyd-weithio gydag eraill. Mae'r swyddog newydd wedi cychwyn yn ei waith ers dechrau mis Medi.

2.5 HYBU DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN GWASANAETHAU'R CYNGOR

- 2.5.1 Dyma'r cynllun sydd eisoes wedi llwyddo i sicrhau dynodiad iaith penodol ar gyfer pob swydd yn y Cyngor ac sydd wedi mynd cryn dipyn o'r ffordd i wirio gallu deilyddion presennol y swyddi i gyrraedd gofynion ieithyddol eu swyddi (ynghyd a chefnogi unigolion sydd angen datblygiad pellach i gyrraedd y gofynion hynny). Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf;
- **2593** o staff canolog wedi cyflwyno hunanasesiad
 - **65%** o staff canolog wedi cyflwyno hunanasesiad
 - **92%** yn cyrraedd (neu basio) Dynodiadau iaith eu swydd
- 2.5.2 Mae'n braf nodi bod canran y staff sy'n cyrraedd (neu basio, gan amlaf) Dynodiadau iaith eu swyddi yn codi hefyd, gyda 672 o staff yn cyrraedd y Dynodiadau'n union, a 1,722 arall â sgiliau uwch na Dynodiadau iaith eu swydd.
- 2.5.3 Bu cydweithio agos gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i symud y prosiect ymlaen yn yr Adran honno.
- 1 gwasanaeth wedi gorffen casglu asesiadau gan staff
 - Wrthi'n trafod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn sicrhau cysondeb â gweddill y Cyngor
- 2.5.4 Datblygiad calonogol arall, ac yn dilyn ymgyrch penodol i gasglu asesiadau gan weithlu rheng flaen y maes gofal (adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phlant a Chefnogi Teuluoedd), yw y llwyddwyd i gasglu oddeutu 10 gwaith yr asesiadau ym mis Awst o gymharu â Mehefin eleni.
- 2.5.5 Yn olaf, mae'r System Sgiliau iaith yn parhau i gael ei ddatblygu ar y cyd â'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Yn ddiweddar, ychwanegwyd y gallu i dracio cynnydd unigolion trwy gymharu'r holl asesiadau a gwblhawyd ganddynt.

2.6 Y GYMRAEG A'R GWASANAETHAU CYHOEDDUS

- 2.6.1 Yn sgil ail ffurfio is-grŵp y Gymraeg, dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cyflwynwyd amlinelliad o'r prosiect derbynfydd a dderbyniodd gefnogaeth mewn egwyddor gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021.

Pwysleisir bod ffocws y prosiect (a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd) ar y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac nid ar argaeledd gwasanaethau lle ddylai'r argaeledd hwnnw fod yn ddiofyn.

- 2.6.2 Nod y prosiect felly fydd i ddeall pa ffactorau sy'n creu'r cyd-destun gorau posib er mwyn annog defnydd o wasanaethau Cymraeg. Ar ddiwedd y prosiect, disgwyliai'r is-grŵp
- dderbyn rhestr o argymhellion i fynd i'r afael a pha ffactorau sy'n cael dylanwad ar ddewisiadau ieithyddol, beth ydi'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rhoi ar waith, a beth sy'n gwanhau'r dylanwadau hynny hefyd.
 - Yr amcan wedyn fyddai galluogi sefydliadau i gynllunio, strwythuro a chyflwyno'u gwasanaethau Cymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol posib.
- 2.6.3 Cyflwynwyd y briff prosiect llawn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi, gyda golwg i gomisiynu adnoddau allanol i yrru'r gwaith yn ei flaen.

2.7 SICRHAU FOD RHEOLWYR YN ARDDEL EU RÔL IECHYD A DIOGELWCH YN EFFEITHIOL

2.7.1 Mae sawl rheswm pam fo mwy o bwysau nag erioed ar sefydliadau i gael trefniadau rheoli iechyd a diogelwch cadarn mewn lle. Mae canllawiau dedfrydu troseddau llawer mwy llym wedi dod i rym tros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â iechyd a diogelwch ac yn sicr, mae hynny yn yrrwr digonol ynddo'i hun. Yn ogystal, bu cynnydd arwyddocaol llynedd yn yr 'excess' ar bolisi yswiriant y Cyngor sy'n golygu mai'r Cyngor bellach sy'n talu y £75k cyntaf o unrhyw hawliad anaf personol na ellir ei amddiffyn. Ond, yn ogystal a'r oblygiadau ariannol, mae'r pandemig wedi dod a phwysigrwydd iechyd a diogelwch adref i bawb gyda llesiant yn benodol yn bwnc llosg cenedlaethol. Mae'n faes sydd wedi dod yn ganolbwynt trefniadau pob sefydliad, bron a bod tros nos. Mae newidiadau ym mhatrymau cymdeithasol a gwleidyddol hefyd wedi gweld disgwyliadau cymdeithas yn codi, gyda gofyn i sefydliadau cyhoeddus fod yn arddangos y safonau uchaf a'r ymarfer gorau. Mae'n faes erbyn hyn sydd o dan chwydd wydr barhaus.

2.7.2 Bydd y prosiect yn parchu egwyddorion Ffordd Gwynedd gyda phwyslais ar bedair 'C' – sef

- Cysondeb - ar draws yr Adrannau
- Cymesur – rheolaeth risg synhwyrol ble fo mesurau rheoli yn gymesur â lefel risg
- Cydweithio – nid yn unig yn fewnol ond gyda phartneriaid a rhyng-ddeiliaid er mwyn gwthio safonau ar draws y gadwyn gyflenwi
- Cadernid – systemau cadarn yn seiliedig ar ddata dibynadwy

2.7.3 Bydd y gwaith yn edrych ar 6 elfen, a bydd amcanion penodol ar gyfer y 6 elfen a fydd, pan wedi eu cyfuno, yn greiddiol i fframwaith o reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol, sef:

- Arweinyddiaeth glir a gweledol ar faterion iechyd a diogelwch
- Systemau: Cael systemau effeithiol a chymesurol ble gellir cynhyrchu data byw a synhwyrol i gefnogi rheolaeth iechyd a diogelwch a chefnogi arloesedd
- Cymhwysedd: Cael y gweithlu (ar bob lefel) yn wybodus ac yn gymwys i'w rôl ac wedi eu hyfforddi yn y risgiau y maent yn wynebu yn y gwaith, gan sicrhau argaeledd at gyngor cymwys amserol i gynghori ar risgiau arbenigol / datblygiadau diweddaraf ac arloesol yn y maes.
- Cymuned: Creu rhwydwaith, strwythurau a chymuned ar gyfer ymgynghori, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau ar faterion iechyd a diogelwch, nid yn unig yn fewnol, ond hefyd ymysg rhwng-ddeiliad megis y trydydd sector, contractwyr a chyflenwyr,
- Sicrwydd ansawdd: Cyfundrefn effeithiol o fonitro, dysgu o gamgymeriadau, dan ddatblygu ac esblygu yn barhaus.

2.8 CYNLLUNIO'R GWEITHLU

2.8.1 Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod y flwyddyn bresennol tra bod ymrwymiad bellach i ymestyn y nifer o brentisiaid ac hyfforddeion presennol ac hynny ar draws nifer cynyddol o wasanaethau ar draws y Cyngor.

2.8.2 Yn hyn o beth, cymeradwyodd y Cabinet gyfanswm o £1.1 miliwn o fuddsoddiad yn ei gyfarfod ar y 18fed o Fai er mwyn sicrhau parhad y Rhaglen o ddenu a datblygu talent dros y tair blynedd nesaf. Mae'r buddsoddiad hwnnw yn gyfuniad o £600,000 ar gyfer y Cynllun Prentisiaethau a £500,000 ar gyfer y Cynllun Arweinwyr ac Arbenigwyr Yfory (cynlluniau graddedigion y Cyngor).

Mae 29 prentis wedi eu recriwtio ers i'r Cynllun prentisiaethau gychwyn yn 2019 (17 yn 2019 ac yna 12 hyd yma eleni) gydag 8 prentis arall i'w penodi yn ystod yr Hydref – cyfanswm o 37 prentis sydd wedi'i gyflawni efo'r buddsoddiad gwreiddiol o £300,000 a wnaed gan y Cabinet yn 2019. O'r 17 a benodwyd yn 2019, penodwyd 9 ohonynt eisoes i swyddi gyda'r Cyngor.

Byddwn yn dechrau buddsoddi'r £600,000 a gymeradwywyd ym mis Mai ar ôl penodi i bob un o'r 37 prentisiaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Ymhellach penodwyd 7 hyfforddai ar Gynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory eleni gyda rhagolygon, ar sail datblygiad hyfforddeion yn y gorffennol, y bydd y Cyngor yn elwa o'u penodi yn y tymor hirach.

2.8.3 Mae'r Cynllun Prentisiaethau yn benodol wedi cynnig gwerth ychwanegol trwy ddenu a recriwtio merched i swyddi a gysylltir yn draddodiadol efo dynion yn ogystal a denu dynion i ymgeisio a chael eu penodi i swyddi a gyflawnir yn draddodiadol gan ferched. Ymhellach, mae'r gwaith a wnaed i geisio sicrhau bod yr hyfforddiant ffurfiol yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dwyn ffrwyth ac hynny fel rhan o'r Cynllun cynhwysfawr sydd wedi'i ddatblygu dros y ddwy flynedd diwethaf.

2.8.4 Mae'n deg i nodi bod llwyddiant y prosiect yn rhoi pwysau ychwanegol ar gapasiti y tîm i ddarparu'r gefnogaeth o ansawdd briodol i'r Prentisiaid. Mae hyn yn derbyn sylw ac yn debygol o arwain at ychwanegu at y capasiti presennol cyn dechrau ar y paratodau ar gyfer recriwtio y garfan nesaf o brentisiaid.

2.8.5 O ran y gweithlu presennol, byddwn yn ymestyn y Rhaglen Datblygu Potensial, sydd eisoes wedi bod yn hynod lwyddiannus o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, i weddill y Cyngor gyda'r paratodau ar gyfer gwneud hyn eisoes ar y gweill yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

2.9 RHOI Ffordd GWYNEDD AR WAITH

2.9.1 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar yr 16 o Orffennaf yn adrodd ar gynnwys llythyr Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn a chynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor yn ogystal ag adlewyrchiadau Tîm Rheoli'r Cyngor i'r sylwadau a wnaed. Roedd y Prif Weithredwr eisoes wedi datgan ei awydd i gynnal adolygiad o'r cynnydd ar ffurf hunan-asesiad pellach yn yr Hydref a cytunodd aelodau'r Pwyllgor i gydweithio ag o i'r perwyl hwnnw trwy ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn asesu i ba raddau y mae egwyddorion Ffordd Gwynedd wedi gwreiddio yn y Cyngor. Bydd aelodau'r Cabinet yn amlwg efo rhan allweddol i'w chwarae yn yr adolygiad hefyd.

2.9.2 Yn y cyfamser, gellir adrodd bod hyfforddiant, ar ffurf rhithiol, yn parhau i gael ei gynnig a'i gynnal tra bo adolygiadau Gwasanaeth gafodd eu hoedi yn ystod

y cyfnodau clo, yn cael eu hatgyfodi yn araf fel ag y mae'r sefyllfa yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

2.9.3 Mae'r drefn herio perfformiad newydd wedi'i chyflwyno gydag adroddiadau perfformiad misol yn cael eu cyflwyno, ac yn cael eu herio, yn fisol gan yr aelodau Cabinet tra bo'r cyfarfodydd herio perfformiad hanesyddol, gyda chynrychiolaeth o 'fysg aelodaeth y Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael eu cynnal ddwy waith y flwyddyn bellach ac hynny fel rhan o'r paratodau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau perfformiad i'r Cabinet.

2.10 PROSIECTAU ERAILL

2.10.1 Prosiect Systemau Adnoddau Dynol

Mae'r prosiect yma wedi llithro ryw gymaint yn ystod y 6 mis diwethaf yn sgil blaenoriaethau eraill y Cyngor. Fodd bynnag, anelir i gyflwyno modiwlau yn ymwneud â galluogi rheolwyr i hysbysebu, penodi a therfynu cyflogaeth staff o fewn y flwyddyn gyllidol bresennol. Yn ogystal, anelir i ryddhau modiwl ar gyfer cofnodi absenoldebau staff trwy'r porth hunanwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

2.10.2 Prosiect Hunan-Wasanaeth Cyhoeddus

Yn ystod 2020-21, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o wasanaethau ar-lein oherwydd y pandemig, ac erbyn hyn mae dros 50% o'r ceisiadau yn hanner y gwasanaethau hynny yn cael eu cyflwyno drwy hunanwasanaeth.

Mae'r pandemig wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau ar-lein mewn meysydd lle nad oedd rhai cynt, ac wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau am y gwasanaethau ar-lein yn gyffredinol. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth staff ynghylch sut y gall hunanwasanaeth fod o fudd i'w gwasanaethau nhw. O'r herwydd, mae nifer o staff yn cysylltu efo ceisiadau i ddatblygu gwasanaethau newydd ar-lein. Mae hyn i'w groesawu yn fawr, ac mae'n gosod her arall o flaenoriaethu'r holl geisiadau mewn modd sydd yn dod â budd i'n cwsmeriaid a'r gwasanaethau dan sylw.

Y gwasanaeth diweddaraf i'w ychwanegu i'r ddarpariaeth ar-lein yw yr un ar gyfer cyflwyno cais am fynediad i ysgolion y Sir. Mae'r adborth cychwynnol ers iddo gael ei gyflwyno yn arddangos bod hwn yn ddatblygiad sy'n cael ei groesawu gan rieni yn ogystal ag hwyluso gwaith swyddogion.

3. PERFFORMIAD

3.1 Nodir isod trosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn ariannol bresennol. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny.

3.2 Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant

3.2.1 Dyfarnwyd Lefel Aur o'r Safon Iechyd Corfforaethol (Safon Iechyd yn y Gweithle a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru) am y pedwerydd tro ers 2011. Bu i'r Asesydd nodi,

“Dwi’n cydnabod a gwerthfawrogi fod sefydliad fel awdurdod lleol wedi bod o dan gryn straen dros y deuddeg mis diwethaf a fod hyn wedi cael oblygiadau ar lles eich gweithwyr.

Roedd y wybodaeth a’r manylion yn eich Crynodeb Sefydliad yn gynhwysfawr ac yn dangos, hyd yn oed yn y cyfnod anodd yma, fod Cyngor Gwynedd wedi parhau i gynnal ei darpariaeth lles a iechyd, yn ogystal â datblygu a chyflwyno mentrau newydd”.

3.2.2 Mae swyddogion yn y Gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn ganolog i’n trefniadau ar gyfer dygymod efo’r sefyllfa COVID, gyda’r arweiniad a’r canllawiau gweithredu yn newid yn gyson. Mae hyn oll wedi golygu bod rhai o’r cyfrifoldebau eraill yr ymgwymerir a hwy yn arferol, megis cynnal ymarferiadau monitro iechyd a diogelwch, wedi syrthio. Fodd bynnag, o roi y prosiect “Sicrhau bod Rheolwyr yn Arddel eu Rôl Iechyd a Diogelwch” ar waith (fel ag y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad), rwyf yn dawel hyderus y byddwn yn gallu ail-afael yn yr agweddau hyn o waith beunyddiol yn fuan.

3.3 Cyswllt Cwsmer a Cofrestru

3.3.1 Bu i’r Cabinet gymeradwyo cais am £83k er mwyn cyllido cost addasiadau i Ganolfan Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth yn ei gyfarfod ar y 27 o Orffennaf eleni. Bydd gwireddu’r addasiadau hyn yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaeth cyswllt cwsmer cynhwysfawr wyneb i wyneb, yn ogystal ag ar y ffôn, i drigolion Gwynedd yn yr ardal ar ben yr hyn a ddarperir yn bresennol ym Mhwlheli, Dolgellau a Chaernarfon.

3.3.2 Mae’r Gwasanaeth Cofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau gwirioneddol anodd dros y deunaw mis diwethaf ond mae’r swyddogion o dan bwysau aruthrol yn bresennol yn sgîl swyddi gwag ag absenoldebau. Mae camau wedi’u cymryd eisoes i gryfhau capasiti rheolaethol ac arbenigol o fewn yr Uned ond mae ychwaneg o waith ei angen er mwyn caniatáu i’r Gwasanaeth fod ar ei orau posibil. Er hyn mae’r gyfradd o farwolaethau a genedigaethau a gofrestrir o fewn 5 diwrnod yn cymharu’n dda efo gwasanaethau cyfatebol ar draws yr awdurdodau.

3.3.3 Mae’r amser cyfartalog a gymerir i ymateb i ymholiadau ffôn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn hyd yma. Mae hyn yn gyfuniad o drosiant staff ac hefyd tystiolaeth gynyddol o alwadau sy’n ein cyrraedd oherwydd nad yw cais/ymholiad cyntaf wedi’i ymateb iddo gan wasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Mae hyn yn ddealladwy ar un llaw, o ystyried y pwysau sydd wedi bod ar nifer o’r gwasanaethau hynny yn ystod y pandemig, ond mae lle yma i ystyried beth allwn ei wneud fel Cyngor i wella perfformiad yn gyffredinol. Byddai rhoi sylw i hynny, yn fy marn i, yn gyfraniad pwysig i wella perfformiad y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn ei dro.

3.4 Democratiaeth a Iaith

3.4.1 Bu i’r Cabinet gymeradwyo cais am £130k er mwyn cyllido cost addasu ystafelloedd cyfarfod ar draws y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 27 o Orffennaf. Bydd yr addasiadau hyn yn hwyluso’r gofyn i ni allu cynnal cyfarfodydd rhithiol/hybrid i’r dyfodol yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2021 ac yn

unol a dymuniadau yr holl Aelodau. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod yr Hydref a bydd modd treialu cynnal cyfarfodydd efo'r ddarpariaeth newydd cyn y Flwyddyn Newydd.

3.5 Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

3.5.1 Mae'r Cynllun Buddiannau Staff yn mynd o gryfder i gryfder gyda 214 o fusnesau yn y Sir yn awr wedi ymuno ag o. Mae hyn yn gynydd o 30 o fusnesau yn ystod cyfnod y pandemig, gydag adborth cyson bositif gan staff a busnesau yn arddangos gwerthfawrogiad o'r hyn y mae'r Cynllun wedi'i olygu iddyn nhw.

3.5.2 Rwyf hefyd yn hynod falch o gael y cyfle i adrodd bod yr adborth gan swyddogion y Cyngor i'r ddarpariaeth hyfforddiant mewnol gyda'r gorau y mae o wedi bod erioed, gyda'r sgôr gyfartalog allan o 10 yn amrywio rhwng 9.1 a 9.5 o un mis i'r nesaf gan staff sydd wedi manteisio ar yr hyn sydd wedi'i gynnig. Mae hyn mewn ymateb i gwestiwn sy'n gofyn "i ba raddau mae'r hyfforddiant yn eich helpu i gyflawni eich rôl". Mae hyn yn hynod galonogol o ystyried bod y mwyafrif llethol o'r hyfforddiant a ddarparwyd wedi'i gyflwyno yn rhithiol.

3.6 Adnoddau Dynol

3.6.1 Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol dros ben gan ymgeiswyr ac Aelodau yng nghyswllt y modd yr aethpwyd ati i recriwtio a phenodi Prif Weithredwr newydd ac yna'r Pennaeth Tai ac Eiddo. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r modd yr aethpwyd ati i roi pecyn cyflogaeth cynhwysfawr at ei gilydd yn ogystal a'r gofal a gymrwyd gydag ymgeiswyr er mwyn eu tywys trwy'r trefniadau rhithiol i asesu a phenodi.

3.6.2 Secondiwyd un o'r Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol am y deunaw mis nesaf er mwyn canolbwyntio ar gydgordio trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweithio i'r dyfodol. Ymgynghorwyd yn barod efo deilyddion swyddi, ple cytunwyd ei bod yn ymarferol iddynt gyflawni eu dyletswyddau o gartref, gan bwysleisio mai ar sail gwirfoddol y bydd unrhyw un sydd am weithio o gartref, neu'n rhannol o gartref, yn gwneud hynny. Bydd mwy i'w adrodd ar hyn yn sgîl y gwaith sydd wedi'i amserlenu i'w gyflawni rhwng rŵan a diwedd Rhagfyr.

3.6.3 Mae'r Gwasanaeth wedi dod i gytundeb lefel gwasanaeth efo Parc Cenedlaethol Eryri i ddarparu cyngor a chefnogaeth ym maes cyflogaeth hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn y lle cyntaf.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1 Bu i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol danwario o £100k yn ystod y flwyddyn ariannol blaenorol ac hynny'n bennaf oherwydd cyfuniad o incwm ychwanegol a swyddi a fu yn wag am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2021/22 yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac nid oes unrhyw bryder penodol ynglŷn a gallu'r Adran i weithredu o fewn ei chyllideb eto eleni.

4.2 Ers ei dyfodiad yn 2015, mae'r Adran wedi adnabod £2.5 miliwn o arbedion gan sicrhau cyfanswm arbediad o £195,500 yn 2020/21 gyda swm pellach o £117,750 i'w wireddu yn ystod y flwyddyn gyfredol. Mae £17,250 eisoes wedi'i wireddu gyda'r £100,500 sy'n weddill, i'w gyflawni'n llawn rhwng y Gwasanaeth

Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd rhan o'r arbediad sydd i'w wireddu gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cael ei wireddu gan gynllun amgen i'r hyn a nodwyd yn wreiddiol. Bydd y bwriad i ddileu dwy swydd o fewn y Gwasanaeth yn cael ei leihau i un swydd trwy weithredu'r cynllun amgen sy'n ymwneud ag arbedion treth ar gynllun newydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn y maes pensiwn i weithwyr y Cyngor. Mae hwn yn gynllun a wireddir trwy gydweithrediad y gwasanaethau Pensiwn a Cyflogau yn yr Adran Cyllid gyda'r arbediad yn cael ei rannu rhwng y tri Gwasanaeth. Bydd yr arbediad yn cyfrannu £28,000 at gyfanswm arbediad y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn ystod y flwyddyn bresennol. Ar y sail yma, rwyf yn gwbl fodlon bod y cynlluniau yn eu lle gan y naill Wasanaeth a'r llall er mwyn gwireddu'r arbedion yn llawn.

GWASANAETH CYFREITHIOL

1. PERFFORMIAD

Dangosyddion

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cofnodi un dangosydd perfformiad meintiol. Cesglir adborth drwy ffurf holiadur achos a anfonir at swyddogion sydd yn derbyn y gwasanaeth cyfreithiol ar ddiwedd achos. Gosodir meincnod yn erbyn lefel bodlonrwydd sydd yn cyrraedd 10/10.

Darperir gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys meysydd arbenigol megis cyflogaeth, eiddo masnachol, amddiffyn plant, ymgyfreithio a chynllunio ynghyd a gorchmynion traffig a casglu dyledion. Mae hyn yn adlewyrchu y rhan fwyaf o waith y Cyngor gan gynnwys prosiectau sylweddol Gwynedd a rhanbarthol. Gwneir hyn yn bennaf drwy y tîm mewnol gan dynnu mewn arbenigeddau allanol penodol ar adegau i gefnogi gwaith a sicrhau rheolaeth risg gyfreithiol briodol. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson.

Ar gyfer 2020/2021 adroddwyd fod y canran o achosion oedd yn graddio y gwasanaeth yn 10/10 yn 87%.

Ar gyfer hanner cyntaf 2021/2022 roedd y canran o ymatebion a dderbyniwyd yn 100%.

2. MATERION CYNLLUN Y CYNGOR

Priodoldeb

Cydweithio yn lleol ac yn rhanbarthol i gynllunio ac ymateb i newidiadau i lywodraethu ac i'r Cyfansoddiad fydd yn deillio o ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)2020.

Statws

Rydym wedi arwain a chefnogi rhaglen waith i ymateb i ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Sefydlwyd y rhaglen waith ynghyd a tîm prosiect dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu . Mae'r gwaith yn symud

ymlaen yn unol a'r rhaglen gyda adroddiadau yn ôl y gofyn i'r Cyngor Cabinet a Phwyllgorau eraill. Mae'r gwaith hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol ac rydym yn cyfrannu at waith cenedlaethol gyda'r llywodraeth ac awdurdodau eraill ar y Ddeddf.

Etholiadau

Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.

Ymateb i ardrawiad ac oblygiadau Covid-19 ar etholiadau ac isetholiadau all gael eu heffeithio drwy gynllunio trefniadau sydd yn sicrhau cynnal etholiadau effeithiol a phriodol.

Statws

Mae rhaglen waith wedi ei sefydlu a swyddog prosiect wedi ei phenodi gan ddefnyddio grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag rhaid cydnabod fod effaith cyfnodau clo yn arbennig ar sefydliadau addysgol wedi cael ardrawiad ar ein gallu i symud y gwaith yma yn ei flaen yn ystod 2020/21. Gyda Swyddog hyrwyddo wedi ei phenodi mae rhaglen waith o ymgysylltu a chreu deunydd a digwyddiadau hyrwyddo dealltwriaeth a chyfranogiad yn y broses etholiadol yn symud ymlaen gyda golwg ar Fai 2022.

Cynhaliwyd etholiadau Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu ynghyd a ac Is Etholiadau wedi codi y rheoliadau argyfwng. Llwyddwyd i gynnal prosesau yma o dan gyfyngiadau COVID-19 gan gyfarch y gofynion diogelwch lled sylweddol oedd mewn grym ar y pryd ar draws dwy etholaeth gan gynnwys 136 o orsafoedd pleidleisio a dwy ganolfan gyfrif. Yn anffodus bu problem gyda un papur pleidleisio yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer etholiad rhanbarthol y Senedd yng Ngogledd Cymru ac mae adolygiad manwl wedi ei gynnal gyda'r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag roedd maint y gofynion ychwanegol o ran trefnu a darparu lleoliadau diogel yn sylweddol er gwaethaf cefnogaeth a cymorth parod yn benodol gan y Tîm Iechyd a Diogelwch yn golygu y llwyddwyd i gynnal yr etholiadau.

Crwner

Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal all olygu cynnal adolygiad o'r ardal Grwnerol bresennol.

Statws

Mae trafodaeth wedi cychwyn gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynglŷn a'r prosesau yma. Fodd bynnag mae'r nifer o fudd ddeiliaid i'r broses adolygu yn golygu fod amserlennu a sgôp yn destun trafodaeth sydd yn parhau. Fel Awdurdod arweiniol ar ran Gwynedd a Môn mae gennym rôl ganolog yn hyn. Mae Uwch Grwner gweithredol mewn lle yn Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru sydd yn golygu fod y Gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ddi-dor. Mae arbediad yn ynghlwm a'r adolygiad yma ond, cydnabyddir fod adolygiad ardal Crwner yn broses sydd angen consensws ar draw y rhanbarth ynglŷn a'r egwyddor a ffurf y canlyniad.

3. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

Bu i'r Adran Gyfreithiol danwario o £47k yn ystod y flwyddyn ariannol blaenorol ac hynny'n bennaf oherwydd incwm ond, cyfraniad gan swydd wag hefyd. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2021/22 yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac nid oes unrhyw bryder penodol ynglŷn a gallu'r Gwasanaeth i weithredu o fewn ei chyllideb eto eleni.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf gywirdeb yr agweddau ariannol yn adroddiad yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Yn benodol, cadarnhaf gynnwys yr adroddiad sy'n datgan bod y cynlluniau arbedion ar drac i'w cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.